

Ceredigion

Cynllun Datblygu Lleol
2007-2022



Adroddiad Monitro Blynyddol 2016

Cyfnod Monitro 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016



Cyngor Sir Ceredigion, Hydref 2016



Cynnwys

1. Cynllun Gweithredol a Phrif Gasgliadau	1
2. Rhagymadrodd	11
3. Newidiadau yn y Cyd-destun	13
4. Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol	29
5. Fframwaith Monitro Dangosyddion AAS/AG	109
6. Casgliadau ac Argymhellion	167
Atodiad 1: Newidiadau i'r Fframwaith Monitro (2015 - 2016)	175
Atodiad 2: Crynodeb o Ddangosyddion y CDLI	179
Atodiad 3: Crynodeb o'r Dangosyddion Cynaliadwyedd	189
Atodiad 4: Statws Safleoedd a Neilltuwyd	199
Atodiad 5: Rhestr o'r Canllawiau Cynllunio Atodol	219
Atodiad 6 AMRH03: Strategaeth Anheddu, Grwpiau Aneddiadau	221
Atodiad 7: AMRH04 Strategaeth Anheddu - Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'	229
Atodiad 8: AMRH15 Rychwant o Dai - Perfformiad	235
Atodiad 9: AMRE06 Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig 2016	237

1. Cynllun Gweithredol a Phrif Gasgliadau

- 1.1 Cafodd CDLI Ceredigion ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ar 25 Ebrill 2013. Dyma'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016. Dylai'r Adroddiad Monitro Blynyddol asesu i ba raddau y mae strategaethau, polisïau a safleoedd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn cael eu cyflenwi. Yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw'r brif ddull o adolygu pa mor berthnasol a llwyddiannus yw'r CDLI a phenderfynu ar unrhyw newidiadau gofynnol o'r tueddiadau sefydledig a nodwyd yn yr ail a'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol.

Polisi Cenedlaethol, Deddfwriaeth ac Ystyriaethau Allanol

- 1.2 Mae polisi cenedlaethol a deddfwriaeth a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro hwn yn cynnwys y canlynol:
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
 - Deddf Cynllunio (Cymru) (2015)
 - Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)
 - Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Wales) (2016)
 - Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8 (Ionawr 2016)
 - Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol 2il Argraffiad (Awst 2015)
 - Polisi Cynllunio Cymru Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol Dogfen Ymgynghori (Mawrth 2016)
 - Newidiadau i Nodyn Cyngor Technegol 20 - Cynllunio a'r Gymraeg Dogfen Ymgynghori (Ionawr 2016)
 - Newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru Pennod 10 Datblygu Canolfannau Manwerthu a Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygu Canolfannau Manwerthu (Medi 2015)
 - Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel - Pecyn Cymorth i Gynllunwyr (Medi 2015)
 - CL-01-15 Diweddariadau i Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn - Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn (2013-18) Ymrwymadau
 - Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (Mawrth 2016) a Chanllawiau ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad a Chanllawiau Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: Pennu gwerth safle (Mawrth 2016)
 - Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru - Drafft Cychwynnol (Tachwedd 2015)
 - Effeithlonrwydd Ynni Cymru - Strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf (2016 - 2026)
 - Strategaeth Ddŵr i Gymru (Awst 2015)
- 1.3 Er y cydnabyddir bod deddfwriaeth newydd a pholisi cenedlaethol sy'n berthnasol i'r gwaith o lunio'r cynllun wedi cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro, mae llawer o'r manylion gan gynnwys rhai Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) a newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru mewn ffurf ddrafft, ac mae'n bosib y byddant yn newid. At hynny, rhagwelir y bydd dogfennau perthnasol eraill (gan gynnwys, er enghraifft, TAN 24 - Yr Amgylchedd Hanesyddol a TAN 20 - Cynllunio a'r Gymraeg) yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro nesaf.
- 1.4 Fodd bynnag, nodir y gall fod angen gwneud mân newidiadau yn y dyfodol i nifer o bolisïau'r cynllun gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r Dreftadaeth

Adeiledig, y Gymraeg, Dylunio a Manwerthu yn dilyn cyflwyno'r polisi a chyfarwyddyd cenedlaethol a nodir uchod. Bydd y Cyngor yn y sefyllfa orau i ystyried unrhyw newidiadau gofynnol i'r CDLI yn dilyn cyflwyno newidiadau arfaethedig ychwanegol i'r polisi cenedlaethol a ddisgwylir yn 2016 - 2017. Mae hyn yn cyd-fynd ag amseriad y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol a'r angen statudol i adolygu'r cynllun yn 2017.

- 1.5 O ran yr amodau cenedlaethol, mae'r dirywiad yn yr economi yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith amlwg ar gyfraddau adeiladu tai ac felly ar gyflenwi pob math o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy. Er bod y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos rhai arwyddion o adferiad, gall fod oedi pellach oherwydd yr ansicrwydd ynghylch penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd.
- 1.6 Nid yw polisi cenedlaethol, deddfwriaeth ac amodau wedi arwain at unrhyw newidiadau arwyddocaol uniongyrchol yng nghyd-destun y cynllun. O ganlyniad nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer gweithredu mewn perthynas â'r CDLI ar hyn o bryd.

Ystyriaethau Rhanbarthol a Lleol

- 1.7 Mae polisi ac amodau rhanbarthol a lleol yn cael eu hystyried yn fanwl yn Adran 3. Mae polisiâu o bwys a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro yn cynnwys Cynllun Rheoli Asedau 6 (AMP) Dŵr Cymru Welsh Water ac Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) (Ionawr 2016).
- 1.8 Mae'r AMP yn dangos bod materion yn ymwneud â seilwaith wedi lleihau ar gyfer Ceredigion y flwyddyn hon gyda dim ond pedwar Canolfan Gwasanaethau wedi'u cyfyngu'n rhannol o'i gymharu â naw pan fabwysiadwyd y cynllun yn 2013. Mae'r LHMA (2016) yn diweddarau fersiwn 2008 ac yn cynnig golwg cynhwysfawr o'r farchnad dai leol ac anghenion tai.
- 1.9 O ran amodau rhanbarthol, mae pob Awdurdod Cynllunio Lleol cyfagos yn gwneud cynnydd da o ran paratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol, ac ni ystyrir bod yr un ohonynt yn cael effaith niweidiol ar weithredu CDLI Ceredigion.
- 1.10 Mae rhagor o wybodaeth fanwl o'r cyfrifiad wedi cael ei chyhoeddi ar ffurf amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd seiliedig ar ddata 2011 ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu. Mae'r Cyngor wedi ystyried yr amcanestyniadau hyn yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diwygiedig. Disgwylir i'r amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd seiliedig ar ddata 2014 gael eu cyhoeddi yn 2016/17, ac ystyrir ei bod yn ddoeth aros i'r data gael ei ryddhau cyn rhoi sylw manwl i'r effaith a gaiff ar y CDLI ac unrhyw newidiadau gofynnol.
- 1.11 Nid yw polisi ac amodau rhanbarthol a lleol wedi arwain at unrhyw newidiadau arwyddocaol yng nghyd-destun y cynllun, ac o ganlyniad nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer gweithredu mewn perthynas â'r CDLI ar hyn o bryd.

Monitro Polisiâu'r CDLI

- 1.12 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried Polisiâu'r CDLI yn erbyn fframwaith monitro mabwysiedig y CDLI er mwyn penderfynu a yw'r polisiâu yn

effeithiol ac a oes unrhyw bolisiâu sydd heb gael eu gweithredu. Mae dadansoddiad manwl a chanlyniadau i'w gweld yn Adran 4.

Y Strategaeth Anheddu

- 1.13 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Strategaeth yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

Dangosyddion	Perfformiad		
	2014	2015	2016
AMRH01 – Newid yn y Boblogaeth	Amh	Amh	Amh
AMRH02 – Y Strategaeth Anheddu ledled y Sir	0	0	-
AMRH03 – Grwpiau Aneddiadau'r Strategaeth Anheddu	0	0	-
AMRH04 – Strategaeth Anheddu - Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'	0	0	-
AMRH05 – Strategaeth Anheddu - Natur y Datblygu yn y 'Lleoliadau Eraill'	?	0	-

- 1.14 Strategaeth y CDLI yw sicrhau patrwm cynaliadwy o ddatblygu a chanolbwyntio o'r newydd ar dwf yn y Canolfannau Gwasanaethau. Mae'r canlyniadau yn dangos nad yw targedau'r Strategaeth yn cael eu cyflawni ac mae rhai pryderon ynghylch gweithredu'r Strategaeth.
- 1.15 Mae Dangosydd H02 yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn nodi ledled y sir, o'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol, bod cyfanswm yr ymrwymadau mewn:
- Canolfannau Gwasanaethau Trefol wedi codi gan 2% i 44% (targed ar gyfer cyfnod y cynllun 51%);
 - Canolfannau Gwasanaethau Gwledig wedi codi gan 2% i 18% (targed ar gyfer cyfnod y cynllun 24%);
 - Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill wedi gostwng gan 3% o 42% i 39% (targed ar gyfer cyfnod y cynllun 25%)
- 1.16 Ar y cam hwn yng nghyfnod y cynllun ni ddisgwylir i'r ganran adlewyrchu'r targedau ar gyfer cyfnod y cynllun a nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI, fodd bynnag, dair blynedd ers ei fabwysiadu dim ond mân welliannau a wnaed yn rhaniad cyfrannol yr ymrwymadau tai. Mae'r rhain rhwng 4 a 6% yn is na'r targedau ar gyfer 2015/16 ar draws pob un o'r haenau hierarchaeth aneddiadau.
- 1.17 Mae Dangosydd AMRH03 yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried y strategaeth aneddiadau ac yn ceisio symud tuag at y rhaniad canrannol a nodwyd ar gyfer pob un o'r 22 o grwpiau aneddiadau yn Atodiad 2 o'r CDLI sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o'r datblygiadau tai yn y canolfannau gwasanaethau. Mae'n nodi bod 7 o'r 22 o grwpiau aneddiadau heb gyflawni gwelliannau yn y rhaniad canrannol ar gyfer pob grŵp aneddiadau ers y cyfnod monitro blaenorol, mae 10 wedi gwella, ac mae 5 heb weld unrhyw newid yn rhaniad cyfrannol yr ymrwymadau. Roedd y Grwpiau Aneddiadau canlynol heb gyflawni gwelliannau'r flwyddyn hon, gyda gormod o dwf o ran yr ymrwymadau sy'n

parhau yn yr Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill ar draul y Canolfannau Gwasanaethau:

- Llandysul
- Aber-porth/Parc-llyn
- Bow Street
- Llanarth
- Llanilar
- Llan-non
- Tal-y-bont

- 1.18 Fodd bynnag, o'r grwpiau hyn roedd pob un heblaw Aberporth/Parc-llyn, Llan-non a Thalybont wedi gweld gwelliant yn rhaniad cyfrannol yr unedau a gwblhawyd. Yn arbennig roedd Bow Street wedi cynyddu gan fwy na 32%. Mae'r canlyniadau'n dangos gwelliant bach eang ar draws Grwpiau Aneddiadau ers y cyfnod monitro cyntaf yn 2014. Ers hynny mae 13 o grwpiau aneddiadau wedi gweld gwelliannau yn rhaniad canrannol yr ymrwymadau, ac mae 8 wedi gweld gwelliant yn rhaniad canrannol yr unedau a gwblhawyd.
- 1.19 O ran datblygiadau mewn aneddiadau cyswllt, mae'r CDLI yn ceisio sicrhau nad oes gormod o dwf mewn unrhyw Anheddiad Cyswllt unigol a allai niweidio gwead cymdeithasol yr anheddiad hwnnw a gosod pwysau amhosibl eu rheoli ar y seilwaith lleol. Mae Dangosydd AMRH04 yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn nodi o'r 90 o Aneddiadau Cyswllt ar draws y 22 o grwpiau aneddiadau bod:
- 35 o Aneddiadau Cyswllt yn uwch na'u terfyn twf o 12% o ran ymrwymadau, a
 - 10 o Aneddiadau Cyswllt wedi cyrraedd y terfyn twf o 12% o ran ymrwymadau.
 - 4 o Aneddiadau Cyswllt wedi disgyn yn ôl o fewn y terfyn twf o 12%.
- 1.20 Dim ond 3 o'r Grwpiau Aneddiadau (Llanybydder, Llanrhystud a Pontarfynach) oedd yn uwch na'r ffigur twf o 12% ar draws eu holl Aneddiadau Cyswllt. Ers y cyfnod monitro blaenorol mae cyfanswm yr Aneddiadau Cyswllt sydd wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn 12% wedi cynyddu o 42 i 45. Fodd bynnag, mae'r targed yn cyfeirio at gyfanswm yr Aneddiadau Cyswllt sy'n uwch na'u terfyn 12% yn unig, sydd wedi lleihau o 38 i 35 gan fod cyfanswm yr Aneddiadau Cyswllt sydd wedi disgyn yn ôl i'w terfyn twf o 12% wedi cynyddu o 3 i 4, a symudodd 1 Aneddiad Cyswllt allan o gapasiti o'i gymharu â 4 y flwyddyn flaenorol. Mae hwn yn dangos bod caniatadau cynllunio yn dod i ben.
- 1.21 Mae Dangosydd AMRH05 yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn dangos bod 8 cais wedi cael eu caniatáu mewn 'Lleoliadau Eraill' nad ydynt yn cydymffurfio â'r CDLI na chyfarwyddyd cenedlaethol. Cawsant eu cymeradwyo yn groes i argymhellion y swyddog yn y Pwyllgor Cynllunio. Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i sicrhau bod caniatadau'n cael eu cyfyngu i'r rheiny a ganiateir o dan bolisi S04 (Tai Fforddiadwy a TAN 6), ac y caiff unrhyw wyriadau eu cyfiawnhau gan resymau cynllunio priodol. Os nad yw cyfiawnhad yn bodoli neu nid yw tystiolaeth wedi cael ei chyflwyno i gyd-fynd â chais am dŷ fforddiadwy neu uned TAN 6, bydd rhaid ceisio gwybodaeth bellach neu wrthod y cais. Mae'r

sefyllfa hon yn dangos bod angen hyfforddiant pellach ar roi rhesymau sy'n adlewyrchu ystyriaethau cynllunio perthnasol.

1.22 I grynhoi, mae symudiadau cadarnhaol wedi cael eu gwneud tuag at gyflawni targedau penodedig y Strategaeth, fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd er mwyn cyflawni targedau'r strategaeth ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae'r dystiolaeth yn ysgogi adolygiad o'r cynllun a bydd yn helpu i gwblhau adroddiad yr adolygiad o'r CDLI yn 2017. Bydd rhaid i'r adolygiad o'r CDLI ystyried y canlynol:

- Cadernid y strategaeth a'r posibilrwydd ar gyfer dwyn strategaeth y cynllun ymlaen i'w cyflawni dros gyfnod hwy.
- Ymchwiliad ymhellach i benderfyniadau cais cynllunio wedi'u dirprwyo a heb eu dirprwyo yn ôl lleoliad. Dylai'r ymchwiliad ystyried y rhesymeg a'r cyfiawnhad sy'n sail i gymeradwyo ceisiadau cynllunio sy'n groes i strategaeth y cynllun. Mae nifer o geisiadau cynllunio yn parhau i gael eu caniatáu gan y Pwyllgor Cynllunio, yn aml ar y sail bod y diffyg cyflenwad ar safleoedd a neilltuwyd yn golygu y dylid caniatáu twf pellach mewn aneddiadau cyswllt a lleoliadau eraill i helpu i gynnal y diwydiant adeiladu tai a gwella'r cyflenwad tai yn gyffredinol.
- Ymchwiliad pellach i leoliad y caniatadau cynllunio a roddwyd.
- Ymchwiliad pellach i ddiffyg datblygu tai mewn canolfannau gwasanaethau trwy Adolygiad o Safleoedd a Neilltuwyd.

Cyflenwi Tai

1.23 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Cyflenwi Tai yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

Dangosydd	Perfformiad		
	2014	2015	2016
AMRH06 – Cyflenwad Tir ar gyfer Tai	+	0	-
AMRH07 – Cyflenwi Safleoedd Tai sydd wedi'u Neilltuo	0	0	-
AMRH08 – Datblygu Tai mewn Lleoliadau Priodol	0	0	-
AMRH09 – Datblygu Tai ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen	+	+	+
AMRH13 – Dwysedd Tai	0	0	+
AMRH14 – Cyflenwi Tai	0	0	0
AMRH15 – Rychwant y Tai	0	0	0

* Print trwm yn nodi'r dangosyddion craidd

1.24 Mae Dangosydd AMRH06 yn nodi cyflenwad 3.4 blwyddyn o dir ar gyfer Ceredigion. Mae'r rhesymau sydd wedi cyfrannu at fethiant y cynllun i gyflawni'r targed yn cynnwys y canlynol:

- Mae cyflenwi tai wedi lleihau ar draws Cymru ac nid yw'n broblem sy'n unigryw i Geredigion.

- Mae'r farchnad yn cyfyngu ar gyflenwi tai am amryw o resymau sydd y tu allan i reolaeth y system gynllunio, gan gynnwys diffyg cyllid datblygu, diffyg morgeisiau a phrinder sgiliau yn y diwydiant datblygu lleol. Gall y diffyg galw am adeiladu tai o'r newydd hefyd gael ei briodoli i dwf is yn y boblogaeth ac aelwydydd nag y cynlluniwyd ar ei gyfer.
- Mae'r targed tai ar gyfer y cynllun yn uchel, felly yn dilyn y newid yn null cyfrifyddu'r cyflenwad tai yn 2014, mae ein ffigur cyfenwad wedi gostwng.
- Cafodd safleoedd a neilltuwyd y CDLI eu cynnwys yn y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) am y tro cyntaf yn 2014 yn dilyn mabwysiadu'r cynllun ar 25 Ebrill 2013 (ar ôl dyddiad sylfaen astudiaeth 2013). O ganlyniad mae mwy o gyflenwad o safleoedd tai ac unedau mewn gwirionedd.

- 1.25 Mae Dangosyddion AMRH07, AMRH08 ac AMRH09 yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn dangos bod lefel cyflenwi tai yn parhau i fod yn is na'r hyn sy'n ofynnol i ddiwallu strategaeth y CDLI. Bydd priodoldeb strategaeth, polisiâu a dyraniadau tai y CDLI yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad pedwar blynyddol statudol o'r CDLI. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnig modd ystyried hyn yn briodol yn sgil unrhyw ymchwil sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar y cyflenwad tai a'r galw am dai yng Ngheredigion ac ar draws Cymru. Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn ailasesu'r gallu i gyflenwi'r holl safleoedd a neilltuwyd ar hyn o bryd.
- 1.26 Mae cyflenwi tai ar safleoedd a neilltuwyd hyd yma yn parhau'n isel. Yn ystod y cyfnod monitro cafodd nifer o safleoedd a neilltuwyd eu datblygu gan Landlordiaid Cofrestredig Cymdeithasol, ac mae datblygwyr lleol yn parhau i adeiladu ar safleoedd y maent yn berchen arnynt, er ar gyfradd weddol araf. Ystyrir bod cyfradd araf datblygu yn ganlyniad i gyfuniad o ffactorau gan gynnwys galw isel oherwydd twf isel y boblogaeth, mynediad i gyllid datblygu, diffyg adeiladwyr/datblygwyr llawer o dai, a diffyg sgiliau ar gyfer y diwydiant adeiladu a datblygu. Er bod rhai o'r safleoedd a neilltuwyd yn parhau i fod â chyfyngiadau seilwaith, mae pryder cynyddol y gallai'r diffyg cyflenwi gael ei achosi gan hyfywedd datblygu. Felly mae Aseiad Hyfywedd Strategol wedi cael ei gomisiynu. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i weithio gyda pherchnogion/datblygwyr safleoedd a neilltuwyd i'w hannog i baratoi'n gynnar ar gyfer datblygu safleoedd/paratoi'r tir trwy gynnig cyngor cynhwysfawr cyn cyflwyno'r cais ac offeryn asesu hyfywedd rhad ac am ddim. Mae'r Cyngor hefyd yn bryderus y gallai diffyg datblygu safleoedd a neilltuwyd fod yn ganlyniad i friadau'r tiffeddiannwr a gwerthoedd tir afrealistig. Fel rhan o waith paratoi Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar Gyfer Tai eleni, anfonwyd holiadur bwriadau datblygwyr i bob perchennog safle a neilltuwyd er mwyn cael tystiolaeth am yr hyn y bwriadant ei wneud gyda'r safle yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn parhau a chaiff ei ddefnyddio i lywio adolygiad o'r holl safleoedd a neilltuwyd. Bydd canlyniadau'r adolygiad o safleoedd a neilltuwyd yn llywio'r adolygiad o'r CDLI.
- 1.27 Mae Dangosyddion AMRH09, AMRH13 ac AMRH14 yn dangos bod y targedau a nodwyd yn cael eu cyflawni, neu os nad ydynt yn cael eu cyflawni bod pryderon ynghylch gweithredu'r polisi o ran datblygu tai ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, dwysedd tai a chyflenwi tai.

- 1.28 Mae Dangosydd AMRH15 wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r anghenion a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaraf. Er nad yw'r targed a nodwyd yn cael ei gyflawni ystyrir bod Polisi LU02 yn dal i fod yn addas i'r diben.
- 1.29 I grynhoi, nid yw'r dangosyddion ar gyfer y cyflenwad tai a chyflenwi tai yn gyffredinol ac yn y lleoliadau addas yn cyflawni'r targedau a nodwyd. Nid yw hon yn broblem leol benodol ac mae'n gyson â'r darlun cenedlaethol. Bydd rhaid i adolygiad 4 blyneddol o'r cynllun statudol ystyried y canlynol:
- Priodoldeb strategaeth a pholisïau tai y CDLI.
 - Adolygiad o safleoedd a neilltuwyd
 - Yr Asesiad Hyfywedd Strategol sy'n cael ei baratoi ar gyfer Ceredigion ar hyn o bryd
 - Ymchwil sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar y cyflenwad tai a'r galw am dai ar draws Cymru.

Tai Fforddiadwy

- 1.30 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Tai Fforddiadwy yr Adroddiad Monitro Blyneddol.

Dangosydd	Perfformiad		
	2014	2015	2016
AMRH10 – Tai Fforddiadwy	0	0	0
AMRH11- Tai Fforddiadwy	+	+	+
AMRH12 – Mathau o Dai Fforddiadwy	?	0	0

- 1.31 Rhagorwyd ar y targed o gwblhau 70 o unedau o dai fforddiadwy y flwyddyn yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn awgrymu bod y tai fforddiadwy a gwblhawyd yn cynyddu ac yn perfformio'n dda y flwyddyn hon. O'r cyfanswm unedau tai sy'n cael eu caniatáu a'u cwblhau, mae oddeutu 24.2% yn fforddiadwy ac felly mae targed y CDLI o sicrhau bod 20% o'r holl dai yn fforddiadwy yn cael ei wireddu. Er y nodir mai nifer cyfartalog o unedau a gwblhawyd yn flynyddol ers mabwysiadu'r cynllun yw 42 o unedau fforddiadwy, nid yw hyn o bryder mawr ar hyn o bryd, a bydd yn parhau i gael ei fonitro yn y dyfodol.
- 1.32 Mae cyfran y ceisiadau preswyl lle y bu her hyfywedd lwyddiannus wedi cynyddu hefyd. Yn wyneb y nifer cynyddol o heriau hyfywedd ar safleoedd bach a phryderon hyfywedd wedi'u mynegi gan ddatblygwyr safleoedd mawr, mae'r Cyngor newydd gomisiynu Asesiad Hyfywedd Strategol.
- 1.33 Mae cymysgedd cyffredinol y ddaliadaeth o dai fforddiadwy yn foddhaol. Felly nid yw perfformiad yr agwedd hon ar y polisi o bryder mawr ar hyn o bryd. Mae'r opsiynau ar gyfer cyflenwi ystod ehangach o ddaliadaethau canolraddol yn cael eu hymchwilio gan y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a chaiff ei fonitro'n agos yn y dyfodol. Bydd tystiolaeth newydd gan gynnwys yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2016) a'r Asesiad Hyfywedd Strategol (sydd wrthi'n cael ei baratoi) yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf

- 1.34 I grynhoi, er bod tai fforddiadwy yn cynyddu ac yn perfformio'n dda y flwyddyn hon, nid yw cyfradd gyfartalog y cynnydd blynyddol mor gyflym ag y rhagwelwyd er mwyn cyflawni'r targedau a nodwyd ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2016) a'r Asesiad Hyfywedd Strategol (sydd wrthi'n cael ei baratoi) yn darparu tystiolaeth newydd a bydd yn llywio'r adolygiad o'r CDLI, a gallai arwain at newidiadau i Bolisi S05.

Economi a Manwerthu

- 1.35 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Economi ac Manwerthu'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

Dangosydd	Perfformiad		
	2014	2015	2016
AMRE01 – Cyflenwad Tir Cyflogaeth	+	+	+
AMRE02 – Cyflenwi'r Safleoedd Economaidd sydd wedi eu Neilltuo	+	+	+
AMRE03 – Datblygu Economaidd mewn Lleoliadau Addas	+	+	+
AMRE04 – Datblygu Economaidd ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen	0	0	+
AMRE05 – Canol Trefi	+	?	?
AMRE06 – Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig	?	+	+
AMRE07 – Ffryntiadau Manwerthu	0	0	+

* Print trwm yn nodi'r dangosyddion craidd

- 1.36 Mae targedau'r Economi a Manwerthu yn cael eu cyflawni ac nid oes unrhyw bryder mawr ynghylch gweithredu'r polisïau economaidd a manwerthu. O ran canol trefi nodir bod 100% o'r gwaith datblygu mawr yn ystod y cyfnod monitro wedi'i leoli y tu allan i ganol trefi ac felly er nad yw'r targed a nodwyd yn cael ei gyflawni ystyrir bod y datblygiadau mawr a gafodd eu caniatáu yn briodol ac wedi'u cyfiawnhau gan ystyriaethau cynllunio perthnasol. Felly, nid oes unrhyw bryderon ynghylch priodoldeb y polisïau ar hyn o bryd. At hynny, er y cafwyd rhywfaint o ddatblygu economaidd ar safleoedd a neilltuwyd yn ystod y cyfnod monitro, mae'r targed dangosydd ar y cam hwn wedi cael ei gyflawni. Mae'r Cyngor yn y broses o uwchraddio ei sylfaen tystiolaeth economaidd a fydd yn cynnwys adolygiad o dir cyflogaeth ac asesiad o anghenion i ystyried cyflenwi safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd presennol a'r anghenion cyflenwad tir economaidd yn y dyfodol.

Ansawdd Bywyd

- 1.37 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Ansawdd Bywyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol

Dangosydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol	Perfformiad		
	2014	2015	2016
AMRQ01 – Colli Mannau Agored a Chyfleusterau	0	+	+
AMRQ02 – Colli Safleoedd Tir Glas	0	0	0
AMRQ03 – Ennill Mannau Agored	0	0	0
AMRQ04 – Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth Leol	+	0	-
AMRQ05 – Gwelliannau Amgylcheddol	-	-	0
AMRQ06 – Seilwaith	?	?	+
AMRQ07 – Lleihau Perygl Llifogydd	-	0	+
AMRQ08 – Capasiti MW gosodedig yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) D	0	?	0
AMRQ09 – Gwastraff	?	?	?
AMRQ10 - Agregau	0	0	0

*Bold indicates core indicators

- 1.38 Mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion Ansawdd Bywyd yn cael eu cyflawni neu os na chawsant eu cyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau. O ran manau agored, ni chafwyd unrhyw golled net o fannau agored yn ystod y cyfnod monitro. Ar yr olwg gyntaf byddai'n ymddangos bod Dangosydd AMRQ03 heb gael ei gyflawni o ran creu manau agored, fodd bynnag, mae nifer o'r ceisiadau perthnasol a ganiatawyd yn ystod y flwyddyn wedi cael eu trafod cyn mabwysiadu'r CDLI a gweithredu gofynion Polisi LU24.
- 1.39 Cyrhaeddwyd y targedau caniatadau preswyl ac economaidd o ran colli safleoedd tir glas ac roedd caniatadau cynllunio eraill wedi rhagori'n sylweddol ar y targed y flwyddyn hon ac yn y blynyddoedd blaenorol. Er gwaethaf hyn, mae dadansoddiad o'r datblygiadau eraill yn awgrymu eu bod yn briodol o ran graddfa a lleoliad. Felly ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisïau hyn y CDLI.
- 1.40 Mae ychydig o bryder o hyd ynghylch Dangosyddion yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth. Yn achos AMRQ04 ac AMRQ05 er nad yw rhai targedau a nodwyd yn cael eu cyflawni, cafwyd cynnydd o 20% yn nifer y gwelliannau ecolegol o'i gymharu â chanlyniad y flwyddyn ddiwethaf. Mae newidiadau pellach i weithdrefnau mewnol yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau bod y dangosyddion hyn yn parhau i wella yn y dyfodol. Cyrhaeddodd y dangosyddion seilwaith a pherygl llifogydd y targedau a nodwyd ac mae dangosyddion capasiti MW gosodedig ynni adnewyddadwy, gwastraff ac agregau yn cael eu dadansoddi yn Adran 4, ond nid oes unrhyw bryderon polisi sylweddol yn eu cylch ar hyn o bryd.

Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)/Monitro Arfarniadau o Gynaliadwyedd (AG)

- 1.41 Mae'r Gyfarwydddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fonitro cyflwr yr amgylchedd trwy fonitro'r amcanion cynaliadwyedd a nodir yn yr Adroddiad AG/AAS. Mae hyn yn rhan annatod o'r Adroddiad Monitro

Blynyddol ac i'w weld yn Adran 5. Mae crynodeb o berfformiad amcanion a dangosyddion AG i'w weld yn Atodiad 3. Mae unrhyw newidiadau i'r fframwaith i'w gweld yn Atodiad 1. Mae gwaith monitro AAS/AG yn dangos newid cadarnhaol yn yr amgylchedd hyd yma yng nghyfnod y cynllun.

Casgliad ac Argymhellion

- 1.42 Bydd casgliadau adolygiad y flwyddyn hon o gynllun ysgogi'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn helpu i gwblhau adroddiad yr adolygiad o'r CDLI yn 2017.
- 1.43 Bydd rhaid i'r adolygiad ystyried:
 - Cadernid y Strategaeth a'r posibilrwydd ar gyfer dwyn strategaeth y cynllun ymlaen i'w chyflawni dros gyfnod hwy.
 - Maint, cyflenwad, lleoliad a datblygiad pob safle a neilltuwyd.
 - Statws aneddiadau.
 - Yr angen i ddiwygio rhai polisiâu yn unol â pholisi a chyfarwyddyd cenedlaethol newydd ac sydd wrthi'n cael eu llunio.
 - Capasiti isadeiledd (yn enwedig Trafnidiaeth a Carthffosiaeth) i alluogi safleoedd i ddod ymlaen.
- 1.44 Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn cynnig modd ystyried y materion hyn yn briodol yn sgil y dystiolaeth ddiweddaraf gan gynnwys:
 - Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Ceredigion (2016)
 - Astudiaeth Hyfywedd Tai Strategol wedi'i diweddarau
 - Asesiad o Anghenion Economaidd wedi'i ddiweddarau
 - Asesiad Ynni Adnewyddadwy
 - Astudiaeth Capasiti Manwerthu Rhanbarthol
 - Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddarau
 - Adolygiad o Statws Canolfannau Gwasanaethau a Safleoedd a Neilltuwyd
 - Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd seiliedig ar ddata 2014.

2. Rhagymadrodd

- 2.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Sir Ceredigion ar 25 Ebrill 2013. Dyma'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016 gan gyfeirio at rannau cynharach o gyfnod y cynllun lle mae'r dangosyddion yn mynnu bod angen gwneud hyn. Yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw'r brif ffordd o adolygu pa mor berthnasol a llwyddiannus yw'r CDLI, a nodi unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud yn sgil y tueddiadau sefydledig a nodwyd. Mae'n ceisio asesu i ba raddau y mae strategaethau, polisïau a safleoedd allweddol y CDLI yn cael eu cyflawni. Ystyriwyd a chymeradwywyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol gan y Cabinet, yn ogystal â'r Cyngor, ar 18 Hydref ac 20 Hydref 2016.
- 2.2 Mae'r fframwaith monitro ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn ffurfio rhan o'r CDLI a fabwysiadwyd. Mae Adran 9 ac Atodiad 3 o Gyfrol 1 y CDLI yn amlinellu'r targedau monitro a dangosyddion a ddefnyddir fel sail ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (2006) (Rheoliad 37) a'r dangosyddion craidd a nodwyd yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, 2il Argraffiad (Awst 2015). Mae newidiadau dilynol i fframwaith monitro'r CDLI i'w gweld yn Atodiad 1.
- 2.3 Mae monitro'r CDLI hefyd yn unol â'r gofynion i fonitro perfformiad y cynllun o ran cynaliadwyedd trwy'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd (AAS/AG). Mae Adran 5 o'r adroddiad hwn yn cynnwys monitro'r AAS/AG am y cyfnod 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016. Ystyrir nad yw unrhyw faterion o bryder mawr wedi codi yn ystod y cyfnod monitro a fyddai'n golygu gwneud newidiadau sylweddol i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

3. Newidiadau yn y Cyd-destun

- 3.1 Mae'r adran ganlynol yn ystyried y newidiadau yn y cyd-destun sydd wedi cael, neu a allai gael, ddylanwad ar weithredu'r CDLI, gan gynnwys polisi ac amodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Deddfwriaeth, Polisi a Chyfarwyddyd Cenedlaethol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

- 3.2 Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gydsyniad brenhinol ar 29 Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. O fewn y fframwaith a osodir ynddo bydd awdurdodau cyhoeddus penodedig Cymru yn ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu hateb heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw (yr egwyddor datblygu cynaliadwy). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi asesiadau llesiant a chynlluniau llesiant. Bydd rhaid i strategaeth y CDLI ystyried y rhain pan gaiff ei chyhoeddi.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

- 3.3 Derbyniodd Deddf Cynllunio (Cymru) (2015) gydsyniad brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015. Mae'r Ddeddf yn amlinellu cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru i sicrhau ei bod yn deg, yn gadarn a'i bod yn galluogi datblygiad. Mae'r Ddeddf yn cael ei hategu gan newidiadau presennol ac arfaethedig i ddeddfwriaeth, polisi a chyfarwyddyd eilaidd.
- 3.4 Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r ymagwedd a arweinir gan y cynllun trwy gyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ac yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio tir, a darparu fframwaith defnyddio tir cenedlaethol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio gwella cadernid trwy gynnig modd i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Awdurdodau Cynllunio Lleol i gydweithio ac uno awdurdodau cynllunio lleol. Bydd y Ddeddf yn ategu cyflenwi'r cartrefi, y swydd a'r seilwaith sydd eu hangen, darparu cyfleoedd i ddiogelu a gwella ein hamgylcheddau adeiledig a naturiol pwysicaf, a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.
- 3.5 O ran y Gymraeg, mae Adran 11 o'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n orfodol i bob awdurdod cynllunio lleol ystyried effaith ei Gynlluniau Datblygu Lleol ar y Gymraeg, trwy gynnal asesiad priodol fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y cynllun. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gadw'r dystiolaeth ddiweddaraf yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal. Mae Adran 31 yn egluro y gallai effeithiau ar y Gymraeg gael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio os yw'n berthnasol i'r cais. Nid yw'r ddarpariaeth yn rhoi unrhyw bwysiad ychwanegol i'r Gymraeg o'i gymharu ag ystyriaethau perthnasol eraill. Mae penderfynu a yw'r Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol mewn unrhyw gais cynllunio yn parhau i fod yn ôl disgrisiwn y sawl sy'n gwneud y penderfyniad. Disgwylir eglurhad a chyfarwyddyd pellach ar weithredu'r ddarpariaeth hon o'r

Ddeddf pan gaiff TAN 20 newydd ei gyhoeddi yn ddiweddarach y flwyddyn hon. Bydd goblygiadau'r ddarpariaeth hon yn cael eu hystyried yn ystod yr adolygiad o'r CDLI.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)

3.6 Derbyniodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) gydsyniad brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen yn ei lle i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy ac unedig. Mae'n cynnig modd i ni:

- Wynebu'r heriau amgylcheddol a gyflwynir a chanolbwyntio ar y cyfleoedd a gynigir gan ein hadnoddau;
- Sefydlu'r targedau lleihau allyriadau statudol a chyllidebu carbon i ategu eu cyflenwi;
- Gwella prosesau rheoli gwastraff, ac
- Egluro'r gyfraith ar gyfer trefniadau rheoleiddio amgylcheddol gan gynnwys rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn, trwyddedu morol, rheoli'r perygl o lifogydd a draenio tir.

3.7 Ar hyn o bryd mae'r CDLI yn cynnwys darpariaethau i ddiogelu a rheoli adnoddau naturiol ac nid yw cyflwyno'r Ddeddf hon yn ysgogi unrhyw angen i ddiwygio'r darpariaethau hyn.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (2016)

3.8 Derbyniodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (2016) gydsyniad brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn ffurfio rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisi, cyngor a chyfarwyddyd sy'n gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn modd cynaliadwy. Yn ystod 2016 a 2017 disgwylir rhaglen o ymgynghori a gweithredu'r darpariaethau gael ei chyflwyno'n raddol o fewn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a pholisi, cyngor a chyfarwyddyd cysylltiedig. Ar hyn o bryd mae'r CDLI yn cynnwys darpariaethau i ddiogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol ac nid yw cyflwyno'r Ddeddf hon yn ysgogi unrhyw angen i ddiwygio'r darpariaethau hyn.

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8 (Ionawr 2016)

3.9 Cyhoeddwyd Argraffiad 8 o Bolisi Cynllunio Cymru ar 4 Ionawr 2016. Mae'r argraffiad hwn o Bolisi Cynllunio Cymru yn ymgorffori newidiadau i ddisgrifio darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a darpariaethau Cymraeg Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac mae'n ymgorffori polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu mwynau.

3.10 Mae Pennod 2 - Cynlluniau Datblygu Lleol, yn cynnwys mwy o fanylion ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol gan gynnwys paratoi cynlluniau a rôl Llywodraeth Cymru yn y broses. Mae'r diweddariad hwn yn cynnwys newidiadau i'r profion cadernid a ddefnyddir i benderfynu a yw cynllun yn 'gadarn' yn ystod archwiliad annibynnol. Caiff y rhain eu hystyried fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac maent yn cynnwys:

- A yw'r cynllun yn ffitio? (h.y. a yw'n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?);

- A yw'r cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?), ac
- A fydd y cynllun yn cyflawni? (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?).

- 3.11 Mae Pennod 4 - Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd wedi cael ei ddiwygio i gynnwys gwybodaeth ar ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gynnwys yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Drwy wneud hynny mae'n dangos sut mae amcanion polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn cysylltu â saith nod llesiant. Mae'r adran ar y Gymraeg ym Mhennod 4 wedi cael ei diweddarau hefyd i adlewyrchu'r darpariaethau a nodwyd yn adrannau 11 a 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.
- 3.12 Yn olaf mae pennod newydd Pennod 14 - Mwynau wedi cael ei chynnwys. Mae'r bennod newydd hon yn integreiddio polisiau cynllunio Llywodraeth Cymru i Bolisi Cynllunio Cymru ar gyfer datblygu mwynau a chafodd eu hamlinellu'n flaenorol ym *Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001)*.
- 3.13 Mae mân newidiadau ffeithiol a chyd-destunol eraill wedi cael eu cynnwys hefyd megis cyfeirio at ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2015).

Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol 2il Argraffiad (Awst 2015)

- 3.14 Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol yn ddogfen gyfeirio i ymarferwyr sy'n gweithredu neu'n cyfrannu at baratoi Cynllun Datblygu Lleol, ac mae'n rhoi cyngor ymarferol a thechnegol ar sut i baratoi neu ddiwygio CDLI. Mae'r 2il Argraffiad yn cynnig ymagwedd fwy integredig at gynnwys arfarnu cynaliadwyedd, yn esbonio newidiadau sy'n ymwneud ag ymgeiswyr a gweithdrefnau safleoedd amgen a phrofion cadernid, ac mae'n ehangu ar y cyngor ar adolygu a diwygio'r cynllun neu ei ddisodli.
- 3.15 Mae'r Llawlyfr yn anstatudol ac ni ystyrir ei fod yn bolisi cenedlaethol. Dylid ei ystyried ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru Pennod 2 - Cynlluniau Datblygu Lleol a'i ddarllen ar y cyd â deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol perthnasol. Mae'n adlewyrchu'r canllawiau archwilio a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Mae'r Llawlyfr yn rhoi canllawiau defnyddiol ar sefydlu'r broses o adolygu'r CDLI a'r amserlenni disgwylidig ar gyfer paratoi cynlluniau newydd.

Polisi Cynllunio Cymru Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol Dogfen Ymgynghori (Mawrth 2016)

- 3.16 Mae diwygiadau drafft o Bennod 6 o Gynllun Datblygu Cymru yn gosod y fframwaith ar gyfer ystyried yn briodol yr holl newidiadau a gaiff eu cyflwyno gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (2016) yn y dyfodol. Wrth i ddarpariaethau perthnasol o fewn y Ddeddf ddod i rym ac wrth i gyngor a chyfarwyddyd ategol gael eu cyhoeddi, bydd rhaid diweddarau Pennod 6 o Gynllun Datblygu Cymru ymhellach. Mân newidiadau fydd y rhain ac ni fyddant yn effeithio ar egwyddorion polisi sylfaenol y ddogfen ond byddant yn cyfeirio ymhellach at y canllawiau a'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae angen diwygio Pennod 6 o Gynllun Datblygu Cymru er mwyn adlewyrchu'n llawn amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer amgylchedd hanesyddol sydd wedi'i ddiogelu'n dda

ac sy'n hygyrch ac yn cyfrannu at ansawdd bywyd a lle. Yn arbennig mae angen i'r bennod ystyried *Egwyddorion Cadwraeth Cadw* o ran rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy, ac mae'n adlewyrchu sut mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at saith nod llesiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gynaliadwy fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ganolog i hyn yw diogelu a gwella asedau hanesyddol, gan gynnwys dealltwriaeth lawn o natur ac arwyddocâd asedau hanesyddol a chydabod y buddion y gallant eu cyflawni a'u rôl mewn diwylliant ac economi fywiog. Ymatebodd y Cyngor i'r ddogfen ymgynghori hon a bydd cyflwyno'r bennod hon yn ddiweddarach y flwyddyn hon yn llywio'r adolygiad o'r CDLI yn 2017

Newidiadau i Nodyn Cyngor Technegol 20 - Cynllunio a'r Gymraeg Dogfen Ymgynghori (Ionawr 2016)

- 3.17 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y newidiadau i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 - Cynllunio a'r Gymraeg. Mae'r newidiadau yn bwriadu helpu awdurdodau cynllunio lleol i weithredu darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru). Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu ac ystyried Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, gyda Phennod 4 ddiwygiedig yn amlinellu polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn cyflwyno, am y tro cyntaf, ddarpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer y Gymraeg yn y system gynllunio. Gyda'i gilydd, mae Adrannau 11 a 31 yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth gyson a phriodol wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau cynllunio. Mae'r newidiadau hyn wedi ysgogi'r angen i ddiweddarau'r canllawiau cynllunio cenedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg. Mae'r TAN yn rhoi cyngor i gefnogi'r Ddeddf Cynllunio a Pholisi Cynllunio Cymru trwy ystyried y Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a delio â cheisiadau cynllunio. Ymatebodd y Cyngor i'r ddogfen ymgynghori hon a bydd cyflwyno'r TAN hwn yn ddiweddarach y flwyddyn hon yn llywio'r adolygiad o'r CDLI yn 2017.

Newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru Pennod 10 Datblygu Canolfannau Manwerthu a Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygu Canolfannau Manwerthu (Medi 2015)

- 3.18 Nod yr adolygiad yw diweddarau Pennod 10 o Gynllun Cynllunio Cymru a TAN 4 er mwyn iddynt fod yn unol ag amcan Llywodraeth Cymru i wella bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canolfannau sefydledig. Y prif newidiadau a gynigiwyd i Bennod 10 y Polisi Cynllunio yw:
- Amcanion diwygiedig ar gyfer polisi cynllunio manwerthu gan gynnwys yr angen i ymateb yn hyblyg i newidiadau yn y farchnad;
 - Mwy o bwyslais ar yr angen i bolisiâu manwerthu gael ei fframio gan strategaeth fanwerthu mewn CDLlau a ategir gan uwchgylluniau a chynlluniau lle i helpu i gyflawni'r strategaeth;
 - Y gofyniad i Gynlluniau Datblygu Lleol amlinellu hierarchaeth canolfannau lleol;
 - Canllawiau cliriach ar ddefnydd yn amodol ar y prawf dilyniannol;
 - Polisiâu diwygiedig ar gyfer delio â defnyddiau newydd a chanolfannau yn mynd trwy gyfnod o newid ac ymagwedd gyson at derminoleg.

- 3.19 Mae newidiadau i TAN 4 yn gynhwysfawr ac yn ei ffurf ddrafft mae'n adlewyrchu ac yn ategu'r canllawiau a nodwyd yn y drafft diweddaraf o Gynllun Polisi Cymru Pennod 10. Mae TAN 4 yn darparu cyngor technegol pellach ar y meysydd pwnc canlynol:
- Amcanion manwerthu;
 - Hierarchaethau canolfannau;
 - Strategaethau manwerthu, uwchgynlluniau a chynlluniau lle;
 - Profion anghenion manwerthu;
 - Y prawf dilyniannol;
 - Ffryntiadau manwerthu;
 - Newid defnydd a rheoli datblygiad;
 - Gorchmynion Datblygu Lleol; a
 - Dangosyddion monitro.
- 3.20 Ymatebodd y Cyngor i'r ddogfen ymgynghori hon a bydd cyflwyno'r bennod hon a'r TAN yn ddiweddarach y flwyddyn hon yn llywio'r adolygiad o'r CDLI yn 2017.

Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel - Pecyn Cymorth i Gynllunwyr (Medi 2015)

- 3.21 Mae'r pecyn cymorth yn cynnig methodoleg i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu sylfaen gadarn o dystiolaeth i asesu'r potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn eu hardal. Gall yr wybodaeth hon ffurfio'r sail ar gyfer polisiau ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn cynlluniau datblygu lleol.
- 3.22 Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys adran ar sut i asesu'r potensial ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ac mae'n rhoi cyngor ar sut i droi asesiadau ynni adnewyddadwy yn bolisiau. Mae taenlenni templed gweithredol hefyd yn cael eu darparu sy'n golygu y gall awdurdodau cynllunio lleol roi gwybodaeth a chyfrifo data ynni penodol y cyfeirir ato yn y pecynnau cymorth. Mae Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn cael ei baratoi'n fewnol ar hyn o bryd i nodi cyfleoedd ar gyfer cynlluniau cynhyrchu ynni mwy adnewyddadwy. Bydd yr asesiad yn cynnwys Targedau Ynni Adnewyddadwy a Dyraniadau Ynni Adnewyddadwy o bosib os gellir canfod safleoedd a allai ddarparu capasiti o fwy na 5 megawat gosodedig. Bydd yr asesiad hwn yn llywio'r adolygiad o'r CDLI.

CL-01-15 Diweddariadau i Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn - Ymrwymadau'r Cynllun Gweithredu Ynghylch Sŵn (2013-18)

- 3.23 Mae'r llythyr egluro hwn yn ceisio diweddarau TAN 11 yn ffeithiol yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth ategol a Safonau Prydeinig sydd wedi'u hadolygu a'u newid. Mae'r newidiadau yn cynnwys cyfeiriad penodol at y system caniatáu amgylcheddol a'r fersiwn ddiwygiedig o *British Standard BS 4142:2014, Dulliau graddio ac asesu sain ddiwydiannol a masnachol* (Hydref 2014).

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (Mawrth 2016) a Chanllawiau ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad a Chanllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: Pennu gwerth safle (Mawrth 2016)

- 3.24 Mae TAN 12 wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau i'r gofynion ar gyfer Datganiadau Dylunio a Mynediad. Mae'r newidiadau i Orchymyn

Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) yn lleihau nifer y ceisiadau cynllunio lle mae angen cyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad, ac mae'n symleiddio eu cynnwys statudol. Bydd y gofyniad i gyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad gyda chais cynllunio yn gymwys i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau "mawr" bellach a datblygiadau mewn ardaloedd cadwraeth neu Safleoedd Treftadaeth y Byd lle mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys un neu ragor o anheddau neu greu arwynebedd llawr o 100 metr sgwâr neu ragor. Mae TAN 12 hefyd wedi cael ei ddiweddarau i ystyried lleihau troseddau, Adeiladu am Oes 12 Cymru, canllawiau Teithio Llesol a Hierarchaeth Ynni ar gyfer datblygiadau newydd. Nodir bod Rhan 8.66 y CDLI yn gwneud Datganiad Dylunio a Mynediad yn ofynnol fel rhan o'r holl gynigion datblygu. Caiff y mater hwn ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI, ond ni ystyrir ei fod yn ddigon arwyddocaol i wneud newid uniongyrchol i'r CDLI neu'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

- 3.25 Yn ogystal, mae Canllawiau ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad a Chanllawiau ar Dadansoddi Safle a Chyd-destun wedi cael eu cynhyrchu hefyd. Mae'r canllawiau ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yn cynnwys gofynion ar gyfer rôl, cynnwys a gweithdrefnau gofynnol. Mae'r canllawiau ar Dadansoddi Safle a Chyd-destun yn ddefnyddiol i Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth iddynt baratoi neu gomisiynu briffiau dylunio neu ddatblygu, cynnal trafodaethau cyn cyflwyno cais ac asesu ceisiadau cynllunio.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru - Drafft Cychwynnol (Tachwedd 2015)

- 3.26 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cael ei ddatblygu i ddarparu eglurder a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad cynaliadwy ein moroedd. Pwrpas y Cynllun yw rheoli gweithgareddau morol mewn ffordd gynaliadwy, gan ystyried blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru - Strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf (2016 - 2026)

- 3.27 Mae'r strategaeth hon yn ystyried rôl Llywodraeth Cymru o ran effeithlonrwydd ynni yn ogystal â rôl sefydliadau, busnesau a deiliaid tai eraill. Mae'n pwysleisio'r angen i hwyluso datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel trwy'r system gynllunio a sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cynllunio'n gadarnhaol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel trwy gynnwys polisiau gofodol priodol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

Strategaeth Ddŵr i Gymru (Awst 2015)

- 3.28 Mae'r strategaeth hon yn amlinellu cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi dŵr dros yr 20 mlynedd nesaf a thu hwnt. Mae'n ceisio sicrhau bod Cymru yn parhau i gael amgylchedd dŵr ffyniannus sy'n cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy er mwyn cynnal cymunedau iach, busnesau llewyrchus a'r amgylchedd.

Casgliad

- 3.29 Mae newid deddfwriaethol arwyddocaol wedi cael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod monitro. Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Cynllunio,

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol a Deddf yr Amgylchedd yn ffurfio'r sail ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd Cymru. Mae dogfennau Strategaeth Genedlaethol strategol eraill yn ymwneud ag Effeithlonrwydd Ynni, Dŵr a'r Amgylchedd Morol wedi cael eu cyflwyno hefyd. Mae Polisi Cenedlaethol a chanllawiau ategol gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru a Llawlyfr y CDLI wedi cael eu diweddarau hefyd. O ran Llawlyfr y CDLI nodir bod Adran 9 - Monitro wedi cael ei diweddarau. Mae'r diweddariad hwn wedi cael ei ystyried wrth baratoi'r adroddiad hwn, ac mae fframwaith monitro'r Adroddiad Monitro Blynyddol wedi cael ei newid i adlewyrchu hyn.

- 3.30 Mae TAN 11 - Sŵn a TAN 12 - Dylunio wedi cael eu diweddarau hefyd i adlewyrchu newidiadau i deddfwriaeth ategol a'r Safonau Prydeinig diwygiedig a newidiadau i'r gofynion ar gyfer Canllawiau ar Ddylunio a Mynediad. Mae newidiadau i TAN 20 - Cynllunio a'r Gymraeg a TAN 4 - Datblygu Canolfannau Manwerthu, Polisi Cynllunio Cymru Pennod 6 - Yr Amgylchedd Hanesyddol a Pholisi Cynllunio Cymru Pennod 10 - Datblygu Canolfannau Manwerthu wedi cael eu cynnig hefyd ar ffurf ddrafft.
- 3.31 Er y cydnabyddir bod deddfwriaeth newydd a pholisi cenedlaethol sy'n berthnasol i baratoi'r cynllun wedi cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro, mae llawer o'r manylion, gan gynnwys rhai Nodiadau Cyngor Technegol a newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru, ar ffurf ddrafft a gallant newid. At hynny, rhagwelir y bydd dogfennau perthnasol eraill (gan gynnwys, er enghraifft, TAN 24 - Yr Amgylchedd Hanesyddol) yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Nid yw polisi a deddfwriaeth genedlaethol a gyflwynwyd y flwyddyn hon wedi arwain at unrhyw newidiadau arwyddocaol yng nghyd-destun y cynllun. O ganlyniad nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer gweithredu mewn perthynas â'r CDLI ar hyn o bryd.
- 3.32 Fodd bynnag, nodir y gall fod angen gwneud mân newidiadau i nifer o bolisiau'r cynllun gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r Dreftadaeth Adeiledig, y Gymraeg a Dylunio a Manwerthu yn dilyn cyflwyno'r newidiadau hyn i bolisiau a chyfarwyddyd cenedlaethol yn y dyfodol. Bydd y Cyngor yn y sefyllfa orau i ystyried unrhyw newidiadau gofynnol i'r CDLI yn dilyn cyflwyno newidiadau arfaethedig ychwanegol i'r polisi cenedlaethol a ddisgwyllir yn 2016 - 2017. Mae'r sefyllfa hon yn cyd-fynd ag amseriad y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol a'r angen statudol i adolygu'r cynllun yn 2017.

Amodau Cenedlaethol

Tai

- 3.33 Bu cynnydd cyson yn nifer yr anheddau newydd a ddechreuodd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2014-2015 cynyddodd y nifer gan 20% o'r flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd hefyd yn nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yn flynyddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ystod y chwarter Hydref i Ragfyr 2015-16 cwblhawyd cyfanswm o 1,976 o anheddau newydd, sy'n 13% yn fwy na'r un chwarter y flwyddyn flaenorol. Mae'r sector preifat yn parhau i gyfrif am y rhan fwyaf o'r gweithgarwch adeiladu tai newydd, sef 84% o'r holl anheddau newydd a gwblhawyd yn ystod Hydref i Ragfyr 2015 - 2016.

Adlewyrchwyd y gwelliant cenedlaethol hwn ar lefel leol hefyd yng Ngheredigion.

Economi

- 3.34 Ym Mawrth 2016, dangosodd Arolwg y Gweithlu fod tua 1.454 miliwn o bobl yn cael eu cyflogi yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli 72.6% o bobl 16-64 oed. Mae hyn yn dangos gwelliant o'i gymharu â blynyddoedd diweddar pan oedd 1.373 miliwn o bobl (2015) mewn cyflogaeth a 1.364 miliwn (2014). Yn yr un modd, mae nifer y bobl oedd yn anweithgar yn economaidd wedi gostwng o 454,000 y flwyddyn hon i 468,000 yn 2015.
<https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/gor/2013265930/report.aspx> Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru gyda 26.7% o bobl sydd mewn cyflogaeth wedi'u cyflogi yn y sector cyhoeddus (2016), o'i gymharu â 27.9% (2015) a 29.5% (2014). Er bod y canrannau wedi gostwng ychydig yn y blynyddoedd diwethaf ni chafwyd unrhyw newidiadau mawr mewn swyddi'r gweithlu yn ôl diwydiant ers mabwysiadu'r cynllun yn 2013.
- 3.35 Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth y gweithle yn ôl diwydiant yng Nghymru 2001-2014, wrth gymharu strwythur diwydiannol Cymru â strwythur diwydiannol y DU, roedd cyfran uwch o gyflogaeth yng Nghymru ym maes gweinyddu cyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd (sy'n wahanol i'r sector cyhoeddus), cyfran uwch yn y diwydiannu cynhyrchu ac amaethyddiaeth, a chyfran is mewn gweithgareddau cyllid a busnes.
- 3.36 Mae manwerthu ar gyrion trefi yn parhau i dyfu ledled Cymru, yn bennaf oherwydd y canfyddiad o fynediad a pharcio haws, gwell cyfleustra, prisiau cystadleuol a diogelwch a gynigir gan y safleoedd hyn.
- 3.37 Yn ôl gwaith monitro nifer y siopwyr a siopau gwag Consortiwm Manwerthu Cymru mae nifer y siopwyr a chyfraddau siopau gwag ledled Cymru wedi amrywio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda gostyngiad sylweddol yn nifer y siopwyr yn 2011 sy'n cyd-fynd â lefelau siopau gwag o fwy nag 13%. Ers hynny, mae cynnydd dilynol sy'n fwy na'r hyn a welwyd trwy'r DU gyfan wedi cael ei wireddu, a chafwyd gwelliant sylweddol mewn nifer y siopwyr ar draws Cymru ers Gorffennaf 2013.
- 3.38 Mae'r Asesiad o Anghenion Economaidd (DTZ, 2010) sy'n sail i'r CDLI yn nodi y dylid darparu cyfleoedd ar gyfer o leiaf 4,000 o swyddi ychwanegol yn economi Ceredigion. Dylid nodi bod llawer o'r dadansoddiad hwn wedi cael ei wneud yn nyddiau cynnar y dirwasgiad economaidd, felly mae'n bosibl nad yw wedi ystyried pa mor ddwfn y bu'r dirwasgiad a pha mor hir y mae wedi para. Gallai rhagor o doriadau i wariant cyhoeddus beryglu gwireddu'r amcanestyniadau ymhellach, yn enwedig yn y sectorau hynny sy'n dibynnu'n fawr ar gaffael nwyddau neu wasanaethau gan y Cyngor er mwyn parhau i fod yn hyfyw.
- 3.39 Bydd darparu'r swyddi hyn yn cael effaith ar ddatblygu'r dyraniadau tir cyflogaeth, oherwydd os na chaiff y 4,000 o swyddi eu creu ni fydd galw i ddatblygu'r tir a neilltuwyd i ddarparu 27% o'r swyddi hyn. Caiff yr Asesiad o Anghenion Economaidd ei ddiweddarau dros y misoedd nesaf lle y caiff

dyraniadau tir ac anghenion cyflenwad tir economaidd eu hadolygu. Bydd y diweddariad hwn yn llywio'r adolygiad o'r CDLI yn 2017.

Polisi ac Amodau Rhanbarthol

Cynllun 2 Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru (Mehefin 2012)

- 3.40 Cymeradwywyd Cynllun 2 Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru ar ôl mabwysiadu'r CDLI. Mae'r Cynllun yn nodi bod polisiau Adlinio Rheoledig yn bodoli ar hyn o bryd ac yn y tymor byr i ganolig ar hyd darnau helaeth o ffryntiadau ar hyd arfordir Ceredigion. Y polisi presennol ac arfaethedig yw Dim Ymyriad Gweithredol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith mewn perthynas â'r CDLI, bydd rhaid i unrhyw adolygiad yn y dyfodol ystyried cynnwys ac argymhellion Cynllun 2 Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru.

Cynllun Rheoli Asedau 6 Dŵr Cymru Welsh Water

- 3.41 Mae Cynllun Rheoli Ased 6 (AMP) DCWW yn rheoli gwelliannau dŵr a charthffosiaeth hyd nes a chan gynnwys 2020, ac mae newydd gael ei ddiweddarau. Mae'r AMP yn dangos bod llai o faterion seilwaith ar gyfer Ceredigion y flwyddyn hon. Dim ond 4 Canolfan Gwasanaeth sydd wedi'u cyfyngu'n rhannol o'i gymharu â 6 yn 2015 a 9 yn 2014. Mae'r pedair canolfan gwasanaeth sydd wedi'u cyfyngu'n rhannol yn cynnwys Llwyncelyn, Llan-non, Llanrhystud a Phontarfynach.
- 3.42 Bydd y cyfyngiadau a nodwyd yn llywio cyflwyniad Dŵr Cymru i reoleiddwyr diwydiant ar gyfer AMP7 (2020 - 2025). Cyn buddsoddiad rheoleiddiol gall datblygiad fynd rhagddo yn y tymor byr os yw datblygwyr yn cyllido'r gwelliannau eu hunain. Bydd gwybodaeth am gyfyngiadau seilwaith yn cael eu hystyried pan fydd safleoedd a neilltuwyd a statws canolfannau gwasanaethau yn cael eu hadolygu fel rhan o broses adolygu'r CDLI. Bydd hyn yn sicrhau bod safleoedd a neilltuwyd yn parhau i fod yn briodol yn y dyfodol, a bod twf graddol dros gyfnod y cynllun yn addas a bod Datganiadau Grŵp Aneddiadau yn parhau i fod yn gywir.

Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru (2015)

- 3.43 Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru yn ceisio cyflwyno prosiectau trafndiaeth integredig yng Ngheredigion trwy Brosiect Teithio Llesol Ardal Aberystwyth, Cynllun Parcio a Theithio Aberystwyth, Cynllun Troetffordd Pontarfynach Cam 3, Bwcabus a'r prosiect gwella cludiant cymunedol, yn ogystal â nifer o gynlluniau i wella ac estyn llwybrau beicio. Mae'r gwaith datblygu a rheoli rhaglenni wedi canolbwyntio ar ddatblygu polisiau a rhaglenni gan gynnwys Strategaeth Reilffyrdd TraCC, Strategaeth Priffyrdd, Bysiau a Chludiant Cymunedol.

Awdurdodau ac Ardaloedd Cynllunio Lleol Cyfagos

- 3.44 O ran Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos roedd Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Caerfyrddin wedi mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol yn 2013 a 2014. Mabwysiadodd Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ei Gynllun Datblygu Lleol yn 2010 ac mae newydd gyhoeddi adroddiad adolygu a ddaeth i'r casgliad bod angen diwygio'r CDLI yn llawn. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos wedi gwneud cynnydd da ar baratoi eu CDLI. Yn unol â'u cytundebau cyflenwi

disgwylir i Gyngor Sir Powys fabwysiadu CDLI yn Rhagfyr 2016 a disgwylir i Gyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu CDLI ar y cyd yn Chwefror 2017. Roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi cymryd rhan ym mhrosesau llunio cynllun pob awdurdod cyfagos, ac roedd yr awdurdodau hynny wedi cyfrannu at CDLI Ceredigion. Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys a fyddai'n effeithio ar gyflenwi CDLI Ceredigion.

- 3.45 Nodir bod Adran 14 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ym Mawrth 2016 am y tro cyntaf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Awdurdodau Cynllunio Lleol i baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar y cyd.

Casgliadau o ran Polisi ac Amodau Rhanbarthol

- 3.46 Nid oes unrhyw bolisi a/neu amodau rhanbarthol a fyddai'n ysgogi newid ar unwaith. Caiff y materion a nodwyd eu monitro dros y flwyddyn i ddod i weld a fydd y sefyllfa hon yn newid, a chaiff ei ystyried yn yr adolygiad o'r Cynllun yn 2017.

Polisi ac Amodau Lleol

Asesiad o Farchnad Dai Leol Ceredigion (Ionawr 2016)

- 3.47 Ers Mai 2013 mae Gweinidog Cymru wedi ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynhyrchu Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) er mwyn cryfhau eu rôl tai strategol. Yn unol â'r gofyniad hwn mae LHMA Ceredigion (2016) newydd gael ei baratoi ac yn disodli'r LHMA blaenorol a gyhoeddwyd yn 2011. Mae'r asesiad yn ystyried y tueddiadau a'r data tai sydd ar gael hyd at ddiwedd 2015, ond mae hefyd yn edrych ymlaen at y rhagolygon ar gyfer y farchnad dai leol a materion a thueddiadau yn y dyfodol. Fe'i cynhyrchwyd ar y cyd, gyda chyfraniadau mawr gan yr adrannau Ymchwil a Dadansoddi, Polisi Cynllunio, Strategaeth Dai a Thai Sector Preifat Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r prif gasgliadau wedi'u crynhoi isod:

- Gofynion Tai: Mae tystiolaeth gyfredol yn awgrymu bod angen oddeutu 2,060 o anheddau newydd yn y cyfnod 2011 i 2016. Fodd bynnag, mae sail yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd sydd ar gael ar hyn o bryd yn awgrymu'n gryf y bydd rhaid newid y ffigur hwn pan fydd y data ar gael ar dueddiadau yn y cyfnod ar ôl i'r argyfwng ariannol gyrraedd ei anterth.
- Fforddiadwyedd Tai: Mae fforddiadwyedd tai yn parhau i fod yn broblem yng Ngheredigion. Mae'r asesiad o anghenion tai yn dangos y dylai oddeutu 60% o'r tai newydd fod yn 'dai fforddiadwy', ac y dylai cyfran uwch o dai fforddiadwy (67% o dai fforddiadwy) gael eu darparu gan dai canolraddol na'r hyn a nodwyd gan astudiaethau o anghenion blaenorol. Fodd bynnag, gall cyfran y tai fforddiadwy sydd ei hangen leihau pe bai'r ffigur mewnfudo yn dychwelyd i fod yn agosach i'r lefel a welwyd cyn yr argyfwng ariannol, gan arwain at gynnydd yn y galw am dai.
- Tai ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio: Mae darparu tai addas fel un o'r materion canolog ar gyfer llesiant hwyrach mewn bywyd a'r cynnydd sicr yn nifer y bobl hŷn yn her i'r polisi tai. Bydd effeithiau'r newid hwn yn y boblogaeth i'w gweld dros y degawdau nesaf, ond mae'n rhaid i bolisi cyhoeddus weithredu nawr i sicrhau y bydd tai addas ar gael yn y dyfodol.

- Y Sector Rhentu Preifat yn Aberystwyth: Mae newidiadau yn y cyflenwad o lety prifysgol a nifer y myfyrwyr AU wedi cael yr effaith uniongyrchol o gynyddu nifer yr eiddo gwag yn ardal Aberystwyth. Bydd rhaid i bolisi a rheoleiddio tai ymateb i'r heriau a godir yn sgil hyn os yw'n fwy na phroblem fyrdymor.
- Diwygio lles: Bydd rhaglen barhaus Llywodraeth y DU o ddiwygio'r system les, yn enwedig talu budd-daliadau tai, yn cael effeithiau ar aelwydydd unigol ac ar y farchnad dai. Hyd yma y prif effeithiau neu'r effeithiau disgwylidig fu cynnydd yn y galw am eiddo llai yn y sector cymdeithasol o ganlyniad i'r dreth ystafell wely, cynnydd yn y galw am denantiaethau amlfeddiannaeth yn y sector rhentu preifat o ganlyniad i newid y sail ar gyfer gwneud taliadau i aelwydydd person sengl, a gostyngiad yn yr arian sydd ar gael i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau mewn tenantiaethau preifat o ganlyniad i ostyngiad yn lefel y Lwfans Tai Lleol.

3.48 Er nad yw'n ddogfen bolisi mae'r LHMA yn ceisio rhoi darlun cynhwysfawr i'r rhai sy'n gwneud polisïau ar y farchnad dai leol i'w ddefnyddio fel sylfaen dystiolaeth gyffredin. Fe'i defnyddir i lywio'r adolygiad o'r CDLI.

Ceredigion i Bawb - Cynllun Integredig Sengl 2013 - 2017

3.49 Mae Ceredigion i Bawb 2013 - 2017 yn Gynllun Integredig Sengl wedi'i baratoi gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion a grwpiau gweithredol sy'n amlinellu sut y bydd sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol Ceredigion yn dod at ei gilydd i wella bywydau ei dinasyddion. Mae Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi bod yn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd eleni. Bydd y ddyletswydd o fewn y Ddeddf yn weithredol o 1 Ebrill 2016 gan gynnwys y gofyniad i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol gael ei sefydlu. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cael diweddariadau niferus ac wedi cynnal trafodaethau ynghylch y Ddeddf i baratoi ar gyfer y newid o fod yn Fwrdd Gwasanaethau Lleol i Fwrdd Gwasanaethu Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi ymateb i ymgynghoriadau amrywiol ar y Ddeddf, sef y Sgwrs Genedlaethol - y Gymru a Garem, y Canllawiau Statudol drafft a'r Dangosyddion Cenedlaethol drafft.

3.50 Mae Rhwydwaith Swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Lleol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael ei sefydlu a'i hwyluso gan Geredigion. Mae swyddogion BGLI o Sir Gaerfyrddin, Powys a Sir Benfro wedi mynychu'r cyfarfydd hynny lle y trafodwyd y trefniadau ynghylch Aseidiadau o Lesiant Lleol. Rhaid i'r Aseiad gael ei gyhoeddi erbyn Mai 2017 a dyma'r brif dasg gyntaf i'w chyflawni gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd yr Aseidiadau o Lesiant Lleol yn darparu'r sail ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol 5 mlynedd y bydd rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei baratoi.

Data Poblogaeth ac Aelwydydd

3.51 Cafodd y CDLI ei seilio ar y data poblogaeth ac aelwydydd a'r amcanestyniadau ar gyfer poblogaeth ac aelwydydd oedd ar gael adeg ei ddrafftio. Mae'r CDLI wedi rhagdybio y bydd y boblogaeth yn tyfu gan oddeutu 7,600 o ddechrau cyfnod y cynllun hyd ei ddiwedd yn 2022. Dros yr un cyfnod roedd disgwyl i nifer yr aelwydydd godi gan oddeutu 5,600.

- 3.52 Ers mabwysiadu'r CDLI, mae data o Gyfrifiad 2011 wedi cael eu cyhoeddi. Dangosodd Cyfrifiad 2011 gyfradd is o dwf yn y boblogaeth o'i gymharu â phoblogaeth Cyfrifiad 2001 na'r hyn a nodwyd yn y CDLI. Yn yr un modd byddai cyfanswm yr anheddau ac aelwydydd a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 yn awgrymu cyfradd is o newid yn nifer yr aelwydydd o'i gymharu â Chyfrifiad 2001, na'r un a ragdybir yn y CDLI.
- 3.53 Mae'r newid yn y boblogaeth myfyrwyr yn dal i gymhlethu'r data ar newidiadau yn y boblogaeth ac aelwydydd yn yr ardal leol. Mae effeithiau hyn i'w gweld yn amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru sydd wedi'u seilio ar ddata 2011. Fodd bynnag, yn absenoldeb data arall, mae'r ffigurau hyn wedi cael eu derbyn fel yr amcanestyniadau gorau sydd ar gael o'r boblogaeth, ac wedi cael eu defnyddio yn y model o dai a gyflwynwyd yn yr Asesiad o Farchnad Dai Leol Ceredigion (Ionawr 2016).
- 3.54 Yn wyneb ansefydlogrwydd yr amcanestyniadau, byddai'n ddoeth aros nes y cyhoeddir amcanestyniadau seiliedig ar ddata 2014 yn 2016/17. Felly mae'r amcanestyniadau hyn yn debygol o gael eu cyhoeddi yr un pryd â'r adolygiad o'r CDLI yn 2017.

Cyflenwi Tai

- 3.55 Mae cyflenwi tai i lawr ar draws Cymru ac nid yw'n broblem sy'n unigryw i Geredigion. Mae Polisi S01 yn dangos bod angen darparu 6000 o anheddau newydd er mwyn diwallu'r angen a nodwyd dros gyfnod y cynllun. Er mwyn diwallu'r angen hwn mae angen cwblhau 400 o anheddau bob blwyddyn ar gyfartaledd. Hyd yma mae 1735 o unedau (Mawrth 2016) wedi cael eu cwblhau sy'n hafal i 29% o gyfanswm y gofyniad tai. Os cymerir caniatadau sy'n weddill i ystyriaeth hefyd (1513 ym Mawrth 2016 yn ôl arolwg preswyl blynyddol y Cyngor), mae nifer y caniatadau a'r unedau a gwblhawyd (cyfanswm ymrwymadau o 3278 ym Mawrth 2016) yn dangos bod 53% o'r gofynion tai wedi'u hymrwymo hyd yma. Felly nid yw unedau tai newydd wedi cael eu darparu yn y niferoedd y mae eu hangen yn ystod hanner cyntaf cyfnod y cynllun
- 3.56 Cydnabyddir, fodd bynnag, y bydd cyfnod cynllun 15 mlynedd yn cynnwys cyfnodau o ffyniant a methiant, felly mae'n bwysig ystyried y sefyllfa hon ochr yn ochr â ffactorau eraill. Yn seiliedig ar y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016 mae cyfraddau cwblhau blaenorol (2008-2016) yn awgrymu bod cyfraddau cwblhau yn y dyfodol yn debygol o barhau ar gyfradd is, gyda 194 o unedau yn cael eu cwblhau bob blwyddyn ar gyfartaledd o'i gymharu â'r nifer gyfartalog flynyddol y disgwylir y bydd yn ofynnol, sef 400. Felly yn ôl y rhagolygon presennol, dim ond 2,913 o anheddau ychwanegol fyddai'n cael eu cyflenwi erbyn 2022 o'i gymharu â'r 6,000 o anheddau y disgwylir iddynt gael eu cyflenwi. Gallai'r duedd hon gael ei phriodoli i nifer o ffactorau gan gynnwys, er enghraifft, llai o alw oherwydd cyfraddau ffurfio aelwydydd is.
- 3.57 Mae Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2011/12 a 2012/13 yn defnyddio'r fethodoleg a ragnodiwyd yn y canllawiau ar y pryd ac yn dangos mai 5.3 blynedd a 6.5 blynedd yn y drefn honno fu'r cyflenwad tir 5 mlynedd yng Ngheredigion (mae gofyniad yn y canllawiau am gyflenwad blynyddol o 5

mlynedd o leiaf). Fodd bynnag, yn dilyn newid yn y fethodoleg i ddull cyflenwad tir gweddilliol, mae'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn dangos cyflenwad tir o 3.7 o flynyddoedd (2013/14), 3.9 o flynyddoedd (2014/15) a 3.4 o flynyddoedd (2015/16).

- 3.58 Mae'r farchnad yn cyfyngu ar y cyflenwad tai am amrywiaeth o resymau sydd y tu allan i reolaeth y system gynllunio, gan gynnwys diffyg cyllid datblygu, argaeledd morgeisiau a phrinder sgiliau yn y diwydiant datblygu lleol. Mae'n werth nodi yma bod absenoldeb diddordeb gan ddatblygwyr nifer fawr o adeiladau yng Ngheredigion yn effeithio ar y cyflenwad tir sy'n cael ei ddefnyddio. Cwblhawyd peth gwaith ymgysylltu â datblygwyr a pherchnogion safle gan y Swyddog Cyflenwi Tai, fodd bynnag, yn dilyn anawsterau wrth recriwtio ymgeisydd i'r swydd hon, roedd y swyddog a gafodd ei recriwtio'n llwyddiannus yn y swydd am bedwar mis yn unig. Mae'r mater o ddatblygu tai yn ymddangos i fod yn un y bydd y rhan fwyaf os nad pob un o Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn ei wynebu ar yr adeg hon, gyda'r rhan fwyaf ohonynt sydd wedi mabwysiadu CDLI heb gyrraedd eu targedau unedau a gwblhawyd disgwyliedig blynyddol a nodir ynddo.
- 3.59 Cynhaliwyd ymchwiliad yn 2015 i'r berthynas rhwng caniatadau ac unedau a gwblhawyd. Er bod yr ymchwiliad wedi canfod cymhareb uchel rhwng caniatadau ac unedau a gwblhawyd, mae hwn yn debyg i awdurdodau gwledig cyfagos yn ardal Gorllewin Cymru ac yn arwydd o'r amodau economaidd presennol ac amodau'r farchnad ehangach. Mae angen gwneud gwaith pellach i asesu datblygiad safleoedd a neilltuwyd fel rhan o'r adolygiad o safleoedd a neilltuwyd. Ceisiwyd gwybodaeth ar fwriadau datblygwyr y flwyddyn hon yn ystod y broses o baratoi'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Cafwyd cyfradd ymateb o 51%. Caiff yr wybodaeth hon ei hystyried yn yr adolygiad o safleoedd a neilltuwyd. Mynegodd rhai datblygwyr bryder yn eu hymatebion ynghylch hyfywedd datblygu safleoedd, felly mae Asesiad Hyfywedd Strategol wedi cael ei gomisiynu a chaiff y canlyniadau eu bwydo i mewn i'r adolygiad o'r CDLI.

Tai Fforddiadwy

- 3.60 Nid yw'r unedau tai fforddiadwy sy'n cael eu datblygu trwy'r system gynllunio yn cael eu darparu ar y lefel (niferoedd) gofynnol ar y cam hwn yng nghyfnod y cynllun. Nid yw hyn yn syndod o gofio nad yw unedau tai yn gyffredinol yn cael eu datblygu ar y lefelau a ddisgwyliwyd. Nid yw'r broblem hon wedi'i chyfyngu i Geredigion ac mae'n amlwg yn Adroddiadau Monitro Blynyddol ALLau eraill ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r caniatadau cynllunio ar gyfer tai fforddiadwy fel cyfran o'r caniatadau ar gyfer tai cyffredinol o ddechrau cyfnod y cynllun yn rhagori ar y targed o 20% (caniatâd ar gyfer 824 o dai fforddiadwy a 3402 o dai), ac mae nifer y tai fforddiadwy sy'n cael eu datblygu (unedau a gwblhawyd) yn ganran targed o dai'r farchnad gyffredinol sy'n cael eu hadeiladu (bron 22%) (382 o dai fforddiadwy a 1762 o gartrefi'r wedi'u cwblhau). Nid yw'r CDLI mabwysiedig wedi cael effaith arwyddocaol eto ar y cymysgedd a'r dosbarthiad o dai fforddiadwy yn ôl math a daliadaeth, a dim ond dechrau dod i law mae ceisiadau cynllunio manwl. Mae cytundebau cyfreithiol ar gyfer cyfraniadau symiau gohiriedig ar gyfer tai fforddiadwy wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer nifer o unedau unigol ar y farchnad agored, fodd bynnag nid yw unrhyw symiau

i'w casglu eto. Mae'r heriau hyfywedd a ddaeth i law yn ymwneud â chynigion cyfaddasu. Efallai y bydd cyfle wrth adolygu i ystyried manteision neu anfanteision cymhwyso Swm Gohiriedig Tai Fforddiadwy i gyfaddasiadau preswyl. Mae hon yn agwedd ar gymhwyso polisi S05 yn ymarferol y gellid ei hadolygu ochr yn ochr â diweddarau'r asesiad hyfywedd strategol.

Ysgolion

- 3.61 Mae Polisi Adolygu Ysgolion Ceredigion (Rhagfyr 2014) yn ceisio adeiladu ar yr egwyddorion a nodwyd yn y polisi blaenorol (Rhagfyr 2012). Mae'n amlinellu gweithdrefnau adolygu a hefyd yn nodi ar gyfer unrhyw ysgol os oes gostyngiad yn nifer y disgyblion, ansawdd a safonau addysg, sefyllfa ariannol a/neu gyflwr adeiladau unrhyw ysgol, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i argymhell bod ysgol yn cael ei hadolygu gan Banel Adolygu Ysgolion Ceredigion. Mae chwe dalgyrch ysgolion yng Ngheredigion ac yn dilyn cyflwyno'r polisi cynhaliwyd Adolygiad o Ardal Aberystwyth yn 2014 gan arwain at gau dwy ysgol gynradd eleni. Mae adolygiad o ardal Dyffryn Aeron yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Er nad oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar gyfer y CDLI, bydd adolygiadau ysgol yn parhau i gael eu monitro yn y dyfodol.
- 3.62 Mae dwy ysgol newydd yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd yn y Sir. Mae'r rhain yn cynnwys ysgol ardal newydd yn Llandysul ac ysgol gynradd newydd yn Nrefach ger Llanbedr Pont Steffan. Mae ysgol ardal Llandysul yn uno pum ysgol - Ysgol Dyffryn Teifi, Aberbanc, Coedybryn, Llandysul a Phontsian i ffurfio'r ail ysgol ardal yn y sir, a bydd yn darparu lle ar gyfer 1,000 o ddisgyblion cynradd ac uwchradd. Disgwylir i'r ddwy ysgol hyn agor ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016/17. Bydd angen ystyried yr ysgolion newydd hyn a goblygiadau ar gyfer strategaeth ddatblygu'r CDLI fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI.

Ynni Adnewyddadwy

- 3.63 Nid oedd rhaid i'r awdurdod lleol gynnal Asesiad Ynni Adnewyddadwy cyn mabwysiadu'r CDLI. Fodd bynnag, mae'n ofynnol cynnal Asesiad Ynni Adnewyddadwy fel rhan o'r adolygiad cyntaf o'r Cynllun yn unol â diweddariadau Polisi Cynllunio Cymru. Mae Ceredigion wedi dechrau paratoi Asesiad Ynni Adnewyddadwy a fydd yn ffurfio'r sail ar gyfer proses adolygu'r CDLI. Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn cael ei baratoi yn unol â'r Pecyn Cymorth Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isef. Mae'n cynnwys asesiad o botensial rhwydwaith gwres dosbarthol.
- 3.64 Er mwyn cysylltu i'r Grid Cenedlaethol mae'r datblygiad fferm wynt newydd yn Ardal Chwilio Strategol D yn golygu bod rhaid gosod llinellau pŵer newydd ac mae'n rhaid lleoli'r llinellau newydd hyn o fewn yr Awdurdod Lleol cyfagos, Powys. Dechreuodd ymchwiliad cyhoeddus ar y cyd i ddatblygiadau fferm wynt ym Mhowys ym Mai 2013. Ym Medi 2015 gwrthododd Adran yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd ganiatâd cynllunio ar gyfer pedwar cais am ffermydd gwynt mawr a fyddai wedi ategu prosiectau cysylltiad arfaethedig. Mae dyfodol y ceisiadau cynllunio hyn yn parhau'n aneglur ac mae rhai yn destun apêl ar hyn o bryd. O ganlyniad mae'r prosiectau cysylltiad arfaethedig wedi'u gohirio ym Mhowys ac mae'r rhain yn ofynnol er mwyn i unrhyw ddatblygiad ynni adnewyddadwy ddechrau yn Ardal Chwilio Strategol D. Mae'r sefyllfa hon y tu

allan i reolaeth neu ddylanwad Awdurdod Lleol Ceredigion a'r CDLI, ond bydd yn parhau i gael ei fonitro.

Yr Economi

- 3.65 Mae'r Awdurdod Lleol wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys i ddatblygu Fframwaith Tyfu Canolbarth Cymru sy'n fframwaith buddsoddi i ddarparu buddion economaidd i ardal Canolbarth Cymru. Wedi'i gynnwys yn y fframwaith mae camau gweithredu ar gyfer canol trefi, megis datblygu amgueddfa Rheilffordd Cwm Rheidol a chreu Ysgol Milfeddygaeth fel rhan o Gampws Penglais yn Aberystwyth. Mae nifer o brosiectau seilwaith trafnidiaeth arfaethedig hefyd wedi'u cynnwys yn y fframwaith. Fodd bynnag, yr her fwyaf o bosib i gyflwr economi leol y sir yw Brexit a phenderfyniad y DU i adael yr UE, a sut y bydd hyn yn effeithio ar ddinasyddion presennol yr UE yma yng Ngheredigion. Mae rhan fawr o'n busnesau amaethyddol a chynhyrchu bwyd yng Ngheredigion yn dibynnu ar lafur yr UE. Gallai'r ansicrwydd sy'n parhau yn dilyn refferendwm yr UE fod yn rhwystr yn y tymor byr i fudwyr o'r UE sydd am ddod i'r DU, ac yn y tymor canolig yn dilyn ysgogi Erthygl 50 gallai leihau'r cyflenwad o lafur yr UE a/neu orfodi nifer o fudwyr o'r UE i ddychwelyd i wledydd y tu allan i'r DU. Gallai fod goblygiadau eang yn hynny ar gyfer busnesau lleol wrth iddynt ei chael hi'n anodd i lenwi swyddi gwag ac o ganlyniad dewis adleoli i ardaloedd eraill.
- 3.66 Hyd nes y gellir rhoi sylw i'r ansicrwydd hwn mae fframwaith Tyfu Canolbarth Cymru yn ceisio amrywio'r sylfaen economaidd, cefnogi a chryfhau'r sylfaen economaidd, creu swyddi a chyfleoedd newydd, datblygu sgiliau'r gweithlu a gwella cyfathrebu, hygyrchedd a seilwaith.

Darparu Mannau Agored

- 3.67 Cychwynnodd Llywodraeth Cymru ran gyntaf y ddyletswydd o dan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn Nhachwedd 2012. Mae'r rhan hon o'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd bob 3 blynedd, a datblygu ac adolygu Cynllun Gweithredu Chwarae bob blwyddyn. Cychwynnodd ail ran y ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd yng Ngorffennaf 2014.
- 3.68 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gwblhau asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio Asesiadau o Fannau Agored sy'n bodoli eisoes i fapio manau sy'n cael eu defnyddio, neu a allai gael eu defnyddio, ar gyfer chwarae. Yn ôl Asesiad Ceredigion o Fannau Agored mae diffyg manau i blant chwarae ac felly cafodd Polisi LU24: Darparu Mannau Agored Newydd, ei gynnwys yn y CDLI i helpu i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.
- 3.69 Yn dilyn hynny lluniwyd Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fannau Agored, gyda chyngor a mewnbwn gan Chwarae Cymru a RAY Ceredigion i gynorthwyo datblygwyr i feddwl am fannau agored, gyda phwyslais ar chwarae, pan fyddant yn cyflwyno eu ceisiadau cynllunio. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol wedi cael ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Chwarae

2013/14, a bydd y gwaith o fonitro gweithrediad y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn cael ei gynnwys yng Nghynlluniau Gweithredu Chwarae yn y dyfodol.

3.70 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cwblhau ei asesiad o ddigonolrwydd manau chwarae yn 2016 gan amlinellu nifer o gamau gweithredu i ddatblygu a chefnogi cyfleoedd ar gyfer manau chwarae ymhellach yn y sir. Er bod llawer o'r rhestr ysgogiadau yn wyrdd mae rhai ysgogiadau ambr a choch yn parhau, a bydd yr asesiad o fannau chwarae yn gweithio ar y rhain ar gyfer yr asesiad nesaf. Fodd bynnag, mae rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud ers yr asesiad diwethaf, gydag 8 dangosydd newydd yn y gwyrdd. Mae hyn o ganlyniad i'r gwaith sy'n parhau, gan gynnwys gosod arwyddion parthau di-fwg ar bob man chwarae trwy'r sir. Mae'r CDLI yn cefnogi nod cynllun gweithredu manau chwarae trwy bolisi LU24 Darparu Manau Agored Newydd a'r Canllawiau Cynllunio Atodol Manau Agored. Byddwn yn ystyried casgliadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Manau Chwarae ar gyfer yr Asesiad o Fannau Agored fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI.

Adroddiad yr Arolygydd

3.71 Mae Adroddiad yr Arolygydd ar CDLI Ceredigion (Adroddiad ar yr Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022, Mawrth 2013) yn cyfeirio at nifer o faterion y penderfynwyd y bydd angen eu hystyried fel rhan o'r adolygiad.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ystyried rôl Aberaeron yn y tymor hwy. A yw'n aros yn Ganolfan Gwasanaethau? Os ydyw, byddai'n rhaid nodi mwy o safleoedd. Gallai rôl Llwynceilyn leihau.
- Mae'n bosibl y bydd gofynion gwaredu/ailgylchu gwastraff a osodir yn genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i newid y CDLI.
- A fydd rhai Canolfannau Gwasanaethau Gwledig yn cael eu cadw? Yn benodol a ddylai Cenarth, Pontarfynach a Cheinewydd barhau i fod yn Ganolfannau Gwasanaethau Gwledig?
- A oes angen diwygio Strategaeth y CDLI, neu ran ohoni, i adlewyrchu Strategaeth Addysg y Cyngor?

3.72 Felly mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd angen i'r uchod fod yn rhan o'r adolygiad a dylid ystyried, yn gynnar yn y broses, ddealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn sicrhau y gellir neilltuo amser ac adnoddau i gyflawni'r tasgau hyn.

Ystyriaethau Lleol: Casgliadau

3.73 Nid oedd gan Grŵp Ymgynghorol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion unrhyw faterion penodol i dynnu sylw atynt yr oedd angen eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn o ran ystyriaethau lleol.

3.74 Mae nifer o faterion lleol wedi cael eu nodi uchod fel rhai y mae angen eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o CDLI Ceredigion. Bydd y materion a nodwyd yn parhau i gael eu monitro a rhoddir sylw iddynt yn yr adolygiad o'r CDLI.

4. Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol

- 4.1 Mae dangosyddion, targedau a lefelau ysgogyddion wedi cael eu nodi er mwyn asesu perfformiad polisïau ac amcanion. Bydd yr ysgogyddion sydd wedi'u cynnwys yn y drefn fonitro yn rhoi arwydd cynnar o berfformiad y Cynllun ac o bosibl pa mor eang fydd yr adolygiad o'r Cynllun.
- 4.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

Arwyddocâd perfformiad	Disgrifiad
+	Mae'r targedau'n cael eu cyflawni.
?	Nid oes modd dod i unrhyw gasgliad ar hyn o bryd.
0	Nid yw'r targedau wedi cael eu cyflawni ond nid oes pryderon ynghylch gweithrediad y polisi(polisïau).
-	Nid yw'r targedau'n cael eu cyflawni ac mae pryderon ynghylch gweithrediad y polisi(polisïau).

- 4.3 Rhoddwyd ystyriaeth i'r dangosyddion craidd perthnasol a nodir yn Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru (Awst 2015). Dangosir y Dangosyddion Statudol yn y tablau monitro trwy gynnwys y geiriau "Dangosydd Statudol" wrth ochr cyfeirnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol.
- 4.4 Mae'r broses fonitro yn dibynnu ar ystod eang o wybodaeth ystadegol. Mae rhai amgylchiadau wedi arwain at newidiadau i'r Fframwaith Monitro gwreiddiol a fabwysiadwyd fel Atodiad 3 o'r CDLI yn Ebrill 2013. Mae manylion am unrhyw newidiadau i'w gweld yn Atodiad 1 o'r adroddiad. Nodir bod rhai mân newidiadau wedi cael eu gwneud i'r fframwaith monitro eleni i adlewyrchu'r Dangosyddion Craidd ac Allbwn Craidd sydd wedi'u cynnwys yn Llawlyfr y CDLI (2il Argraffiad) (Awst 2015) ac i ddal Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy sydd eisoes yn cael eu monitro yn Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu. Mae'r newidiadau hyn yn ceisio osgoi dyblygu'r gwaith monitro sydd eisoes yn cael ei wneud gan sicrhau cysondeb a dal bwriad y Dangosyddion yr un pryd fel y nodwyd yn wreiddiol.

Tai

Cyfeirnod Monitro: AMRH01 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Newid yn y Boblogaeth Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 Lefel: Lleol Pryd: Bob 5 mlynedd Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC) o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data eraill				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Bydd newid yn y boblogaeth yn y sir dros gyfnod y CDLI yn cyd-fynd yn fras â'r newid a oedd wedi ei ddarogan ar sail yr amcanestyniadau poblogaeth.	<ul style="list-style-type: none"> Niferoedd cyffredinol y boblogaeth; Y rhai sydd mewn addysg uwch ac nad ydynt mewn addysg uwch a Ymfudo cyfartalog net. 	Gwneir dadansoddiad llawn o'r newid yn y boblogaeth gan gynnwys amcanestyniadau newydd bob pum mlynedd o gyfnod y cynllun. Caiff y newid yn y boblogaeth ei asesu ynghyd â'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch y newid yn nifer yr aelwydydd ac ystyrir yr wybodaeth ddemograffig hon yn ôl amcanion polisi'r CDLI i weld a oes angen cymryd camau neilltuol.	Ni chaiff y dangosydd hwn ei fesur y flwyddyn monitro hon.	Amh
Dadansoddiad The 2011-based population and household projections indicate much lower levels of growth than projected in the 2008-based projections which the LDP dwelling requirement is based upon.				

Roedd sesiynau olaf yr archwiliad o'r CDLI yn cydnabod bod newid yn yr amcanestyniadau wedi dod i'r casgliad canlynol:

- Os yw'r amcanestyniadau sy'n cael eu defnyddio yn rhy uchel ni fyddai hyn yn broblem fawr, ond byddai goblygiadau sylweddol pe bai'r amcanestyniadau a ddefnyddir yn rhy isel. Mewn geiriau eraill, mae'n well bod mewn sefyllfa o orddarpariaeth yn hytrach na rthanddarpariaeth.
- Os nad yw'r angen am dai yn bresennol ni fydd y farchnad yn cyflenwi ac ni fydd nifer fawr o dai dros ben, sy'n debygol o adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol.
- Waeth beth fo lefelau'r amcanestyniadau, y peth pwysicaf yw bod y strategaeth yn parhau i gael ei gweithredu (er mwyn unioni'r cydbwysedd rhwng canolfannau gwasanaethau a'u hardaloedd gwledig yn unol â phatrwm cynaliadwy o ddatblygu). Os yw'r angen yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol, mae'r mater o gydbwysedd yn bwysicach byth er mwyn gallu gwireddu'r Strategaeth.
- Os yw'r angen yn llai, byddai'n rhaid newid amserlen y cynllun (cyfnod y cynllun) yn yr adolygiad cyntaf. Byddai hyn yn golygu cadw'r strategaeth a'r dyraniadau, ond cydnabod y bydd yn cymryd yn hwy i'w cyflenwi. Yn ymarferol byddai hyn yn golygu symud cyfnod y cynllun ymlaen a newid dyddiad diwedd y cynllun.
- Mae LIC wedi argymhell y dylid pwylo a pheidio â 'gor-ymateb' i'r amcanestyniadau newydd gan ddweud na ddylai Awdurdodau Lleol fod yn cynllunio ar gyfer amcanestyniadau sydd wedi cael eu dylanwadu'n gryf gan y dirywiad yn yr economi (gweler y llythyr a anfonwyd i'r Awdurdodau Lleol gan Carl Sergeant ar 10 Ebrill 2014).

Disgwylir i amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd sy'n seiliedig ar ddata 2014 gael eu cyhoeddi yn hydref 2016 a gwanwyn 2017, a chânt eu hystyried gan y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol a byddant yn llywio'r adolygiad o'r CDLI.

Casgliadau

Ni chaiff y dangosydd hwn ei fesur y flwyddyn monitro hon.

Cyfeirnod Monitro: AMRH02 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Y Strategaeth Anheddu ledled y Sir Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S04 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Unedau a gwblhawyd ac ymrwymadau ledled y Sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun:</p> <ul style="list-style-type: none"> O leiaf 51% yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol; 24% yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig; ac Uchafswm o 25% yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' a dim mwy na 1522 o unedau ar y 	<p>O'r dyddiad mabwysiadu dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ledled y Sir gyfan fod yn dynesu at y rhaniad canrannol a geisir ledled y Sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun</p>	<p>O'r dyddiad mabwysiadu dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ledled y Sir gyfan fod yn dynesu at y rhaniad canrannol a geisir ledled y Sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun.</p> <p>Os na fydd y rhaniad canrannol blynyddol yn symud tuag at y % a geisir ledled y Sir mewn unrhyw flwyddyn yng nghyfnod y cynllun, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny. Os nad oes cyfiawnhad dros y rhesymau yna ystyrir cymryd camau fel bo angen.</p>	<p>O'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol, mae cyfanswm yr ymrwymadau mewn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Canolfannau Gwasanaethau Trefol wedi codi gan 2% i 44%; Canolfannau Gwasanaethau Gwledig wedi codi gan 2% i 18%; Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill wedi gostwng gan 3% o 42% i 39% <p>O'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol, mae cyfanswm yr unedau a gwblhawyd mewn:</p>	

mwyaf.		Oherwydd y cesglir gwybodaeth ar lefel y Grwpiau Aneddiadau bydd yn bosibl nodi ai eithriadau daearyddol (er enghraifft, os yw pob un o'r Grwpiau Aneddiadau yn symud tuag at y balans a geisir heblaw am un neu ddau o eithriadau) sy'n peri nad yw'r balans yn cael ei gyflawni ledled y sir	<ul style="list-style-type: none"> • Canolfannau Gwasanaethau Trefol wedi gostwng gan 1% i 43% ; • Canolfannau Gwasanaethau Trefol wedi cynyddu gan 2% i 15%; • Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill wedi parhau yn 43% <p>Sylwer, efallai nad yw canrannau cyfanswm oherwydd talgrynnu.</p>	
--------	--	--	---	--

Dadansoddiad

Strategaeth y CDLI yw canolbwyntio o'r newydd ar dwf yn y Canolfannau Gwasanaethau. Ers y llynedd, o ran nifer yr ymrwymadau, gwelwyd newid o Leoliadau Eraill i Ganolfannau Gwasanaethau yn unol â'r strategaeth; fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw newid cyffredinol o ran yr unedau a gwblhawyd. Mae'r gymhariaeth rhwng y targedau a'r ffigurau gwirioneddol fel a ganlyn:

- Targed tafwybr cyfnod y cynllun ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau Trefol yw 47% o ymrwymadau hyd 31/03/16: mae ymrwymadau gwirioneddol yn is na'r targed (44%),
- Targed tafwybr cyfnod y cynllun ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau Gwledig yw 21% o ymrwymadau hyd 31/03/16: mae ymrwymadau gwirioneddol yn is na'r targed (18%) , a
- Targed tafwybr cyfnod y cynllun ar gyfer Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill yw 32% o ymrwymadau hyd 31/03/16: mae ymrwymadau gwirioneddol yn uwch na'r targed (39%).

Ers mabwysiadu'r CDLI yn 2013, mae rhaniad canrannol yr ymrwymadau tai wedi symud i'r cyfeiriad cywir gan 2% (Canolfannau Gwasanaethau Trefol), 3% (Canolfannau Gwasanaethau Gwledig) a 5% (Aneddiadau Cyswllt/Lleoliadau Eraill). Er bod cyfeiriad y

symudiad yn gadarnhaol, nid yw'r newid yn adlewyrchu'r gyfradd twf a nodir yn y targedau ar gyfer y cyfnod monitro hwn. Y targedau ar gyfer ymrwymadau mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaeth Gwledig ac Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill ar gyfer 2015/16 yw 47%, 21% a 34%. Mae'r ymrwymadau gwirioneddol yn is na'r targedau hyn ar draws pob math o grŵp o aneddiadau gan hyd at 6%

Mae rhaniad canrannol y tai a gwblhawyd hefyd wedi symud ychydig ers mabwysiadu'r cynllun, i lawr 2% (Canolfannau Gwasanaethau Trefol), i fyny 2% (Canolfannau Gwasanaethau Gwledig) ac i fyny 1% (Aneddiadau Cyswllt/Lleoliadau Eraill). Ystyrir ei bod yn fwy hanfodol i weld newid cadarnhaol yn symudiad yr ymrwymadau yn hytrach na'r unedau a gwblhawyd ar y cam hwn yng nghyfnod y cynllun oherwydd dim ond ers ei fabwysiadu yn 2013 y mae'r CDLI wedi bod yn dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Cymeradwywyd nifer o geisiadau sydd erbyn hyn yn symud tuag at eu cwblhau cyn mabwysiadu'r cynllun, ac felly ni chawsant eu dylanwadu gan y strategaeth.

Ni chafwyd llawer o amrywiad yn yr unedau a gwblhawyd ar draws Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill ers mabwysiadu'r cynllun. Cynyddodd nifer yr unedau a gwblhawyd mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol gan 1% yn ystod y cyfnod monitro blaenorol a gostyngodd nifer yr unedau a gwblhawyd gan 1% yn ystod y cyfnod monitro hwn cyn y cynnydd o 2% a welwyd yn 2013/2014. Mae'r unedau a gwblhawyd mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig wedi codi hefyd am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod monitro hwn gan 2% ac mae wedi aros yr un fath mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill. Mae'r unedau a gwblhawyd yn cael eu cymhlethu gan ffactorau allanol y tu allan i reolaeth yr ACLI gan gynnwys gofynion cyllido, diffyg adeiladwyr nifer fawr o dai, y cyllid masnachol cyfyngedig sydd ar gael i adeiladwyr bach, ac ymagwedd bwylllog y cwmnïau morgeisiau at brynwyr tai, er enghraifft.

Dair blynedd ers ei fabwysiadu, gwelwyd gwelliannau yn rhaniad canrannol ymrwymadau tai. Mae'r rhain yn is na'r targedau gan rhwng 4 i 6% ar gyfer 2015/2016 ar draws pob math o grwpiau o aneddiadau. Mae'r 'cyfeiriad teithio' tuag at nodau'r polisi yn gadarnhaol, fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd er mwyn gallu cyflawni'r targedau a nodwyd ar draws y Sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Gan gymryd bod strategaeth y cynllun yn parhau'n gadarn, dylai'r adolygiad o'r CDLI ystyried pa mor bell i'r dyfodol y dylid estyn cyfnod y cynllun.

Gallai diffyg datblygu ar safleoedd a neilltuwyd mewn Canolfannau Gwasanaethau gael ei briodoli i nifer o ffactorau a esbonnir yn fwy manwl yn nangosydd H07.

Casgliadau

Mae symudiad cadarnhaol wedi cael ei wneud tuag at y targedau a nodwyd. Ar hyn o bryd mae cyfradd y cynnydd yn is na'r targedau a nodwyd ar gyfer y cyfnod monitro hwn gan 4 i 6%, ac nid yw mor gyflym â'r hyn a ragwelwyd er mwyn gallu cyflawni'r targedau a nodwyd ar draws y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Dylai'r adolygiad o'r CDLI ystyried y rhesymau dros ddiffyg datblygu yn y Canolfannau Gwasanaethau trwy gynnal adolygiad o safleoedd a neilltuwyd.

Cyfeirnod Monitro: AMRH03 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Grwpiau Aneddiadau'r Strategaeth Anheddu Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S04 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Champau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Unedau a gwblhawyd ac ymrwymadau i adlewyrchu rhaniad canrannol pob un o'r Grwpiau Aneddiadau unigol fel y nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI erbyn diwedd cyfnod y cynllun.	O'r dyddiad mabwysiadu, yn y Grwpiau Aneddiadau unigol, dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau rhwng y Ganolfan Gwasanaethau a'r 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' fod yn unol â'r gofynion a geisir yn Atodiad 2 Cyfrol 1 y CDLI, neu'n gweithio tuag ato.	Os yw'r twf canrannol yn uwch na'r disgwyl yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', gwrthodir rhagor o ddatblygu preswyl yn y Grŵp Aneddiadau hwnnw, ar gyfer yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', nes bydd y caniatadau sy'n sefyll wedi darfod neu wedi cael eu diddymu ac y bydd yr ymrwymadau'n adlewyrchu neu'n gweithio tuag at y rhaniad canrannol a nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI.	Gweler Atodiad 6.	-
Dadansoddiad O ran ymrwymadau o'r 22 o grwpiau aneddiadau roedd 7 grŵp aneddiadau heb sicrhau gwelliannau yn y rhaniad canrannol, roedd 10 wedi gwella, ac roedd 5 heb weld unrhyw newid yn rhaniad canrannol yr ymrwymadau ers y cyfnod monitro diwethaf. Roedd y rhai oedd heb wella yn cynnwys, Llandysul, Aber-porth/Parclyn, Bow Street, Llanarth, Llanilar, Llan-non a Thalybont. Fodd bynnag, o'r grwpiau hynny roedd pob un ohonynt heblaw Aber-porth/Parclyn, Llan-non a Thal-y-bont wedi gweld gwelliant yn rhaniad canrannol yr unedau a gwblhawyd ers y cyfnod monitro diwethaf. I'w nodi'n arbennig roedd Bow Street wedi cynyddu gan fwy na 32% ers 2015.				

Ar y cam hwn yng nghyfnod y cynllun ni ddisgwylir i'r ganran adlewyrchu'r hyn a nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI, fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n awgrymu gwelliant cyffredinol ar draws y Grwpiau Aneddiadau ers y cyfnod monitro cyntaf yn 2014. Ers hynny mae 13 o grwpiau aneddiadau wedi gweld gwelliannau yn rhaniad canrannol yr ymrwymadau, ac mae 8 wedi gweld gwelliant yn rhaniad canrannol yr unedau a gwblhawyd.

Daeth Adroddiad Monitro Blynyddol 2015 i'r casgliad o ran y dangosydd hwn bod *rhaid i ganlyniad y flwyddyn nesaf ddangos rhagor o welliant gyda nifer y grwpiau aneddiadau sydd heb symud tuag at y balans gofynnol yn 8 neu'n llai*. Cyflawnwyd hyn y flwyddyn hon gydag 7 grŵp aneddiadau heb symud tuag at y balans gofynnol. Strategaeth y CDLI yw canolbwyntio twf o'r newydd yn y Canolfannau Gwasanaethau. Mae'r 'cyfeiriad teithio' tuag at nodau'r polisi yn gadarnhaol, fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd er mwyn gallu cyflawni'r targedau a nodwyd ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae tri grŵp aneddiadau wedi'u rhestru uchod sydd o bryder arbennig oherwydd nid ydynt wedi gwneud gwelliannau o ran ymrwymadau neu unedau a gwblhawyd.

Casgliadau

Mae'r canlyniadau'n dangos bod 8 grŵp aneddiadau heb symud tuag at y balans gofynnol a bod hynny'n rhoi sylw i'r casgliadau o'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Mae symudiad cadarnhaol tuag at gyrraedd y targedau a nodwyd ers mabwysiadu'r cynllun yn amlwg, fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd er mwyn gallu cyflawni'r targedau ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Felly bydd angen ymchwiliad pellach o benderfyniadau cynllunio wedi'u dirprwyo a heb eu dirprwyo yn ôl lleoliad i lywio'r adolygiad o'r CDLI.

Cyfeirnod Monitro: AMRH04 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Strategaeth Anheddu - Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt' Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S04 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ni fydd yr ymrwymadau'n peri bod unrhyw un o'r Aneddiadau Cyswllt yn tyfu mwy na 12% o'i faint fel yr oedd ar 1 Ebrill 2007 (fel y'i nodir yn Atodiad 5 i Gyfrol 1 o'r CDLI).	O 1 Ebrill 2007, ar lefel y Grwpiau Aneddiadau, twf yr holl stoc dai a ymrwymwyd yn yr Aneddiadau Cyswllt unigol.	Os cyrhaeddir y 12% ni chaniateir rhagor o ddatblygu onid oes cyfiawnhad dros hynny o dan Bolisi S04.	O gyfanswm o 90 o Aneddiadau Cyswllt, mewn 22 o Grwpiau Aneddiadau, mae: <ul style="list-style-type: none"> • 35 o Aneddiadau Cyswllt lle mae'r twf wedi bod yn uwch na 12% o ran ymrwymadau; ac • 10 o Aneddiadau Cyswllt sydd wedi cyrraedd y terfyn twf o 12% o ran ymrwymadau. • Roedd 4 o Aneddiadau Cyswllt wedi cwmpo yn ôl i'r terfyn twf 12%. 	-

			<p>Mewn dim ond 3 o'r Grwpiau Aneddiadau, mae'r twf wedi bod yn uwch na 12% ar draws eu holl Aneddiadau Cyswllt.</p> <p>Gweler Atodiad 7 i gael y manylion llawn.</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Etifeddodd y CDLI ganiatadau cynllunio a roddwyd o dan drefn gynllunio flaenorol a hyn sy'n gyfrifol am y twf gormodol mewn 35 o Aneddiadau Cyswllt ac fel mater o ffaith, ers cyn mabwysiadu'r cynllun, roedd 33 eisoes wedi gweld twf uwch na 12%. Ers Adroddiad Monitro Blyneddol y flwyddyn ddiwethaf, mae caniatadau cynllunio sydd wedi darfod yn golygu bod 4 o'r 37 o Aneddiadau Cyswllt a nodwyd yn Adroddiad Monitro Blyneddol 2014/15 wedi cwmpo yn ôl i'w terfyn o 12% fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llangoedmor (heb fod yn uwch na'r terfyn mwyach, capasiti wedi'i gyrraedd) • Tresaith (heb fod yn uwch na'r terfyn mwyach, capasiti wedi'i gyrraedd). • Drefach (heb fod yn uwch na'r terfyn mwyach, capasiti wedi'i gyrraedd) • Ystrad Meurig (heb fod yn uwch na'r terfyn mwyach, capasiti ar gyfer 1) <p>Dim ond 1 anheddiad (Mydroilyn) sydd wedi symud allan o gapasiti yn ystod y cyfnod monitro.</p> <p>Mae 4 o aneddiadau cyswllt wedi gwella ar ei sefyllfa flaenorol (wedi dod yn ôl o fewn eu twf o 12%). Mae hyn yn welliant ar 3 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd 4 pellach yn uwch na'u twf posibl o 12%. Mae hyn yn lleihad o 8 yn 2015/16.</p> <p>Felly mae'r Cyngor heb gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd uchod ar gyfer un aneddiad cyswllt yn unig yn ystod y flwyddyn monitro. Er bod ceisiadau cynllunio wedi'u canatau mewn nifer o aneddiadau cyswllt lle roedd y capasiti wedi'i gyrraedd neu ei ragori, roedd nifer y caniatadau sydd wedi dod i ben yn fwy na'r caniatadau. Gallai nifer y ceisiadau cynllunio sydd wedi dod i ben adlewyrchu nifer y camau gweithredu y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn unol â Pholisi LU05 ac i beidio ag adnewyddu caniatadau cynllunio, a rhoi caniatadau byr.</p>				

Ers y cyfnod monitro blaenorol mae cyfanswm yr Aneddiadau Cyswllt sydd bellach wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn 12% wedi cynyddu o 42 i 45. Fodd bynnag, mae'r targed yn cyfeirio at gyfanswm yr Aneddiadau Cyswllt sy'n uwch na'u terfyn 12% yn unig, sydd wedi lleihau o 38 i 35 oherwydd bod cyfanswm yr Aneddiadau Cyswllt sydd wedi disgyn yn ôl i'w terfyn 12% wedi cynyddu o 3 i 4, a symudodd 1 Aneddiad Cyswllt allan o gapasiti o'i gymharu â 4 y flwyddyn flaenorol. Mae symudiadau cadarnhaol tuag at gyflawni'r targedau a nodwyd ers mabwysiadu'r cynllun yn amlwg, fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd er mwyn gallu cyflawni targedau ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun.

Casgliadau

Mae symudiadau cadarnhaol tuag at gyflawni'r targedau a nodwyd ers mabwysiadu'r cynllun yn amlwg, fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd er mwyn gallu cyflawni'r targedau ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i weithredu Polisi LU05 trwy beidio ag adnewyddu caniatadau mewn lleoliadau o'r fath a rhoi caniatadau byr pan fyddant wedi'u cyfiawnhau.

Cyfeirnod Monitro: AMRH05 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Strategaeth Anheddu - Natur y datblygu yn y 'Lleoliadau Eraill' Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S04 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Seilir ymrwymadau ar angen clir am dai fforddiadwy mewn lleoliadau sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 Polisi Cynllunio Cymru neu unedau o dan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 yn unig.	O'r dyddiad mabwysiadu, y math o ddatblygu a ganiateir.	<p>Lle bo datblygu'n digwydd nad yw'n fforddiadwy mewn lleoliadau sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 Polisi Cynllunio Cymru neu unedau o dan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6, cynhelir ymchwiliad ynghylch y cyfiawnhad dros unedau o'r fath.</p> <p>Sicrhau y cyfyngir datblygu yn y dyfodol i'r hyn a ganiateir o dan bolisi S04 (Tai Fforddiadwy a TAN 6).</p>	<p>Mae'r math o ddatblygu a ganiatawyd mewn lleoliadau eraill yn ystod y cyfnod monitro fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 5 cais sy'n cydymffurfio â TAN 6 ar gyfer Aneddiadau i Weithwyr Mentrau Gwledig, • 2 gais sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 Polisi Cynllunio Cymru ar gyfer Tai Fforddiadwy, • 3 cais materion a gadwyd yn ôl am ganiatâd amlinellol a gymeradwywyd o dan y 	-

			<p>Cynllun Datblygu Unedol,</p> <ul style="list-style-type: none"> • 2 gais ar gyfer anedd newydd yn lle anedd presennol - felly dim cynnydd net mewn unedau, • 1 application was permitted in accordance with other material planning considerations • 8 applications which were approved contrary to officer recommendation at Planning Committee that do not accord with the LDP Strategy, TAN 6, or PPW 9.2.22 (Affordable Housing) which trigger the need for further investigation and will be considered as part of the review process. 	
<p>Dadansoddiad Cymeradwywyd 13 cais cynllunio ar gyfer anheddau mewn 'lleoliadau eraill' yn ystod y cyfnod monitro yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau sy'n cydymffurfio â TAN 6 (5), Polisi Cynllunio Cymru 9.2.22 (2), y Cynllun Datblygu Lleol (3), anheddau newydd yn lle anheddau presennol (2) a cheisiadau materion a gadwyd yn ôl ar gyfer caniatâd amlinellol wedi'u</p>				

cymeradwyo o dan y cynllun cynllunio blaenorol (1).

Yn ogystal â'r uchod, cymeradwywyd 8 cais cynllunio sy'n hafal i 11 annedd mewn 'lleoliadau eraill' yn ystod y cyfnod monitro yn groes i'r CDLI. Y rhain yn cynnwys ceisiadau cynllunio ar gyfer adfer annedd a adawyd (1), anheddau TAN6 (2) a chymysgedd o 5 marchnad agored a 3 annedd fforddiadwy. O blith y farchnad agored ceisiadau annedd 2 yn cynnwys swm gohiriedig o 10% ar gyfer tai fforddiadwy ac roedd 2 yn rhan o gais sydd hefyd yn cynnwys 2 dŷ fforddiadwy. Argymhellwyd y ceisiadau dros wrthod oherwydd eu tystiolaeth annigonol oedd i gyfiawnhau datblygiad ac felly nid oedd yn cyd-fynd â pholisi lleol neu genedlaethol. Mae hyfforddiant pellach wedi cael ei ddarparu i aelodau ar brofion TAN 6 a pholisi LU09, a chawsant wybod am yr angen i ystyried y dystiolaeth o angen ar gyfer anheddau fforddiadwy, a'i darparu cyn gwneud penderfyniad mewn pwyllgor. Cafodd y penderfyniadau hyn eu cymeradwyo'n groes i argymhellion swyddogion yn y Pwyllgor Cynllunio ac nid oeddent yn cydymffurfio â'r CDLI, TAN 6, neu baragraff 9.2.22 Polisi Cynllunio Cymru (Tai Fforddiadwy).

Casgliadau

Roedd y datblygu a ddigwyddodd y tu allan i'r hyn a ganiateir gan Strategaeth y CDLI, TAN 6 a Pholisi Cynllunio Cymru 9.2.22 yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn y Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhelliad y Swyddog. Ym mhob achos, cafodd y cyfiawnhad ei gofnodi. Nid oes unrhyw bryderon polisi yn codi o'r dangosydd hwn oherwydd roedd argymhellion y swyddog priodol wedi cael eu cyflwyno ym mhob achos. Ar yr amod bod cyfiawnhad cynllunio da yn cael ei gyflwyno, gall ceisiadau gael eu caniatáu mewn achosion eithriadol. Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau pan fydd cyfiawnhad yn cael ei gyflwyno bod hwnnw'n seiliedig ar ymresymu cynllunio, a lle y bo modd, ar dystiolaeth gadarn a gyflwynwyd yn unol â S04 a S05 (e.e. o angen lleol os yw'r cais yn ymwneud â thai fforddiadwy) oherwydd y risg posibl o adolygiad barnwrol os yw ystyriaethau cynllunio heb fod yn berthnasol yn cael eu hystyried, neu os oes tystiolaeth bod ystyriaethau perthnasol heb gael eu darparu i'w hystyried. Bydd ymchwiliad pellach o'r caniatadau a roddwyd mewn lleoliadau eraill yn cael ei gynnal i lywio'r adolygiad o'r CDLI.

Cyfeirnod Monitro: AMRH06 (Dangosydd Statudol) Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Cyflenwad Tir ar gyfer Tai Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 - S04 ac LU05 Lefel: Craidd Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC) (trwy'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai)				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Cynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai yn unol â Nodyn Cyngor technegol (TAN) 1.	Cyflenwad Tir ar gyfer Tai ar 1 Ebrill bob blwyddyn.	Os bydd diffyg yn y cyflenwad tir 5 mlynedd, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu pa gamau i'w cymryd ac yn ymgynghori â'i bartneriaid yn y Cyd-astudiaethau. Efallai y bydd angen ystyried a oes angen cynnwys mwy o dir yn y CDLI.	Mae Adroddiad Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, yn dangos bod cyflenwad 3.4 mlynedd o dir ar gyfer Ceredigion.	-
Dadansoddiad Dangosodd adroddiad Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016 fod cyflenwad 3.4 mlynedd o dir ac felly nid yw'r targed yn cael ei gyflawni. Mae'r ffigur cyflenwad tir hwn yn cymharu â 3.9 mlynedd (2015) a 3.7 mlynedd (2014). Nodir hefyd bod ffigur 2015 wedi'i gyfrifo ar sail 6 mlynedd o gyfnod y cynllun yn weddill nid 7 mlynedd ac felly dylai'r ffigur hwn fod wedi cael ei nodi fel 3.9 mlynedd ac nid 3.3 mlynedd y llynedd. I grynhoi, mae'r ffigur cyflenwad tir wedi lleihau ers y cyfnod monitro diwethaf ac nid yw'r targed wedi'i gyflawni ar gyfer unrhyw gyfnod monitro ers mabwysiadu'r cynllun. Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd peth gwaith ymgysylltu â datblygwyr a pherchnogion safle gan y Swyddog Cyflenwi Tai, fodd bynnag, yn dilyn anawsterau wrth recriwtio i'r swydd, roedd y swyddog a gafodd ei recriwtio'n llwyddiannus yn y swydd am bedwar mis yn unig. Mae angen gwneud gwaith pellach i asesu'r gallu i ddatblygu'r safleoedd a neilltuwyd fel rhan o adolygiad o safleoedd a neilltuwyd. Ceisiwyd gwybodaeth ar				

fwriadau datblygwyr eleni yn ystod y broses o baratoi'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Cafwyd cyfradd ymateb o 51%. Caiff yr wybodaeth hon ei hystyried yn yr adolygiad o safleoedd a neilltuwyd. Mynegodd rhai datblygwyr bryder yn eu hymatebion ynghylch hyfywedd datblygiadau, felly mae Asesiad Hyfywedd Strategol wedi cael ei gomisiynu, a bydd y canlyniadau yn bwydo i mewn i'r adolygiad o'r CDLI.

Mae'r rhesymau sydd wedi cyfrannu at y cynllun yn methu â chyflawni ei darged yn cynnwys y canlynol:

- Mae datblygu tai wedi lleihau ar draws Cymru ac nid yw'n sefyllfa sy'n unigryw i Geredigion. Mae'r farchnad yn cyfyngu ar y cyflenwad tai am amryw o resymau sydd y tu allan i reolaeth y system gynllunio, gan gynnwys diffyg cyllid datblygu, cael morgeisiau a phrinder sgiliau yn y diwydiant datblygu lleol. Gall y diffyg galw am dai a adeiledir o'r newydd hefyd gael ei briodoli i dwf is y boblogaeth ac aelwydydd na'r hyn a ragwelwyd.
- Mae'r targed tai ar gyfer y cynllun yn uchel, felly yn dilyn y newid yn y dull cyfrifyddu yn 2014, mae ein ffigurau cyfenwad wedi gostwng.
- Cafodd safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI eu cynnwys yn y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai am y tro cyntaf yn 2014 yn dilyn mabwysiadu'r cynllun ar 25 Ebrill 2013 (ar ôl dyddiad sylfaen astudiaeth 2013). O ganlyniad mae mwy o gyflenwad o safleoedd tai ac unedau yn gyffredinol. Yn ymarferol, er bod y ffigur cyflenwad tir ar gyfer tai wedi gostwng, mae'r cyflenwad tir wedi cynyddu mewn gwirionedd. Nid yw'r safleoedd a gafodd eu cynnwys fel rhai a neilltuwyd yn waeth yn gyffredinol neu'n fwy anodd i'w cyflenwi ond mae mwy ohonynt.

Er y nodir bod y newid i'r dull gweddilliol o gyfrifyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai wedi digwydd yr un pryd â mabwysiadu'r cynllun, ac nid oes gan y rhan fwyaf o Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflenwad tir 5 mlynedd ar hyn o bryd, mae'r ffigur ar gyfer Ceredigion wedi parhau'n is na'r targed a nodwyd ers 2014. O ganlyniad, mae lefel y cyflenwad tai yn parhau i fod yn is na'r hyn sy'n ofynnol i ddiwallu Strategaeth y CDLI. Bydd priodoldeb strategaeth, polisïau a dyraniadau tai y CDLI yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad pedwar blyneddol statudol o'r CDLI. Bydd yr adolygiad hwn yn hwyluso ystyriaeth briodol yn sgil casgliadau unrhyw ymchwil sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i'r cyflenwad tai a'r galw am dai ar draws Cymru.

Casgliadau

Nid yw'r targed 5 mlynedd o gyflenwad tir yn cael ei gyflawni. Bydd priodoldeb strategaeth, polisïau a dyraniadau tai y CDLI yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad pedwar blyneddol statudol o'r CDLI.

Cyfeirnod Monitro: AMRH07 (Dangosydd Statudol) Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Cyflenwi Safleoedd Tai wedi eu Neilltuo Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S04 Lefel: Craidd Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC) (trwy'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai)				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>40% o gyfanswm yr anheddau y rhagwelir eu cyflenwi ar safleoedd a neilltuwyd i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2017.</p> <p>100% o gyfanswm yr anheddau y rhagwelir eu cyflenwi ar safleoedd a neilltuwyd i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2022.</p>	<p>1. Maint y datblygiadau tai sy'n cael caniatâd cynllunio ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau a hectarau) fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Ar 31 Mawrth 2015, 40% ii. Ar 31 Mawrth 2017, 60% iii. Ar 31 Mawrth 2019, 84% iv. Ar 31 Mawrth 2021, 100% <p>2. Maint y datblygiadau tai a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI</p>	<p>Os na fydd y safleoedd a neilltuwyd wedi eu cyflawni yn unol â'r hyn a ragamcanwyd yna cynhelir ymchwiliad i'r achosion. Bydd hynny'n cynnwys dadansoddiad o'r berthynas rhwng caniatadau cynllunio a'r unedau a gwblhawyd.</p>	<p>Mae maint y datblygiadau tai a gafodd ganiatâd cynllunio ar safleoedd a neilltuwyd fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unedau: 301 o unedau, sef 8.8% o'r unedau a ragwelwyd ar safleoedd a neilltuwyd. • Arwynebedd: 10.44ha, sef 7.7% o holl arwynebedd safleoedd a neilltuwyd. <p>Mae maint y datblygiadau tai a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel a ganlyn:</p>	

	<p>(unedau a ha) fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Ar 31 Mawrth 2015, 20% ii. Ar 31 Mawrth 2017, 40% iii. Ar 31 Mawrth 2019, 64% iv. Ar 31 Mawrth 2021, 88% 		<ul style="list-style-type: none"> • Unedau: 64 o unedau, sef 1.9% o'r unedau a ragwelwyd ar safleoedd a neilltuwyd. • Arwynebedd: 1.85ha, sef 1.4% o holl arwynebedd safleoedd a neilltuwyd. 	
--	---	--	---	--

Dadansoddiad

Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu'r ffaith mai dim ond ers tair blynedd y mae'r CDLI wedi cael ei fabwysiadu. Cyn hynny roedd ansicrwydd yn cyfyngu ar gynigion datblygu ar gyfer safleoedd a neilltuwyd. Maent hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod y cynllun wedi cael ei lunio yr un pryd â marchnad dai gymharol farwaidd. Yn ychwanegol at hyn mae'r ffaith bod yna gyfnod paratoi cymharol hir ar gyfer safleoedd mwy a neilltuwyd a dim ond nifer gyfyngedig o adeiladwyr lleol sydd â'r gallu i fentro ar ddatblygiad o'r maint arfaethedig. Hefyd mae diffyg diddordeb yng Ngheredigion gan adeiladwyr nifer fawr o dai. Cynhaliwyd ymchwiliad i'r berthynas rhwng caniatadau ac unedau a gwblhawyd ym Mawrth 2015, a chaiff ei ddiweddarau eto i lywio'r adolygiad o'r CDLI. Er bod yr ymchwiliad wedi canfod cymhareb uchel rhwng caniatadau ac unedau a gwblhawyd, mae hwn yn debyg i awdurdodau gwledig cyfagos yn ardal Gorllewin Cymru ac yn arwydd o gyflwr y farchnad dai a'r cyflwr economaidd ehangach ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gweithio gyda pherchnogion/datblygwyr safleoedd a neilltuwyd i'w hannog i baratoi'n gynnar ar gyfer datblygu safleoedd/casglu tiroedd ynghyd ac ati lle bo angen. Dylai nifer y trafodaethau cyn gwneud cais arwain at gynydd yn nifer y ceisiadau ar safleoedd a neilltuwyd yn y flwyddyn monitro nesaf. Wrth gwrs, bydd yn cymryd ychydig o flynyddoedd i'w drosi'n unedau a gwblhawyd. Mae'r perfformiad wedi cynyddu ers y flwyddyn ddiwethaf ac er nad yw'r targedau wedi cael eu cyflawni, maent yn dangos cam cadarnhaol i'r cyfeiriad iawn. Mae nifer o safleoedd a neilltuwyd wedi cael eu prynu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac mae rhai wedi dechrau cael eu datblygu, er enghraifft, mae safle a neilltuwyd yn Felin-fach wedi cael ei gwblhau, ac mae rhai safleoedd a neilltuwyd yn Llanbedr Pont Steffan a Llandysul wrthi'n cael eu datblygu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Fodd bynnag, mae pryderon gennym fod nifer o adeiladwyr a datblygwyr lleol yn teimlo bod ein safleoedd a neilltuwyd yn rhy fawr a'u bod yn ei chael hi'n anodd sicrhau cyllid, nid yw'r sgiliau busnes gofynnol ganddynt a/neu'r gweithwyr adeiladu i reoli'r safleoedd uchod heblaw ar raddfa fach iawn. Mae pryderon ynghylch y diwydiant adeiladu lleol a maint

y safleoedd a neilltuwyd yn cael eu hystyried trwy baratoi Asesiad Hyfywedd Strategol.

Mae'r Holiadur Bwriadau Datblygwyr safleoedd a neilltuwyd fel rhan o'r broses Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai wedi nodi er bod nifer o safleoedd lle nad yw unrhyw waith wedi'i gynllunio, mae tipyn o safleoedd lle mae'r tiffeddianwyr yn ymgysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac yn chwilio am ddatblygwyr i wireddu'r cynlluniau, sy'n dangos darlun cymysg. Bu nifer o safleoedd annisgwyl hefyd sydd wedi helpu i ddarparu tai yn enwedig yn Aberystwyth a Chanolfannau Gwasanaethau Trefol eraill megis Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi, lle mae cyfaddasu hen adeiladau yn arwain at gynnydd net mewn unedau. Mae datblygu safleoedd annisgwyl ar raddfa fach hefyd wedi bod yn nodwedd o'r Canolfannau Gwasanaethau Gwledig.

Bydd Adolygiad o Safleoedd a Neilltuwyd yn ystyried y gallu i gyflenwi ac yn llywio'r adolygiad o'r CDLI.

Casgliadau

Mae'r perfformiad wedi cynyddu ers y flwyddyn ddiwethaf ac er nad yw'r targedau wedi cael eu cyflawni, maent yn dangos cam cadarnhaol i'r cyfeiriad iawn. Ystyrir bod cyflawni 40% erbyn 2017 yn annhebygol. Caiff y mater hwn ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI ac adolygiad dilynol o safleoedd a neilltuwyd.

Cyfeirnod Monitro: AMRH08 (Dangosydd Statudol) Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Datblygu Tai mewn Lleoliadau Priodol Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S03 Lefel: Craidd Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC) (trwy'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (24 Ebrill 2013 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Diwallu 90 - 100% o'r angen am ddatblygu preswyl mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig ar safleoedd a neilltuwyd, heblaw am Aberystwyth lle dylai 80-90% fod ar safleoedd a neilltuwyd, ar ôl mabwysiadu'r CDLI.	1. Maint y datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau (hectarau ac unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI). 2. Maint y datblygiadau tai a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir yn y Canolfannau Gwasanaethau (hectarau ac unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI).	Os bydd y canrannau'n cwmpo o dan y targed am 2 flynedd yn olynol mewn unrhyw Grŵp Aneddiadau penodol, cynhelir dadansoddiad o'r ysgogyddion posibl er mwyn deall y sefyllfa a chymryd camau lle bo'n briodol i wyrdroi'r duedd.	Mae maint y datblygiadau tai a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> Unedau: 224 o unedau, sef 41% o'r unedau a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau ers mabwysiadu'r CDLI. Arwynebedd: 6.39 ha, sef 23% o'r arwynebedd tir a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau ers mabwysiadu'r CDLI. 	-

			<p>Mae maint y datblygiadau tai a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblhawyd yn y Canolfannau Gwasanaethau fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unedau: 55 o unedau, sef 11% o'r unedau a gwblhawyd yn y Canolfannau Gwasanaethau ers mabwysiadu'r CDLI. • Arwynebedd: 9.95 ha sef 15.3% o'r arwynebedd tir a gwblhawyd yn y Canolfannau Gwasanaethau ers mabwysiadu'r CDLI. 	
<p>Dadansoddiad Mae'r canlyniadau yn weddol fach o'i gymharu â'r targed, ond dim ond ers tair blynedd mae'r CDLI wedi cael ei fabwysiadu. Mae'r canlyniadau yn dangos gwelliant arwyddocaol tuag at gyrraedd y targed ers y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer datblygiadau a ganiateir. Er bod y canlyniadau yn is na'r targed ar gyfer ddatblygiadau a gwblhawyd, mae hyn yn adlewyrchu'r nifer isel o unedau a gwblhawyd ar draws y Sir, gan gynnwys o fewn y Canolfannau Gwasanaethau. Dylid hefyd nodi bod y dangosydd hwn yn ymdrin â chaniatadau ar ôl mabwysiadu'r CDLI yn unig, a bod gan nifer o safleoedd a neilltuwyd ganiatadau cynllunio a gymeradwywyd cyn</p>				

mabwysiadu'r CDLI. Y rhai a ganiatawyd neu y gwnaethpwyd penderfyniad i'w cymeradwyo cyn mabwysiadu'r CDLI yw H0301, H0802 ac H1502. Er nad yw'r safleoedd a neilltuwyd yn cael eu datblygu ar y raddfa a fyddai'n helpu i newid y balans, mae hyn yn rhan o batrwm ehangach o ddatblygu sy'n nodweddiadol o arafu yn y diwydiant datblygu yn genedlaethol. Yn lleol rydym yn gweld datblygu safleoedd annisgwyl a llanw bwlch bach yn cael eu targedu gan ddatblygwyr lleol ar raddfa fach sydd heb fynegi diddordeb mewn rhai o'r safleoedd a neilltuwyd oherwydd y ffaith eu bod yn eu hystyried yn rhy fawr ar gyfer eu model busnes - bydd pryderon ynghylch y mater hwn yn cael eu hystyried yn yr Aseiad Hyfywedd Strategol.

Yn ystod y cyfnod monitro bu cynnydd yn nifer y trafodaethau cyn gwneud cais ar gyfer safleoedd a neilltuwyd. Mae hyn yn awgrymu cynnydd mewn caniatadau yn y dyfodol ar safleoedd a neilltuwyd.

Casgliadau

Nid yw'r targed wedi cael ei gyflawni ers mabwysiadu'r cynllun er bod gwelliannau arwyddocaol wedi cael eu gwneud yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r rhan fwyaf o'r datblygu yn parhau i beidio â digwydd ar safleoedd a neilltuwyd sy'n dangos bod angen adolygu'r safleoedd a neilltuwyd i lywio'r adolygiad o'r CDLI.

Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol

Cyfeirnod Monitro: AMRH09 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Datblygu Tai ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S03 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
5% o'r holl ddatblygu preswyl a ganiateir ac a gwblheir i'w leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd).	1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir. 2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir.	Oni fydd o leiaf 4% o'r holl ddatblygu preswyl a ganiateir ac a gwblheir wedi ei gyflawni ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd) cynhelir ymchwiliad i achosion y diffyg er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol ymdrin â'r rhwystrau.	Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiatawyd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir: 2.5ha (12%) Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblhawyd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblhawyd: 1.8ha (18%)	+
Dadansoddiad Mae maint y datblygu a ganiateir ac a gwblheir ar dir llwyd yn uwch na'r targed o 5%.				
Casgliadau Mae'r targedau'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisiâu.				

Cyfeirnod Monitro: AMRH10 (Dangosydd Statudol) Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Tai Fforddiadwy Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S05 Lefel: Craidd Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
1,100 o Dai Fforddiadwy wedi eu cwblhau (70 y flwyddyn) erbyn 2022	<ol style="list-style-type: none"> Nifer net yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad gyffredinol ychwanegol a ganiatawyd ers (1 Ebrill) 2007. Nifer net yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad gyffredinol ychwanegol a gwblhawyd ers (1 Ebrill) 2007. 	<p>Cynhelir ymchwiliadau pellach ar y dangosydd hwn os bydd nifer y caniatadau sy'n sefyll/unedau o dai fforddiadwy a gwblhawyd dros gyfnod o 2 flynedd yn cwmpo o dan y lefel flynyddol sy'n ofynnol.</p> <p>Bydd dealltwriaeth o'r cyflenwad tai cyffredinol yn hanfodol i'r ymchwiliad hwn (gweler AMRH06 uchod).</p> <p>Efallai y bydd angen ymateb i'r targed hwn ar y cyd â'r Adran Dai a rhanddeiliaid eraill ym maes tai megis landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.</p>	<p>Ers 1 Ebrill 2007 mae nifer net yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad gyffredinol ychwanegol a ganiatawyd ac a gwblhawyd fel a ganlyn:</p> <p>A ganiatawyd</p> <p>Cartrefi Fforddiadwy: 823 Cyfanswm Cartrefi: 3402</p> <p>A gwblhawyd</p> <p>Cartrefi Fforddiadwy: 382 Cyfanswm Cartrefi: 1762</p>	0

Dadansoddiad

Y gofyniad polisi ar gyfer tai fforddiadwy yw i 20% o'r holl unedau fod yn fforddiadwy. Fel y dengys y ffigurau uchod, nifer y tai fforddiadwy a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn ystod cyfnod y cynllun yw 823 a ganiatawyd a 382 a gwblhawyd. Caniatawyd 137 o dai fforddiadwy y flwyddyn hon a chwblhawyd 90 sy'n hafal i 43% (wedi'u caniatáu) a 42% (wedi'u cwblhau). Felly ar gyfer y cyfnod monitro hwn rhagorwyd ar y targed ar gyfer 70 o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau y flwyddyn. Mae'r tai fforddiadwy a gwblhawyd ar gyfer y cyfnod monitro yn cynnwys dau gynllun tai fforddiadwy mawr o 20 i 30 uned yn Bow Street a Felin-fach yn ogystal â nifer o dai fforddiadwy ar werth ar ostyngiad i ateb anghenion lleol, y mwyafrif ohonynt yn ddatblygiadau graddfa fach neu dai adeiladu eich hun sy'n helpu i gynnal y diwydiant adeiladu lleol. Rhoddir dadansoddiad mwy manwl o'r cymysgedd o ddaliadaeth yn AMRH12.

Er yr ystyrir bod hyn yn welliant sylweddol ers y cyfnod monitro blaenorol, mae nifer y tai a gwblhawyd ar gyfartaledd dros y cyfnod o 9 mlynedd ers mabwysiadu'r cynllun yn hafal i 42 o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau y flwyddyn. Mae'r cyfartaledd hwn yn awgrymu na fydd y targed cwblhau ar gyfer 2022 yn cael ei gyflawni o bosib, ac mae diffyg cyflenwi tai fforddiadwy wedi'i gysylltu â'r nifer isel o dai sy'n cael eu datblygu yn y farchnad dai yn gyffredinol a datblygu safleoedd a neilltuwyd.

Casgliadau

Rhagorwyd ar y targed o 70 uned o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau y flwyddyn yn ystod y cyfnod monitro. Er gwaethaf hyn, nifer y tai a gwblhawyd ar gyfartaledd bob blwyddyn ers mabwysiadu'r cynllun yw tua 42 o dai fforddiadwy. Felly, er bod nifer y tai fforddiadwy sy'n cael eu cwblhau yn cynyddu ac yn perfformio'n dda y flwyddyn hon, ar gyfartaledd nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd er mwyn gallu cyflawni targedau'r strategaeth ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Bydd rhaid i'r adolygiad o'r CDLI ystyried y targedau tai fforddiadwy yn sgil yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ac yn dilyn cyhoeddi'r Asesiad Hyfywedd Strategol diweddaraf.

Cyfeirnod Monitro: AMRH11 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Tai Fforddiadwy Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S05 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ers mabwysiadu'r CDLI, mae o leiaf 20% o'r holl anheddau a ganiateir yn unedau fforddiadwy.	<ol style="list-style-type: none"> Canran y ceisiadau preswyl lle cyflwynir her hyfywedd. Nifer y safleoedd lle cyflwynir her a hynny'n llwyddiannus i leihau nifer y tai fforddiadwy fel cyfran o nifer yr heriau. 	<p>Os bydd mwy nag 20% o'r safleoedd a ganiateir yn methu â darparu'r tai fforddiadwy sy'n ofynnol mewn unrhyw flwyddyn neilltuol o gyfnod y Cynllun, yna cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny.</p> <p>Os bydd yr holl safleoedd yn darparu 20% neu fwy o dai fforddiadwy mewn unrhyw flwyddyn neilltuol o gyfnod y Cynllun, yna cynhelir asesiad i weld a yw'r gofyniad am 20% o dai fforddiadwy'n rhy fach ac a ddylid ei godi.</p> <p>Gwneir hynny trwy gynnal ymarfer hyfywedd. Bydd yr</p>	<p>Anheddau fforddiadwy yw 24.2% o'r holl ddatblygu preswyl a ganiatawyd yn ystod cyfnod y CDLI.</p> <p>Cyfran y ceisiadau preswyl lle y cafwyd her hyfywedd yn ystod y cyfnod monitro oedd 14, sy'n hafal i oddeutu 23% o'r holl ddatblygiadau preswyl a gafodd eu caniatáu yn ystod y cyfnod monitro.</p> <p>Nifer y safleoedd lle roedd yr her yn llwyddiannus oedd 14, sy'n hafal i 100% o'r holl heriau llwyddiannus.</p>	+

		<p>ymarfer yn argymhell nifer hyfw o dai fforddiadwy fel canran. Bydd angen i'r Prisiwr Dosbarth fwrw cyfrif hefyd o'r canran o'r Gwerth Datblygu Gros.</p>		
<p>Dadansoddiad Tai fforddiadwy yw 24.2% o'r holl ddatblygiadau preswyl a ganiatawyd yn ystod cyfnod y CDLI sy'n cyflawni'r targed a nodwyd. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â 22.3% (2015) a 20% (2014).</p> <p>Cafwyd 14 her hyfywedd i'r polisi tai fforddiadwy S05. O'r rhain roedd yr holl gynigion ar gyfer cyfaddasu, newid defnydd a cheisiadau adfer ac eithrio 1 adeilad o'r newydd. Ni dderbyniwyd unrhyw heriau hyd yma ar safleoedd o fwy nag 1 uned adeiladu o'r newydd. O'r heriau hyfywedd roedd 100% yn llwyddiannus. Cydnabyddir bod cyfaddasiadau yn gostus i'w cwblhau, ac felly nid yw'n syndod bod hyfywedd y cynlluniau hyn wedi'i gyfaddawdu. Mewn perthynas â'r 1 cynnig adeiladu o'r newydd (A150379) dilyswyd y cais hwn gan y Prisiwr Dosbarth a gadarnhaodd fod y cynllun mewn elw negyddol ar sail fasnachol. Gwnaethpwyd heriau hyfywedd ar gyfanswm o 23% o'r holl ganiatadau preswyl. Cyfiawnhawyd gofynion tai fforddiadwy Polisi S05 gan astudiaeth 2010 ynghylch hyfywedd economaidd darparu tai fforddiadwy. Mae'r Cyngor wedi comisiynu asesiad hyfywedd newydd yn ddiweddar a fydd yn ystyried yn fanwl hyfywedd safleoedd bach gan gynnwys cyfaddasiadau a newid defnydd. Bydd yr asesiad yn diweddarau asesiad 2010 ac yn llywio'r broses o adolygu'r CDLI.</p>				
<p>Casgliadau Mae'r targed yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd ac nid oes pryder ynghylch gweithrediad polisiâu'r CDLI. Fodd bynnag, yn wyneb nifer cynyddol o heriau hyfywedd ar safleoedd bach a'r pryderon hyfywedd a fynegir gan ddatblygwyr safleoedd mawr, mae'r Cyngor wedi comisiynu Asesiad Hyfywedd Strategol yn ddiweddar, a bydd ei gasgliadau yn llywio'r broses o adolygu'r CDLI.</p>				

Cyfeirnod Monitro: AMRH12 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Mathau o Dai Fforddiadwy Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S05 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Ers dechrau cyfnod y CDLI:</p> <p>9% o'r unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 70% o werth y farchnad</p> <p>32% o'r unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 50% o werth y farchnad (i'w gwerthu'n syth i'r preswylwyr ac i'w darparu i landlordiaid i'w gosod ar renti canolradd)</p> <p>59% o'r unedau tai fforddiadwy ar gyfer</p>	<p>Unedau a Gwblheir ac Ymrwymadau yn ôl eu math</p>	<p>Os yw canrannau'r unedau a gwblheir a'r ymrwymadau o ran:</p> <p>Unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 70% o werth y farchnad yn cwmpo o dan 8-10% o'r tai fforddiadwy a ganiateir.</p> <p>Unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 50% o werth y farchnad yn cwmpo o dan 28-35%</p> <p>Unedau fforddiadwy a drawsgludir am 35% o werth y farchnad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar rent cymdeithasol yn cwmpo</p>	<p>Ers dechrau cyfnod y CDLI, roedd yr unedau a gwblhawyd ac ymrwymadau tai fforddiadwy yn ôl eu math fel a ganlyn:</p> <p>Ar werth ar ostyngiad 70% Unedau a gwblhawyd: 175 (46% o'r holl dai fforddiadwy) Ymrwymadau: 388 (54% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ar werth ar ostyngiad Arall Unedau a gwblhawyd: 2 (1% o'r holl dai fforddiadwy)</p>	<p>0</p>

<p>rhenti cymdeithasol a ddarperir gan y sector preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig</p>		<p>o dan 53-66%</p> <p>Efallai y bydd angen cyfyngu/hybu rhai mathau o ddatblygiadau preswyl er mwyn sicrhau bod y canrannau'n agosach at yr anghenion a nodwyd. Bydd yn rhaid cymryd camau o'r fath ar y cyd â'r Adran Dai a rhanddeiliaid eraill ym maes tai, megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.</p>	<p>Ar werth ar ostyngiad 50% / Rhent Canolradd Unedau a gwblhawyd: 2 (1% o'r holl dai fforddiadwy) Ymrwymadau: 5 (1% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ar rent cymdeithasol (a drawsgludwyd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) Unedau a gwblhawyd: 22 (8% o'r holl dai fforddiadwy) Ymrwymadau: 37 (5% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ar rent cymdeithasol (a gomisiynwyd 100% gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig): Unedau a gwblhawyd 180 (47% o'r holl dai fforddiadwy) Ymrwymadau: 294 (41%)</p>	
--	--	---	--	--

			<p>o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Arall (Cyfuniad o Gymysgedd Anhysbys): 2 gais (tua 15 o unedau)</p> <p>Sylwch: Nid yw ffigurau 'eraill' wedi'u cynnwys yn y % cyfrifiadau oherwydd ni wyddys yr union nifer ar y cam amlinellol.</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae patrwm dosbarthiad unedau a gwblhawyd, ac ymrwymadau ar gyfer tai fforddiadwy yn ôl eu math, y tu allan i'r ystodau goddefiant y bwriedir iddynt ysgogi camau gweithredu. Serch hynny, nid yw'r CDLI mabwysiedig wedi effeithio arnynt eto mewn ffordd arwyddocaol. Mae hyn yn arbennig o glir mewn perthynas â thai fforddiadwy 'canolradd' (1% ar hyn o bryd) yn enwedig gan nad oedd unedau Rhent Canolradd yn rhan o ofynion polisi cyn y CDLI (dim ond ar werth ar ostyngiad ac ar rent cymdeithasol). Mae'r mwyafrif o'r tai fforddiadwy a gwblhawyd ac ymrwymadau wedi cael eu comisiynu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac felly'n debygol o fod wedi elwa ar gymorth Grant Tai Cymdeithasol. Mae'r cymysgedd o denantiaethau yn fwy adlewyrchol o'r anghenion a nodwyd yn y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2016) hefyd. Mae'r asesiad hwn yn nodi mwy o angen na'r Cyd-astudiaethau blaenorol ar gyfer tenantiaethau canolradd na thenantiaethau cymdeithasol a awgrymir yn y Cyd-astudiaethau blaenorol. Mae'r Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ystyried mwy o opsiynau tenantiaeth canolradd ar hyn o bryd gan gynnwys rhannu perchnogaeth a rhannu modelau ecwiti. Bydd y cymysgedd newydd o denantiaethau yn bwydo i mewn i'r Asesiad Hyfywedd Strategol sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd.</p> <p>Dylid nodi ei bod yn bosibl nad yw datblygu unedau Rhent Canolradd yn dibynnu'n llwyr ar roi caniatadau newydd. Mae yna fecanwaith yn adran 106 ddiwygiedig sy'n caniatáu i berchennog eiddo tai fforddiadwy wneud cais i'r Cyngor i newid natur yr uned tai fforddiadwy o eiddo ar werth ar ostyngiad i rent canolradd. Felly mae'n bosibl y gallai rhywfaint o'r stoc tai fforddiadwy ar werth ar ostyngiad sy'n bodoli eisoes ddod yn unedau tai fforddiadwy rhent canolradd yn y dyfodol.</p>				
<p>Casgliadau</p>				

Mae'r dosbarthiad bras o dai fforddiadwy yn foddhaol. Felly nid yw perfformiad y polisi o bryder mawr ar hyn o bryd. Dylai cyflenwi tenantiaethau canolradd gael ei fonitro'n agos yn y dyfodol. Mae tystiolaeth newydd gan gynnwys y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2016) a'r Asesiad Hyfywedd Strategol (sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd) yn darparu diweddariad i'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2008) a'r Asesiad Hyfywedd Strategol 2010 a ddefnyddiwyd i lywio'r CDLI. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio'r adolygiad o'r CDL a gallai arwain at newidiadau i Bolisi S05

Cyfeirnod Monitro: AMRH13 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Dwysedd Tai Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: LU06 Lefel: Lleol I Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Yn cydymffurfio â'r dwysedd neu'n uwch nag ef, yn unol â Rhestr y Safleoedd a Neilltuwyd neu Ddatganiad y Grŵp Aneddiadau	Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd yn y cynllun datblygu	<p>Oni fydd safle'n cyflenwi dwysedd canllaw, yna cynhelir ymchwiliad i weld a oes angen tir ychwanegol i gyflawni'r ddarpariaeth dai a ganiateir yn y Ganolfan Gwasanaethau dan sylw.</p> <p>Os bydd safleoedd mewn Canolfan Gwasanaethau'n methu â chyflawni'r dwysedd canllaw'n rheolaidd, yna cynhelir ymchwiliad i weld a fydd angen newid dwysedd canllaw safleoedd y Ganolfan Gwasanaethau dan sylw.</p>	<p>23 uned yr hectar yw dwysedd cyfartalog datblygiadau tai (sydd â chaniatâd cynllunio yn awr ers dechrau cyfnod y cynllun) ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI.</p> <p>23 uned yr hectar yw dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI.</p>	+
Dadansoddiad O ran dwysedd, caniatwyd 12 cais ar 10 o safleoedd a neilltuwyd ers dechrau cyfnod y cynllun, y mae dwyseddau rhai ohonynt wedi bod yn wahanol i ddwyseddau canllaw'r CDLI.				

- mae 2 caniatâd wedi cydymffurfio â dwysedd canllaw'r CDLI;
- mae 6 caniatâd wedi rhagori ar ddwysedd canllaw'r CDLI ac
- mae 4 caniatâd heb gydymffurfio â dwysedd canllaw'r CDLI

Mae'r mwyafrif o'r ceisiadau yn ymwneud â rhan o safle a neilltuwyd yn unig ac felly er bod rhai yn uwch neu'n is na'r dwysedd uned cyfartalog a nodwyd gan y CDLI, ar y cyfan mae'r dwysedd cais cyfartalog a'r dwysedd safle cyfartalog tua 23 o unedau yr hectar. Dim ond canran fach o gyfanswm y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd oedd heb fodloni gofynion dwysedd y CDLI. Roedd y ceisiadau hyn yn cynrychioli rhan o safle cyfan a neilltuwyd ac wedi'u cyfiawnhau fel rhai priodol ym mhob achos. Pan gaiff ceisiadau pellach eu cyflwyno ar gyfer gweddill y safleoedd hyn, mae'r dwyseddau safle terfynol yn debygol o newid ac yn sicr o gyfateb yn well â dwysedd canllaw'r CDLI.

Casgliadau

Ystyrir bod dwysedd cyfartalog datblygiadau preswyl ar safleoedd tai a neilltuwyd (23.16 o anheddau fesul hectar) yn gyson â dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI ar gyfer safleoedd a neilltuwyd (23.60 o anheddau fesul hectar). Mae dwysedd cyfartalog ceisiadau wedi gwella dros y cyfnod monitro ac wedi cynyddu o 21 uned fesul hectar ers 2014-2015. Mae symudiad cadarnhaol yn awgrymu bod y canllawiau ar gyfer dwysedd yn Natganiad y Grŵp Aneddiadau ac ym mholisi LU05 yn briodol ac yn rhai y gellir eu cyflawni. Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithrediad y polisi.

Cyfeirnod Monitro: AMRH14 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Cyflenwi Tai Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: LU05 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 st Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn y gymhareb rhwng caniatadau preswyl sy'n sefyll ac unedau a gwblhawyd, o gymhareb ddechreuol o 6.5 o ganiatadau sy'n sefyll i bob 1 uned a gwblhawyd.	Y gymhareb rhwng caniatadau a roddir ac unedau a gwblhawyd ar gyfer datblygiadau preswyl "Y gymhareb rhwng caniatadau unedau preswyl sy'n sefyll ac unedau preswyl a gwblhawyd."	Oni fydd y gymhareb rhwng y caniatadau preswyl sy'n sefyll a'r unedau a gwblhawyd mewn Grŵp Aneddiadau'n gostwng o flwyddyn i flwyddyn, bydd angen cynyddu'r defnydd o ganiatadau byrrach, dyddiadau cwblhau gorfodol a hysbysiadau cwblhau. Os yw amseroedd adeiladu hir yn arwydd o ddiffyg galw, efallai y bydd angen lleihau nifer y caniatadau a roddir, oherwydd dylai caniatadau fodoli i ddiwallu'r anghenion cyfredol.	Y gymhareb rhwng caniatadau preswyl sy'n sefyll ac unedau preswyl a gwblhawyd yn 2016: 7.1 o ganiatadau sy'n sefyll i bob 1 uned a gwblhawyd	0
Dadansoddiad Y gymhareb gyfartalog ar draws y Sir yw 7.1 o ganiatadau sy'n sefyll i bob 1 uned a gwblhawyd. Mae'r unedau a gwblhawyd wedi'u				

cymhlethu gan ffactorau allanol y tu allan i reolaeth yr ACLI gan gynnwys gofynion cyllido, diffyg adeiladwyr nifer fawr o dai, y cyllid masnachol cyfyngedig sydd ar gael i adeiladwyr bach ac ymagwedd ofalus y cwmnïau morgeisiau at brynwyr tai, er enghraifft. Mae ffigur eleni o 7.1 o ganiatadau yn dangos gwelliant sylweddol o'i gymharu â 12.3 (2015) a 9.3 (2014). Mae'r gymhareb yn cefnogi gostyngiad blwyddyn ar ôl blwyddyn yn y gymhareb rhwng caniatadau preswyl sy'n sefyll ac unedau a gwblhawyd, er nad yw'n cyflawni'r targed i symud i lawr o 6.5 yn hollol.

Casgliadau

Ni wireddwyd y gymhareb ddechreuol o 6.5 o ganiatadau sy'n sefyll i 1 uned a gwblhawyd erioed, fodd bynnag, ers mabwysiadu'r cynllun mae gostyngiad blwyddyn ar ôl blwyddyn tuag at y targed hwn wedi cael ei gyflawni. Mae ffigur eleni o 7.1 o ganiatadau sy'n sefyll i 1 uned a gwblhawyd yn cymharu â 12.3 (2015) a 9.3 (2014). Bydd angen gwneud cynnydd pellach i'r cyfeiriad hwn yn y blynyddoedd i ddod a'i fonitro'n agos.

Cyfeirnod Monitro: AMRH15 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Rhychwant y Tai Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: LU02 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (25 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Cymysgedd o fathau o dai ac ystafelloedd gwely'n unol ag adroddiad cyfredol Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yng Ngheredigion	<p>Nifer y Caniatadau Llawn neu Ganiatâd Materion a Gadwyd yn Ôl ar sail y mathau o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu'r cynllun.</p> <p>Nifer yr unedau a gwblheir yn ôl y mathau o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu'r cynllun.</p>	<p>Os yw'r ffigurau cyfunedig yn wahanol i'r canrannau a bennir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.</p> <p>Cymerir camau ar y cyd gydag Adran Dai'r Cyngor, a gellid canolbwyntio mwy ar gyflenwi mwy o'r math o annedd mae ei angen.</p>	Gweler Atodiad 8	0
Dadansoddiad Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2016) sydd newydd ei gyhoeddi yn diweddarar fersiwn 2008 a gafodd ei ystyried yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol. Nododd Asesiad o'r farchnad Dai Leol (2016) fod gorgyflenwad o anheddau 1, 2 a 4 ystafell wely a thangyflenwad o anheddau 3 ystafell wely ar gyfer unedau wedi'u caniatáu ac unedau wedi'u cwblhau. Mae hyn yn wahanol i Adroddiad Monitro Blynyddol 2015 a ddaeth i'r casgliad, yn seiliedig ar yr angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2008) fod tangyflenwad o anheddau 1, 4 a 5 ystafell wely a gorgyflenwad o anheddau 2 a 3 ystafell wely ar gyfer unedau wedi'u caniatáu ac unedau wedi'u cwblhau. Mae'r Bartneriaeth Tai Strategol yn ystyried anghenion tai ac er y bu cynnydd yn y ddarpariaeth o anheddau 1 a 2 ystafell wely yn y blynyddoedd diwethaf yn unol â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2008), mae				

effaith diwygiadau lles ar y cyd ag anghenion tai i bobl oedrannus yn debygol o greu cynnydd yn yr angen am lety sydd hyd yn oed yn llai yn y dyfodol. At hynny, mae anghenion y farchnad gyffredinol yn nodi bod angen cyson a chynyddol am lety teulu 3 ystafell wely oherwydd nid yw maint teuluoedd yn y sir yn gostwng mor gyflym ag y tybiwyd yn flaenorol.

Mae swyddogion cynllunio yn parhau i gydweithio â'r Swyddog Tai Fforddiadwy a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod y math o dai marchnad a thai fforddiadwy ar safleoedd yn cyfateb ag anghenion y gymuned leol.

Casgliadau

Nid yw'r targed yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisi. O ran maint anheddau, mae Polisi LU02 yn parhau i gael ei ystyried yn addas i'r pwrpas. Dylai'r angen am lety i bobl oedrannau gael ei ystyried yn yr adolygiad o'r CDLI a gall arwain at newid/ychwanegu at bolisi LU02 i roi sylw i'r broblem o boblogaeth sy'n heneiddio a phwysleisio'r angen am lety addas fel rhan o'r cymysgedd tai ar safleoedd tai.

Yr Economi

Cyfeirnod Monitro: AMRE01 (Dangosydd Statudol)				
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Cyflenwad Tir Cyflogaeth				
Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S04 and LU13				
Lefel: Craidd				
Pryd: Yn flynyddol				
Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim colledion net o ran tir cyflogaeth / arwynebedd llawr onid yw'n unol â Pholisi LU13.	Cyflenwad/datblygiad net y tir economaidd (hectarau / metrau sgwâr)	Os oes colled net o 1 safle neu ddarn o dir o fewn dosbarth defnydd B1, B2 neu B8 nad yw'n unol â Pholisi LU13 cynhelir ymchwiliad i'r achosion. Mae nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar y tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, ac oherwydd hynny cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru.	Rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, bu newid yn yr arwynebedd llawr a ddefnyddir ar gyfer cyflogaeth, sef: +0.14 ha	+
Dadansoddiad				

Ychydig o ddatblygu economaidd yn unig sydd wedi bod yn ystod y cyfnod monitro gyda chynnydd gros o ryw 0.14ha o arwynebedd llawr (10 caniatâd) mewn tir cyflogaeth yn erbyn colled gros o 0.01ha (1 caniatâd). Roedd y cais a arweiniodd at golled yn ymwneud â newid defnydd o unedau storio i fwthyn gwyliau, estyniad cefn 2 lawr, estyniad llawr cyntaf a gwaith cysylltiedig. Roedd y safle yn ffurfio rhan o ganolfan llety gwyliau sydd eisoes yn bodoli ac felly barnwyd ei fod yn unol â Pholisi LU13 a LU16.

Casgliadau

Mae'r targed yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisiau.

Cyfeirnod Monitro: AMRE02 (Dangosydd Statudol) Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Cyflenwi'r Safleoedd Economaidd sydd wedi eu Neilltuo Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S04 and LU13 Lefel: Craidd Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Dylai 66% o'r tir a neilltuwyd fod wedi cael caniatâd neu wedi cael ei gwblhau ar adeg mabwysiadu'r CDLI.</p> <p>Dylai 83% o'r safleoedd a neilltuwyd fod wedi cael caniatâd neu wedi cael eu cwblhau erbyn 2017.</p> <p>Dylai 100% o'r safleoedd a neilltuwyd fod wedi cael caniatâd neu wedi cael eu cwblhau erbyn 2022</p>	<p>1. Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau).</p> <p>2. Maint y datblygu economaidd a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau).</p>	<p>Os na fydd y safleoedd a neilltuwyd wedi eu cyflawni yn unol â'r hyn a ragamcanwyd yna cynhelir ymchwiliad i'r achosion.</p> <p>Oherwydd bod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar y tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd blynyddol ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru.</p>	<p>1. Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau): 75.3% (107.26Ha)</p> <p>2. Maint y datblygu economaidd a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau): 58.1% (82.88ha)</p>	+
Dadansoddiad				

Erbyn hyn mae 75.3% o safleoedd y CDLI wedi'u hymrwymo ar gyfer eu datblygu, er mai dim ond 58.1% sydd wedi cael eu cwblhau hyd yma. Cafodd y rhan fwyaf o'r safleoedd a gwblhawyd a gofnodwyd eu cwblhau cyn mabwysiadu'r CDLI gan fod llawer o'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI wedi cael eu nodi er mwyn caniatáu ar gyfer ailddatblygu a/neu ad-drefnu eu defnyddiau presennol mewn modd cydgysylltiedig. Mae blwyddyn arall nes bod rhaid cyrraedd targed 2017, fodd bynnag, mae canlyniadau'r flwyddyn hon yn awgrymu bod y targed yn llai o fewn cyrraedd. Mae hyn oherwydd arafu cyffredinol yn yr economi a'r gostyngiad cyffredinol yn y galw am dir cyflogaeth. Wrth i ni gyflawni'r adolygiad byddwn yn cynnal Asesiad o Anghenion Economaidd lle y byddwn yn ymchwilio i'r rhesymau dros y diffyg defnydd o rai safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd ac ystyried beth yw'r galw am safleoedd yn y dyfodol yng Ngheredigion

Casgliadau

Mae'r targedau'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisïau, fodd bynnag, yn wyneb yr amserlen fer hyd nes y dylai'r defnydd fod yn 83%, bydd y sylfaen dystiolaeth economaidd diweddaraf yn ystyried yr anghenion tir cyflogaeth yn y dyfodol ac yn adolygu'r safleoedd a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth i lywio'r adolygiad o'r CDLI.

Cyfeirnod Monitro: AMRE03 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Datblygu Economaidd mewn Lleoliadau Addas Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S04 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Hyd at 40% o'r datblygu economaidd i'w leoli ar safleoedd a neilltuwyd.	<ol style="list-style-type: none"> Maint y datblygu economaidd a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir (hectarau ac unedau). Maint y datblygu economaidd a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir (hectarau ac unedau). 	<p>Os methir â lleoli 35% neu lai o'r holl ddatblygu economaidd a ganiateir neu a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd am 2 flynedd yn olynol cynhelir dadansoddiad o achosion y diffyg er mwyn gweld a allai'r Awdurdod Lleol fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau.</p> <p>Oherwydd bod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar y tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd blynyddol ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth</p>	<p>Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiatawyd ers dechrau cyfnod y Cynllun:</p> <p>Unedau: 52.6% (61 o unedau)*</p> <p>Hectarau: 71% (24.011ha)</p> <p>Maint y datblygu economaidd a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu economaidd a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y Cynllun:</p>	+

		Cymru.	<p>Unedau: 54.8% (40 o unedau)</p> <p>Hectarau: 36% (3.48ha)</p> <p>* Nid yw hyn yn cynnwys caniatadau cynllunio amlinellol</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Yn ôl Asesiad o Anghenion Economaidd Ceredigion (DTZ, 2010); nid yw oddeutu 63% o'r swyddi y rhagwelwyd y byddent yn cael eu creu dros gyfnod y CDLI yn gofyn am safle cyflogaeth a neilltuwyd. O ganlyniad, disgwylir y bydd cyfran fawr o ddatblygu economaidd yn digwydd ar leoliadau oddi ar safleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, o ran caniatadau a safleoedd a gwblhawyd, cyflawnwyd yr holl dargedau ar gyfer y dangosydd hwn, gan awgrymu bod y safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI yn gweithredu fel y dymunir ar hyn o bryd. Bydd diweddariad o'r asesiad o anghenion economaidd yn ystyried faint o dir cyflogaeth sy'n debygol o fod ei angen yn y dyfodol.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae swm y tir cyflogaeth a neilltuwyd yn ddigonol ar gyfer cyfnod y cynllun. Mae'r targedau'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisiau.</p>				

Cyfeirnod Monitro: AMRE04 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Datblygu Economaidd ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S04, LU11, LU12 and LU13 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
30% o'r holl ddatblygu economaidd a ganiateir ac a gwblheir i'w leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd)	1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir. 2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir.	Oni chaiff o leiaf 30% o'r holl ddatblygu economaidd a ganiateir ac a gwblheir ei leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd) cynhelir dadansoddiad i achosion y diffyg er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r rhwystrau.	Canran y datblygu yn y dosbarthiadau B1, B2, B8 a Sui Generis perthnasol a leolwyd ar dir llwyd, ers dechrau proses y CDLI: A ganiatawyd: 30.6% (10.35ha) A gwblhawyd: 51.9% (5.02ha)	+
Dadansoddiad Gan mai sir wledig yw Ceredigion ac nid oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu, mae'n anochel y bydd tir glas yn cyfrannu at gyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu. Felly mae'r ffaith fod dros hanner yr holl ddatblygu economaidd a gwblhawyd yn ystod cyfnod y cynllun wedi bod ar dir llwyd yn gadarnhaol. O ran y datblygiadau a ganiatawyd ers 2007, mae targed y dangosydd wedi cael ei gyflawni hefyd. Mae cyfran y datblygiadau a ganiatawyd ar dir llwyd wedi gwella gan gynyddu o 19.8% i 30.6% ers y cyfnod				

monitro diwethaf, gan awgrymu bod y polisi yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Mae'n fwy anodd dylanwadu ar gyfran y datblygu a gwblhawyd oherwydd byddai cyfran sylweddol o'r datblygu a gwblhawyd wedi cael ei chaniatáu cyn mabwysiadu'r CDLI. Fodd bynnag, mae'r targed yn cael ei gyflawni a'i ragori ar gyfer cyfran y datblygu a gwblhawyd, sef 51.9%.

Casgliadau

Mae'r dangosydd yn cael ei gyflawni. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad polisiau'r CDLI.

Cyfeirnod Monitro: AMRE05 (Dangosydd Statudol) Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Canol Trefi Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S04, LU12, LU13, LU18, LU19, LU20, LU21 and LU22 Lefel: Craidd Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Lleoli o leiaf 80% o'r holl ddatblygiadau swyddfeydd, manwerthu a hamdden mawr (datblygu uwch nag 800 o fetrau sgwâr gros) yng Nghanol Trefi.	Maint y datblygiadau mawr (dros 800 m sg gros) o ran swyddfeydd, manwerthu a hamdden a ganiateir o fewn a'r tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a dosbarth.	Os bydd llai na 70% o ddatblygiadau mawr (o ran swyddfeydd, manwerthu a hamdden) yn digwydd yng nghanol trefi am 2 flynedd yn olynol, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau ac a oes angen i'r Awdurdod Lleol fynd ati i ddileu'r rhwystrau, naill ai drwy'r CDLI neu ddulliau eraill, er mwyn i'r datblygiad ddigwydd.	Mae maint y datblygiadau mawr a ganiatawyd yng nghanol trefi a'r tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a dosbarth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 fel a ganlyn: Mewn canol trefi Unedau: 0 % (0 o unedau) Arwynebedd: 0% (0 m sg) Y tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a dosbarth Unedau: 100% (2 uned) Arwynebedd: 100% (3502 m sg).	?

Dadansoddiad

Rhwng 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016, lleolwyd 100% o'r datblygiadau mawr a ganiatawyd y tu allan i ffiniau canol trefi. Caniatawyd dau gais ar gyfer datblygiadau mawr yn ystod y cyfnod monitro, un ar gyfer ysgol gynradd ardal newydd yn Nhrefach (1302 m sg) ac un ar gyfer adeilad adennill deunyddiau yn Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon (2200 m sg).

Mae'r ysgol gynradd a ganiatawyd yn Nhrefach yn uno'r ysgolion cynradd presennol yng Nghwrtnewydd, Llanwnnen a Llanwenog a darparu ysgol gynradd newydd wedi'i lleoli'n ganolog. Ni fydd unrhyw aneddiadau yn y dalgylch a wasanaethir gan yr ysgol newydd yn gweithredu fel ffin canol tref. Er bod yr ysgol wedi'i nodi fel datblygiad mawr, fe'i cynigiwyd y tu allan i ganol tref oherwydd ystyrir mai hwn oedd y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer y datblygiad. Yn wyneb y cyfyngiadau ar yr amser teithio i'r ysgol ni fyddai modd lleoli'r ysgol hon o fewn ffin canol tref sefydledig ac ateb yr anghenion lleol a nodwyd. Cynigiwyd yr adeilad adennill deunyddiau yng Nglanyrafon i'w leoli ar safle'r cyfleuster gwaredu gwastraff presennol yn Aberystwyth. Byddai lleoliad canol tref ar gyfer y math hwn o ddatblygiad wedi bod yn amhriodol ac mae lleoliad y cyfleuster hwn yn addas.

Rhagorwyd ar y targed a nodwyd yn ystod cyfnod monitro 2013-2014 (89.4%) ac ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiadau mawr newydd mewn canol trefi yn ystod y cyfnod monitro 2014-2015. Er nad yw'r targed wedi cael ei gyflawni eto yn ystod y cyfnod monitro hwn, ystyriwyd bod datblygiadau mawr a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi yn angenrheidiol, yn briodol ac wedi'u cyfiawnhau.

Casgliadau

Er nad yw'r targed wedi cael ei gyflawni, ystyriwyd bod y datblygiadau mawr a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro y tu allan i ffiniau canol trefi yn briodol, yn cydymffurfio ac yn wedi'u cyfiawnhau gan ystyriaethau cynllunio perthnasol. Felly, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisiau ar hyn o bryd.

Cyfeirnod Monitro: AMRE06 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig Y Polisiau a Gaiff eu Monitro: S01 – S04, LU12, LU13, LU18, LU19, LU20, LU21, and LU22 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer sefydlog neu gynyddol o gyfleusterau mewn Canolfan Gwasanaethau.	Faint o'r 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd bentref, ysgol gynradd) sydd mewn Canolfan Gwasanaethau Wledig.	Os collir un o'r 6 chyfleuster allweddol mewn Canolfan Gwasanaethau cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny. Fodd bynnag, gan fod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar ddarpariaeth y cyfleusterau, byddai angen ystyried unrhyw golledion net yn y cyd-destun ehangach.	Gweler Atodiad 9.	+
Dadansoddiad Un o brif nodau canolbwyntio tai a thwf economaidd mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig yw ei fod yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau a'r cyfleusterau a leolir yno. Gan fod y CDLI wedi cael ei fabwysiadu ers Ebrill 2013 yn unig, ystyrir ei bod yn rhy gynnar i ddweud a yw'r strategaeth yn cael effaith arwyddocaol ar eu cadw neu eu gwella ar hyn o bryd. Mae'r canlyniadau ynghylch nifer y cyfleusterau allweddol mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ers mabwysiadu'r cynllun wedi bod yn weddol gyson. Er y nodir y bu mân amrywiad yn nifer rhai o'r mathau o gyfleusterau, gan gynnwys tai cyhoeddus a neuaddau pentref er enghraifft, mae dadansoddiad manwl wedi nodi mân gamgymeriadau mewn dosbarthiadau arolwg ac adrodd hanesyddol. Felly deuir i'r casgliad nad oes unrhyw golled net arwyddocaol o gyfleusterau allweddol mewn canolfannau gwasanaethau gwledig a bod y ddarpariaeth wedi bod yn sefydlog ar y cyfan.				

Ni fu unrhyw amrywiad arwyddocaol yn y nifer a'r mathau o gyfleusterau mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig dros y blynyddol diwethaf. Bydd bywiogrwydd Canolfannau Gwasanaethau Gwledig yn gyffredinol yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI y flwyddyn nesaf. O ran gwasanaethau a chyfleusterau mewn Canolfannau Gwasanaethau, gan mai ers mis Ebrill 2013 yn unig y mae'r CDLI wedi bod yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r strategaeth hon yn cael effaith ar eu cadw neu eu gwella.

Casgliadau

Ni chafwyd llawer o newid i'r ddarpariaeth o gyfleusterau allweddol yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ers mabwysiadu'r cynllun, felly nid oes unrhyw bryderon mawr ynghylch gweithrediad polisiau'r CDLI ar hyn o bryd.

Cyfeirnod Monitro: AMRE07 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Ffryntiadau Manwerthu Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S01 – S02, LU19 and LU21 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Ffryntiadau Manwerthu Cynradd Aberystwyth ac Aberteifi.</p> <p>Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Ffryntiadau Manwerthu Eilaidd Aberystwyth ac Aberteifi.</p>	<p>Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Ffryntiadau Manwerthu Cynradd Aberystwyth ac Aberteifi.</p> <p>Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Ffryntiadau Manwerthu Eilaidd Aberystwyth ac Aberteifi.</p>	<p>Os bydd y lefelau'n cwmpo o dan y trothwyon a nodir ym Mholisi LU21 am 2 flynedd yn olynol cynhelir dadansoddiad er mwyn deall y sefyllfa a chymryd camau fel bo'n briodol i gyfyngu ar golledion pellach.</p>	<p>Arolygwyd Mawrth 2016</p> <p>Ffryntiadau Manwerthu Cynradd (mae 75% A1 yn ofynnol o dan y polisi):</p> <p>Aberteifi</p> <ul style="list-style-type: none"> • P0201 Gorllewin y Stryd Fawr: 76.0% • P0202 Dwyrain y Stryd Fawr: 76.0% • Cyfun: 76.0% <p>Aberystwyth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • P0301 Gogledd y Stryd Fawr: 63.2% • P0302 De'r Stryd Fawr: 85.7% • P0303 Gogledd Sgwâr 	+

			<p>Owain Glyndwr: 57.1%</p> <ul style="list-style-type: none"> • P0304 De Sgwâr Owain Glyndwr: 80% • P0305 Dwyrain Heol y Wig: 57.1% • P0306 Gorllewin Heol y Wig: 83.3% • P0307 Gorllewin y Ffynnon Haearn: 66.7% • P0308 Gorllewin Ffordd y Môr: 88.9% • P0309 Dwyrain Ffordd y Môr: 80% • Cyfun: 74% <p>Ffryntiadau Manwerthu Eilaidd (mae 50% A1 yn ofynnol o dan y polisi):</p> <p>Aberteifi</p> <ul style="list-style-type: none"> • S0201 Gorllewin y Stryd Fawr: 40% • S0202 Dwyrain y Stryd Fawr: 72.2% • S0205 Cwrt y Priordy: 90% • S0206 Gogledd Stryd y Priordy: 45.5% • S0207 De Stryd y 	
--	--	--	--	--

			<p>Priordy: 42.9%</p> <ul style="list-style-type: none"> • S0209 Pendre: 71.4% • Cyfun: 61.8% <p>Aberystwyth</p> <ul style="list-style-type: none"> • S0301 Dwyrain y Ffynnon Haearn: 53.3% • S0302 Ffordd y Môr/Lôn Cambria: 26.7% • S0303 De Ffordd y Môr: 61.5% • S0305 Dwyrain Heol y Wig: 44.4% • S0307 Gorllewin Heol y Wig: 30% • S0308 Gorllewin Stryd y Bont: 84.6% • S0309 Dwyrain Stryd y Bont: 66.7% • Cyfun: 51.9% 	
--	--	--	---	--

Dadansoddiad

Mae cyflwr Ffryntiadau Manwerthu Cynradd ac Eilaidd sy'n bodoli yn Aberystwyth ac Aberteifi yn unig yn rhoi darlun amrywiol. Yn Aberystwyth mae canran defnyddiau manwerthu yn y Ffryntiadau Cynradd yn amrywio o 88.9% i 57.1%, ac o 84.6% i 26.7% yn y Ffryntiadau Eilaidd. Yn Aberteifi, mae canran defnyddiau manwerthu yn y Ffryntiadau Cynradd yn 76% yn y ddwy ardal ffryntiadau manwerthu cynradd, ond mae ei Ffryntiadau Eilaidd yn amrywio rhwng 90.9% a 40%.

Ar y cyfan mae'r ffryntiadau manwerthu yn perfformio'n dda, fodd bynnag, cydnabyddwn fod nifer o ffryntiadau manwerthu unigol heb gyflawni'r targedau am 2 flynedd yn olynol, sy'n nodweddiadol o'r darlun cenedlaethol ac nid mewn ymateb i ddiffygion polisi. Yn wyneb maint bach/hyd byr rhai o'r ffryntiadau manwerthu, dylid cydnabod y gall newid defnydd ar gyfer uned sengl gael effaith

arwyddocaol ar ganran y defnydd A1 sy'n cael ei gyflawni mewn unrhyw ffryntiad sengl.

Yn Aberteifi mae P0201 yn cyflawni'r targed erbyn hyn. Yn Aberystwyth mae P0304 yn cyflawni'r targed erbyn hyn. Roedd Ffryntiadau Cynradd P0301, P0303, P0305 a P0307 i gyd heb gyflawni'r targed, fodd bynnag, roeddent wedi aros yr un fath â'r llynedd. Yn Aberteifi nid yw Ffryntiadau Eilaidd S0201, S0206 a S0207 wedi cyflawni'r targed ac yn Aberystwyth roedd Ffryntiadau Eilaidd S0302, S0305 ac S0307 i gyd heb gyflawni'r targed.

Dylid nodi, fodd bynnag, fod y sefyllfa gyffredinol yn fwy cadarnhaol. Mae Ffryntiadau Siopau Aberystwyth ac Aberteifi wedi methu'r targed o 75% o drwch blewyn gyda chanran o 74%, ac erbyn hyn mae Aberteifi yn rhagori ar y targed ar 76%. Mae eu Ffryntiadau Siopau Eilaidd yn uwch na'r targed o 50% gyda 51.9% o ddefnyddiau manwerthu yn Aberystwyth a 61.8% yn Aberteifi. Nododd dadansoddiad y flwyddyn flaenorol fod y targedau heb gael eu cyflawni felly lanswyd ymchwiliad lle y dangoswyd bod data'r blynyddoedd blaenorol wedi cael eu camgyfrifyddu - newidiwyd hwn a dangoswyd yn adroddiad monitro'r flwyddyn hon fod y targedau'n cael eu cyflawni neu eu colli o drwch blewyn. Felly mae'r targedau bron wedi cael eu cyflawni (0.1% yn brin) neu rhagorwyd arnynt ar gyfer yr holl ffryntiadau cynradd ac eilaidd, ac nid oes angen cynnal adolygiad. Fodd bynnag ar adeg adolygu'r cynllun, rhoddir ystyriaeth i'r ffryntiadau hyn ac a ydynt yn briodol a/neu a yw'r targedau yn realistig, a/neu a fyddai mesur gwahanol yn dangos perfformiad ffryntiadau cynradd ac eilaidd orau.

Nod y CDLI yw cadw defnyddiau manwerthu yn bennaf yn y ffryntiadau hyn a 75% yw'r ganran a ddymunir ar gyfer Ffryntiadau Cynradd a 50% ar gyfer Ffryntiadau Eilaidd. Fodd bynnag, roedd llawer o ffryntiadau wedi cwmpo o dan y targedau hyn cyn i'r CDLI gael ei fabwysiadu, ac felly nid oedd modd defnyddio Polisi LU21 i atal y newidiadau hyn. Felly mae'n bwysig cynnal safbwynt polisi cadarn ar ôl mabwysiadu'r cynllun ar geisiadau yn yr ardal oedd hyn, er mwyn mynd i'r afael â'r broblem, yn enwedig pan gynigir newid defnydd i swyddogaeth nad yw'n swyddogaeth fanwerthu.

Casgliadau

Mae'r Ffryntiadau Manwerthu Cynradd ac Eilaidd ar gyfer Aberystwyth ac Aberteifi wedi colli'r targed o drwch blewyn gan 0.1% neu wedi cyrraedd neu'n uwch na'r targed, felly nid oes unrhyw bryderon mawr ynghylch y polisi ar hyn o bryd.

Ansawdd Bywyd

Cyfeirnod Monitro: AMRQ01 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Colli Mannau Agored a Chyfleusterau Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: LU22 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim colledion net o ran mannau agored a chyfleusterau hamdden i ddatblygiadau ar safleoedd annisgwyl a thir oedd heb ei neilltuo.	Maint y mannau agored a chyfleusterau hamdden a gollir i ddatblygiadau (hectarau ac unedau) ar safleoedd annisgwyl a safleoedd heb eu neilltuo.	Os bydd colledion net o ran mannau agored a chyfleusterau neu ardaloedd hamdden, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny.	Dim colled net o fannau agored anffurfiol.	+
Dadansoddiad Nid oedd unrhyw gofnodion o golli mannau agored yn ystod y cyfnod monitro sy'n awgrymu bod Polisi LU22 yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Nodir y cafodd 0.94ha o fannau agored eu hennill o ganlyniad i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau. Gweler Q03 am ragor o wybodaeth.				
Casgliadau Mae'r targed yn cael ei gyflawni ac felly nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisi ar hyn o bryd.				

Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol

Cyfeirnod Monitro: AMRQ02 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Loss of Greenfield Land Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: S02 – S04 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim mwy na: <ul style="list-style-type: none"> • 75% o ddatblygu preswyl • 70% o ddatblygu economaidd; a • 15% o bob math arall o ddatblygu A ganiateir ac a gwblheir ar dir sydd heb ei neilltuo i'w leoli ar dir glas.	Ers dechrau cyfnod y cynllun, faint o dir glas a gollir i ddatblygiadau (hectarau) ar safleoedd annisgwyl neu safleoedd heb eu neilltuo.	Os caniateir neu os cwblheir mwy o ddatblygiadau ar dir glas na'r trothwyon uchod, cynhelir dadansoddiad i achosion y gormodedd er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol roi sylw i'r mater.	Rhwng 2007 a 2015, cafwyd y datblygu canlynol ar dir glas. Datblygu Preswyl (Targed 75%) A ganiatawyd: 170.29ha (60%) A gwblhawyd: 84.36ha (83%) Datblygu Economaidd (Targed 70%) A ganiatawyd: 3.14ha (34%) A gwblhawyd: 1.81ha (30%) Pob math arall o ddatblygu (Targed 15%)	0

			<p>A ganiatawyd: 32.91ha (43%) A gwblhawyd: 12.66ha (53%)</p>	
<p>Dadansoddiad Gan mai sir wledig yw Ceredigion ac nad oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu, mae'n anochel y bydd tir glas yn cyfrannu at gyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu, a lluniwyd targedau'r dangosydd i adlewyrchu hyn.</p> <p>Cyrhaeddwyd y trothwy o 75% yn fras ar gyfer datblygu preswyl o ran datblygu a ganiatawyd ar 60%, ond roedd datblygu a gwblhawyd yn uwch gydag 83% o'r unedau a gwblhawyd ar dir glas. Yr anhawster gyda'r dangosydd hwn yw nad oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw reolaeth dros y caniatadau cynllunio ar ôl iddynt gael eu rhoi. Byddai llawer o'r caniatadau sydd wrthi'n cael eu cwblhau wedi cael eu rhoi cyn mabwysiadu'r CDLI, ac felly cyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol allu dylanwadu ar y lleoliad datblygu a ffafrio safleoedd tir llwyd.</p> <p>Cyflawnwyd y targedau ar gyfer datblygu economaidd yn rhwydd gyda dim ond oddeutu 34% o'r datblygu a ganiatawyd a dim ond oddeutu 30% o'r datblygu a gwblhawyd wedi'i leoli ar dir glas. Ar y llaw arall, rhagorwyd ar y targed ar gyfer y mathau eraill o ddatblygu. Mae hyn i'w briodoli i ychydig o geisiadau arwyddocaol gan gynnwys datblygiad manwerthu a chymunedol, datblygiad Aberteifi a datblygiad tair ysgol yn Synod Inn, Brynhoffnant a Llanrhystud. Mae datblygiadau o'r fath o'u natur yn ddigwyddiadau anarferol ac felly ni ystyrir eu bod yn creu bygythiad i gyflawni amcanion y CDLI yn y tymor hir.</p> <p>Mae'r targed ar gyfer datblygu arall wedi cael ei ragori ond yn wyneb y budd cymunedol/economaidd a wireddwyd mewn perthynas â 'datblygu arall' ni ystyrir ei fod yn achos o bryder. Yn olaf, nodir bod y perfformiad cwblhau datblygiadau wedi'i gofnodi'n anghywir yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2015 gan awgrymu gostyngiad yn y ffigurau cwblhau ar gyfer 2016. Gan fod y gwall hwn wedi cael ei nodi bellach, bydd cyfnodau monitro yn y dyfodol yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch perfformiad gwirioneddol.</p> <p>I grynhoi mae'r rhan fwyaf o'r targedau a nodwyd ar gyfer y dangosydd hwn yn cael eu cyflawni. Nid yw targedau datblygu arall yn cael eu cyflawni, fodd bynnag, ni ystyrir ei fod yn achos o bryder ar hyn o bryd.</p>				
<p>Casgliadau Mae targedau caniatadau preswyl ac economaidd yn cael eu cyflawni. Mae caniatadau ar gyfer Datblygu Arall yn sylweddol uwch na'r targed y flwyddyn hon ac yn y blynyddoedd blaenorol. Er gwaethaf hyn, mae dadansoddiad o'r datblygiadau eraill yn awgrymu eu bod yn briodol o ran eu graddfa a'u lleoliadau, ac felly nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithrediad polisïau'r</p>				

CDL.

Nid yw'r targedau cwblhau yn cael eu cyflawni ar gyfer datblygiadau preswyl neu ddatblygiadau eraill. Bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar ganiatadau a dderbyniwyd a sut y maent yn trosi'n ganiatadau yn fwy nag unedau a gwblhawyd sydd y tu allan i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol i raddau helaeth, ac wedi'u caniatáu o dan gyfres wahanol o bolisiau cynllunio i'r rhai a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Cyfeirnod Monitro: AMRQ03 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Ennill Mannau Agored Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: LU24 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Provision of open space in line with Policy LU24	Relevant planning applications as captured by Policy LU24.	If less than 85% of sites deliver the open space required by Policy LU24 then an investigation into the barriers to deliverability of these aspects on site will be triggered.	25% of relevant planning applications have met the requirements of open space provision in line with Policy LU24	0
Dadansoddiad Derbyniwyd 8 cais cynllunio perthnasol yn ystod y cyfnod monitro, ac nid oedd 75% o'r rhain yn bodloni gofynion darparu manau agored yn unol â LU24. Mae dadansoddiad o'r ceisiadau a fethodd â darparu manau agored yn unol â Pholisi LU24 yn dangos bod 5 cais wedi cael eu hystyried cyn mabwysiadu'r CDLI. Methodd caniatâd pellach (A140905, Tir yng Nghlwb Pêl-droed Tref Aberystwyth, Aberystwyth) oherwydd i'r cais gael ei gymeradwyo yn erbyn argymhellion y swyddog. Er gwaethaf hyn, mae'r datblygiad preswyl canol tref a gynigwyd yn cynnwys clos cymunol ac yn agos i fan agored sefydledig (cae pêl-droed) er nad yw ar gael i'r cyhoedd ei ddefnyddio. I grynhoi, o'r 75% o geisiadau cynllunio oedd heb fodloni'r gofynion o ddarparu manau agored yn unol â Pholisi LU24, ystyriwyd tua 85% ohonynt (5 cais) cyn i'r CDLI gael ei fabwysiadu. Roedd 1 cais pellach yn cynnwys rhywfaint o fan agored cymunol ac mae ei leoliad yng nghanol y dref yn darparu mynediad uniongyrchol i'r amwynderau sydd ar gael ar gyfer manau agored cyhoeddus o fewn canol y dref, ac felly ystyrir bod pob un o'r ceisiadau hyn yn briodol.				

Nodir bod y trefniadau ar gyfer rheoli mannau agored yn y sir wedi'u cyfyngu oherwydd amharodrwydd cynghorau cymuned i fabwysiadu mannau agored a'r diffyg cwmnïau rheoli sydd ar gael i'w rhedeg. Felly, bydd unrhyw adolygiad yn y dyfodol yn ceisio cael hyd i ddull (gan gofio'r problemau sy'n codi gyda chronni cyfraniadau) i gael cyfraniadau ar gyfer datblygwyr i uwchraddio a rheoli'r mannau agored presennol.

Casgliadau

O'r 8 cais cynllunio perthnasol, roedd 5 wedi cael eu caniatáu eisoes mewn egwyddor ac felly ni ellid cymhwyso'r CDLI iddynt. Yr unig gais cynllunio arall oedd heb fodloni'r gofynion ar gyfer mannau agored yn unol â Pholisi LU24 oedd datblygiad canol tref dwysedd uchel oedd yn cynnwys man agored cymunol ac a oedd hefyd yn manteisio ar fynediad i fannau agored presennol o fewn canol y dref. Felly, er na chyflawnwyd y targed, ystyrir bod rhesymau i gyfiawnhau hyn ac nad oes pryder ynghylch gweithrediad y polisi.

Cyfeirnod Monitro: AMRQ04 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth Leol Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: DM15, DM20 and DM22 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Peidio â chaniatáu mwy na 5% o ddatblygiadau lle tybir y byddai effeithiau hirdymor neu anhysbys gweddilliol sylweddol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth leol.	% y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar: <ul style="list-style-type: none"> • Warchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynfinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth; • Cysylltedd ecolegol; • Coed, gwrychoedd a choetiroedd â gwerth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynderol; neu Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol. 	Os tybir y bydd mwy na 10% o'r datblygiadau a ganiateir yn cael effaith weddilliol hirdymor sylweddol ar yr uchod, cynhelir dadansoddiad o achosion y gormodedd er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r mater.	O'r 549 o geisiadau a ganiatawyd (heblaw hysbysebion), tybiwyd y gallai 523 ohonynt fod yn berthnasol i ecoleg. O'r 523 hwnnw, darparwyd ymgynghoriad ac ymateb ecolegol dilynol ar gyfer 227 o'r ceisiadau hynny. Roedd hyn yn nodi a oedd disgwyl iddynt gael effeithiau gweddilliol hirdymor sylweddol, ar ôl mesurau lliniaru, digolledu ac ati. Roedd tri (1.3%) o'r ymatebion wedi nodi effeithiau sylweddol, ond cawsant eu cymeradwyo cyn i ymateb gael ei wneud a allai fod wedi arwain at	

			<p>effeithiau negyddol sylweddol (cyfanswm o 5.7%). Yn ogystal, er na thybiwyd y byddai unrhyw effeithiau sylweddol gan y 213 o'r ceisiadau a gymeradwywyd, nid oedd yr Hysbysiad o Benderfyniad ar gyfer bron 11.5% o'r 227 o geisiadau a gymeradwywyd yn cynnwys pob un neu rai o'r amodau a gynigiwyd gan yr ecolegydd er mwyn lleihau'r effeithiau. Felly mae'n bosibl bod yr 11.5% hyn wedi cael effaith sylweddol yn absenoldeb yr amodau gofynnol, ac felly 17.2% yw cyfanswm canran y ceisiadau a allai gael effaith weddilliol hirdymor sylweddol, mewn gwirionedd.</p>	
<p>Dadansoddiad Fel y nodir uchod roedd 227 o geisiadau a ganiatawyd o 523 (ac eithrio caniatadau ar gyfer hysbysebion a cheisiadau amherthnasol eraill) yn destun ymateb ecolegol. O'r 227 hynny, caniatawyd oddeutu 5.7% lle'r oedd yr effaith naill ai'n anhysbys neu lle'r oedd yn debygol y byddai effaith sylweddol. Er enghraifft, cymeradwywyd un o'r ceisiadau cyn i arolwg gael ei gynnal (gan y methwyd ymateb yr ecolegydd ac felly ni ofynnwyd am yr arolwg). Felly ni chyflawnwyd y targed eisoes.</p>				

Fodd bynnag, er na thybiwyd y byddai unrhyw effeithiau sylweddol ar weddill y 227 o geisiadau a gymeradwywyd, nid oedd yr Hysbysiad o Benderfyniad ar gyfer oddeutu 11.5% o'r 227 o geisiadau a gymeradwywyd yn cynnwys pob un neu rai o'r amodau a gynigiwyd gan yr ecolegydd fel rhai oedd yn ofynnol er mwyn lleihau effeithiau. Felly, mae posibilrwydd bod y ceisiadau hyn wedi cael effaith sylweddol ac felly dylid eu cynnwys yn y nifer a allai fod wedi cael effaith sylweddol, gan godi'r cyfanswm i 17.2%. Hefyd, yn achos y ceisiadau na ofynnwyd am farn ecolegydd y Cyngor arnynt, nid yw effaith sylweddol debygol yn hysbys ac ni ellir ei feintoli (hynny yw, y 296 sy'n weddill).

Felly mae nifer y ceisiadau yr ymatebwyd iddynt a allai gael effaith anhysbys/sylweddol ychydig y tu allan i'r targed o 5% ac yn uwch na'r ysgogydd o 10%. Yn anffodus mae hwn yn ostyngiad o 8.8% o ran cydymffurfio ers y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n dangos bod angen rhoi sylw i rai problemau o hyd. Roedd pryderon pellach o ran y 296 o geisiadau lle na cheisiwyd cyngor ecolegol. Rhaid cael trafodaethau ar y ffordd orau o ystyried y rhain er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol mewn mannau eraill.

Casgliadau

Nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cyflawni'r dangosydd hwn yn ystod 2015/16 ac mae'r ganran yn uwch na'r ysgogydd. Mae'r methiant i'w briodoli i broses ac nid geiriad y polisi ac felly er nad oes unrhyw bryderon ynghylch y polisi ei hun, mae pryderon ynghylch y broses yn parhau. Felly, cynigir y camau gweithredu canlynol:

- Cwrdd â Rheolwr Rheoli Datblygu ac Uwch Swyddogion yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae sawl mater yn cael ei ailadrodd e.e. heb gynnwys amodau goleuo, ac felly gellir trafod y rhain.
- Cyfarfod dilynol ar wahân a thîm y gogledd a thîm y de.
- Adolygiad misol/bob dau fis o'r broses i geisio mynd i'r afael â'r problemau yn gyflymach na bob blwyddyn.

Cyfeirnod Monitro: AMRQ05 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Gwelliannau Amgylcheddol Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: DM14, DM15, DM20 and DM22 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Bydd o leiaf 85% o'r datblygu a ganiateir yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol yn unol â gofynion Polisiâu DM14, DM15, DM20 a DM22.	% y ceisiadau lle mae gwelliannau sy'n ymwneud â'r isod: <ul style="list-style-type: none"> • Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth); • Cysylltedd ecolegol; • Coed, gwrychoedd a choetiroedd; neu • Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol fel bo'n ofynnol yn unol â	Os bydd llai nag 80% o'r datblygiadau a ganiateir yn ymgorffori rhyw fath o welliant lle bo hynny'n ofynnol o dan bolisi, yna cynhelir dadansoddiad i'r achosion er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r mater.	Dim ond 52% o'r ceisiadau perthnasol a ganiatawyd sydd wedi ymgorffori rhyw fath o welliant fel un o'r amodau. Nid yw ceisiadau lle nad yw gwelliant yn berthnasol, e.e. blychau BT, neu lle mae modd darparu gwelliannau mewn Materion a Gadwyd yn Ôl, wedi cael eu cyfrif.	0

	Pholisïau DM14, DM15, DM20 ac DM22			
<p>Dadansoddiad</p> <p>Fel y nodir uchod, dim ond 52% o geisiadau sydd wedi ymgorffori amod a fydd yn arwain at welliannau. Lle cafwyd mewnbwn ecolegol, mae'r ffigur hwn yn codi i 75%. Bu cynnydd o 20% ers canlyniad y llynedd sy'n dal i symud i'r cyfeiriad iawn, ond mae yn bell i ffwrdd o hyd o'r targed o 85%. Fodd bynnag, mae'n arwyddocaol bod nifer y gwelliannau ecolegol wedi cynyddu'n sylweddol.</p> <p>Mae trafodaethau blaenorol yn awgrymu bod sawl rheswm dros fethu â chyrraedd y targed neilltuol hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cred nad yw'r gwelliannau'n berthnasol i ddeiliaid tai, er nad oes unrhyw eiriad o'r fath yn DM15 nac yn y polisiau eraill i eithrio ei ystyried mewn perthynas â cheisiadau gan ddeiliaid tai. Mae rhai deiliaid tai wedi gwrthwynebu brics/blychau ystlumod/adar. Mae angen awgrymu dewisiadau eraill yn hytrach na pheidio ag ymgorffori unrhyw amodau o gwbl; • Mae fformat y ffurflen ymateb ecolegol a ddefnyddir yn nodi'r gwelliannau ar wahân yn fwriadol (at ddibenion monitro) sy'n peri dryswch i'r Swyddog Achos; nid yw'n glir a yw'r amodau a awgrymir yn orfodol; • Cysyniad newydd yw hwn ac mae swyddogion achos yn codi cwestiynau ynghylch y gallu i'w orfodi • Cyfyngedig iawn yw'r gwelliannau ar safleoedd tyrbinau gwynt oherwydd ni ddylid annog ystlumod ac adar i fod ar y safle, ac felly ar hyn o bryd nid yw unrhyw welliannau'n cael eu cynnig ar gyfer ceisiadau am dyrbinau. <p>Rhodddwyd sylw i nifer o'r problemau hyn yn ystod y flwyddyn, ond bydd yn cymryd amser i wireddu'r newidiadau - yn enwedig gan fod y rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu gweithredu hanner ffordd trwy'r flwyddyn, sef pan oedd canlyniadau llawn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf ar gael a nodwyd bod angen gweithredu. Bu gwelliant eisoes ers y llynedd, fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach.</p> <p>Er mwyn cyrraedd ein targed ar gyfer 2016/17 cynigir fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu â swyddogion gyda manylion am ganlyniadau'r flwyddyn hon ac i'w hatgoffa am drafodaethau. Os oes angen, cwrdd â Swyddogion Map Diffiniol i gael trafodaethau pellach. • Esbonio ymhellach i asiantau sut i ymgorffori cyflawniadau yn rhwydd. <p>Casgliadau</p> <p>Nid yw'r ACLI wedi cyflawni'r dangosydd hwn yn ystod 2015/16. Er hynny, cafwyd cynnydd o 20% ers canlyniad y flwyddyn</p>				

ddiwethaf sy'n dangos gwelliant arwyddocaol. Felly cynigir gweithredu pellach er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau i wella yn y dyfodol ac felly er nad yw'r targedau'n cael eu cyflawni, dylent barhau i gael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau gwelliannau pellach.

Cyfeirnod Monitro: AMRQ06 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Seilwaith Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: DM12 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr).	Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr).	<p>Os darganfyddir bod materion seilwaith na ellir eu goresgyn yn ystod cyfnod y cynllun, cynhelir ymchwiliad i'r atebion posibl.</p> <p>Gall nifer o ffactorau effeithio ar ddarpariaeth y seilwaith carthffosiaeth a dŵr. Felly, os na chaiff y ddarpariaeth seilwaith ei gwella, bydd angen cymryd camau ar y cyd gyda darparwyr gwasanaethau cyfleustodau. Gallai hynny gynnwys yr isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penderfynu a fyddai modd ei gynnwys yn rownd nesaf y Cynllun Rheoli Asedau er mwyn sicrhau cyflenwad safleoedd; 	<p>Mae trafodaethau â Dŵr Cymru yn mynd rhagddynt ynghylch sicrhau cyllid trwy raglen y Cynllun Rheoli Asedau.</p> <p>Mae 4 Canolfan Gwasanaethau a gyfyngir yn rhannol gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aberaeron (Llwyncelyn) • Llan-non • Llanrhystud • Pontarfynach 	+

		<ul style="list-style-type: none"> • Sicrwydd y gellir mynd i'r afael â phroblemau yn y Cynllun Rheoli Asedau cyfredol; • Os oes problemau'n bod gyda safleoedd lle dibynnir ar gyfraniadau datblygwyr, archwilio'r posibilïadau (Cynllun Rheoli Asedau, safleoedd eraill ac ati); ac • Os nad yw'n bosibl goresgyn materion sy'n ymwneud â capasiti, dylid ystyried yr opsiynau ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion datblygu yn y dyfodol yn y Ganolfan Gwasanaethau neilltuol honno. 		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae trafodaethau â Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW) yn parhau. Mae Cynllun Rheoli Asedau DCWW (AMP) 6 sy'n rheoli gwelliannau dŵr a charthffosiaeth hyd nes a chan gynnwys 2020 wedi cael ei ddiweddarau. Mae'r AMP yn dangos bod materion seilwaith wedi lleihau eleni. Dim ond 4 Canolfan Gwasanaethau sydd wedi'u cyfyngu'n rhannol, o'i gymharu â 6 yn 2015 a 9 yn 2014. O'r pedair canolfan gwasanaethau a gafodd eu cyfyngu'n rhannol, nodir y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oes unrhyw gapasiti gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llwyncelyn i ddarparu ar gyfer twf pellach yn Llwyncelyn (heblaw datblygiadau gyda chaniatadau sy'n bodoli). • Nid oes unrhyw gapasiti gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanrhystud i ddarparu ar gyfer y twf a gynigir yn Llan-non a Llanrhystud (heblaw datblygiadau gyda chaniatadau sy'n bodoli). • Mae capasiti cyfyngedig i dderbyn cyfran o'r twf a gynigir ym Mhontarfynach ond nid y twf cyfan. Bydd astudiaeth ddichonoldeb wedi'i gyllido gan ddatblygwr yn nodi'r capasiti sydd ar gael. 				

Bydd y tri safle Gwaith Trin Dŵr Gwastraff a nodwyd uchod yn ffurfio rhan o gyflwyniad Dŵr Cymru i reoleiddwyr diwydiant ar gyfer AMP7 (2020-2025). Cyn buddsoddiad rheoleiddiol gall datblygiadau digwydd yn y tymor byr os yw datblygwyr yn cyllido gwelliannau eu hunain. Bydd gwybodaeth am gyfyngiadau seilwaith a nodwyd uchod yn cael eu hystyried pan fydd safleoedd a neilltuwyd a statws canolfannau gwasanaethau yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLI. Bydd hyn yn sicrhau bod dyraniadau'n parhau i fod yn briodol yn y dyfodol, bod twf graddol dros gyfnod y cynllun yn briodol, a bod Datganiadau Grŵp Aneiddiadau yn parhau'n gywir.

Casgliadau

Mae'r ymgysylltu â DCWW yn gadarnhaol. Ers dechrau cyfnod y cynllun mae nifer y canolfannau gwasanaethau a gyfyngir yn rhannol wedi lleihau o 9 i 4. Fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLI bydd dichonoldeb safleoedd presennol a neilltuwyd (gan gynnwys yr ystyriaeth o gyfyngiadau seilwaith) a nodwyd uchod yn cael eu hystyried yn fwy manwl.

Cyfeirnod Monitro: AMRQ07 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Lleihau Perygl Llifogydd Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: Polisi Cenedlaethol a DM11 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim caniatâd cynllunio o gwbl i ddatblygiadau sy'n cael eu categoruiddio o dan baragraff 5.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 na fyddant yn bodloni'r holl brofion a nodir o dan baragraff 6.2 i-v Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 a roddir ar ardaloedd gorlifdir C1 ac C2.	% y datblygiadau sy'n cael eu categoruiddio o dan baragraff 5.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 nad ydynt yn bodloni pob un o'r profion a nodir o dan baragraff 6.2 iv Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15.	<p>1 uned y caniateir ei datblygu sy'n cael ei chategoruiddio o dan baragraff 5.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 nad yw'n bodloni pob un o'r profion a nodir o dan baragraff 6.2 i-v</p> <p>Os rhoddir caniatâd i unrhyw geisiadau cynllunio sy'n cael eu categoruiddio o dan baragraff 5.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 nad ydynt yn bodloni'r holl brofion a osodir o dan baragraff 6.2 i-v Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15, cânt eu dadansoddi i weld sut y penderfynwyd eu cymeradwyo.</p>	<p>Cymeradwywyd 43 o geisiadau ar gyfer datblygiadau wedi'u categoruiddio o dan baragraff 5.1 ym mharth llifogydd C2.</p> <p>Cymeradwywyd 10 o geisiadau ar gyfer datblygiadau wedi'u categoruiddio o dan baragraff 5.1 ym mharth llifogydd C1.</p> <p>Nid oedd 51 o'r caniatadau hyn yn bodloni profion TAN 15.</p>	+

Dadansoddiad

Cymeradwywyd 43 o geisiadau perthnasol ym mharth llifogydd C2 ac nid oedd 1 wedi dangos bod profion TAN 15 wedi'u bodloni. Fodd bynnag, er gwaethaf hynny ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Cymeradwywyd 10 cais perthnasol ym mharth llifogydd C1. Dim ond 1 cais oedd heb ddangos bod y profion TAN 15 wedi cael eu bodloni. Roedd y cais ar gyfer datblygiad preswyl yng nghanol y dref yn Aberystwyth ac nid oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwrthwynebu'r cais hwn.

Roedd 96% (53 o geisiadau perthnasol) a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod monitro wedi bodloni profion TAN 15. Cyfeiriwyd y 4% arall (2 gais perthnasol) oedd heb ddangos bod profion TAN 15 wedi cael eu bodloni at Gyfoeth Naturiol Cymru ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad. Mae hyn yn cymharu ag 86% ac 14% yn ystod y cyfnod monitro blaenorol.

Casgliadau

Dim ond canran fach iawn o geisiadau cynllunio perthnasol oedd heb fodloni profion TAN 15 yn ystod y cyfnod monitro. O'r rhain, fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r penderfyniadau wedi cael eu seilio ar wybodaeth a gafwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a lle'r oedd yn briodol mae amodau wedi cael eu gosod i sicrhau diogelwch preswylwyr. Mae hyn yn awgrymu bod TAN 15 a Pholisi DM11 yn cael eu hystyried a bod datblygiadau yn cydymffurfio â nhw. Felly nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisi ar hyn o bryd.

Cyfeirnod Monitro: AMRQ08 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Capasiti MW gosodedig yn Ardal Chwilio Strategol SSA D Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: Polisi Cenedlaethol a DM11 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Mae'r capasiti MW gosodedig o ran datblygiadau ynni adnewyddadwy'n unol â gofynion Llywodraeth Cymru yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) D.	Y capasiti MW gosodedig ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a gymeradwyir yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) D.	Cymerir camau parthed y targed hwn ar y cyd â Llywodraeth Cymru gydag adroddiad blynyddol.	Ni ddaeth unrhyw gais i law.	0
Dadansoddiad Er mwyn cysylltu i'r Grid Cenedlaethol mae'r datblygiad fferm wynt yn SSA D yn gofyn am osod llinellau pŵer newydd ac mae'n rhaid lleoli'r llinellau newydd hyn o fewn yr Awdurdod Lleol cyfagos, Powys. Dechreuodd ymchwiliad cyhoeddus ar y cyd i ddatblygiadau fferm wynt ym Mhowys ym Mai 2013. Ym Medi 2015 gwrthododd Adran yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd ganiatâd cynllunio ar gyfer pedwar cais am ffermydd gwynt mawr a fyddai wedi ategu prosiectau cysylltiad arfaethedig. Mae dyfodol y ceisiadau cynllunio hyn yn parhau'n aneglur ac mae rhai yn destun apêl ar hyn o bryd. O ganlyniad mae'r prosiectau cysylltiad arfaethedig wedi'u gohirio ym Mhowys ac mae'r rhain yn ofynnol er mwyn i unrhyw ddatblygiad ynni adnewyddadwy ddechrau yn SSA D.				
Casgliadau Os nad yw cais ar gyfer SSA D yn cael ei gyflwyno ni ellir cyflawni capasiti MW SSA D. Mae'r sefyllfa hon y tu allan i reolaeth neu ddylanwad Awdurdod Lleol Ceredigion a'r CDLI, ond bydd yn parhau i gael ei fonitro.				

Cyfeirnod Monitro: AMRQ09 Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Gwastraff Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro: LU31 Lefel: Lleol Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Sicrhau bod tir digonol ar gael ar gyfer unrhyw ofynion sy'n sefyll ar gyfer cyfleusterau rhanbarthol i reoli gwastraff i wasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol.	Maint y capasiti rheoli gwastraff a ganiateir fel canran o'r holl gapasiti sy'n ofynnol fel y'i nodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol.	Os bydd newid yn yr amgylchiadau sy'n arwain at newid yn arwynebedd y tir mae ei angen ar gyfer unrhyw gyfleusterau rhanbarthol i wasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol neu os bydd newid sy'n arwain at ddiddymu'r angen hwnnw (e.e. pe câi'r cyfleusterau rhanbarthol mae eu hangen i wasanaethu Partneriaeth Gwastraff Canolbarth Cymru eu lleoli y tu allan i Geredigion), cynhelir ymchwiliad ynghylch a ddylid lleihau'r arwynebedd tir a neilltuir ar gyfer gwastraff.	Hyd yma nid yw'r diwydiant wedi cyflwyno unrhyw geisiadau am unrhyw gyfleusterau gwastraff rhanbarthol yng Ngheredigion.	?

Dadansoddiad

Yn ystod y cyfnod monitro roedd yr awdurdod wedi delio â nifer o geisiadau ar gyfer cyfleusterau treulio anaerobig ar fferm. Cafodd tri chais ganiatâd cynllunio: Cwmporthman, Blaenporth, Aberteifi (A150211), Llanfair Fach, Llanbedr Pont Steffan (A150264) a Rhosygadair, Blaenannerch, Aberteifi (A150263) a phenderfynwyd bod tri ohonynt yn ddatblygiadau wedi'u caniatáu heb fod angen cais blaenorol: Gwarcaeau, Cross Inn, Llan-non (A150085), Pengallt, Coed y Bryn, Llandysul (A150996) a Pencefyn Drysgol, Tregaron (A150538). Yn ystod y cyfnod dechreuodd gwaith adeiladu ar gyfleuster treulio anaerobig yn Fferm Crugmore, Penparc, Aberteifi a gafodd ganiatâd cynllunio yn Rhagfyr 2013. Mae capasiti o 1MW gan y cyfleuster hwn ac fe'i caniateir i dderbyn gwastraff slyri fferm a gwastraff bwyd masnachol sy'n dod o'r ardal leol.

Mae TAN 21 yn cydnabod bod y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol (a osododd y gofynion o ran capasiti mae'r dangosydd hwn yn ymdrin â hwy) wedi dyddio ac y dylid eu diddymu bellach. Roedd tir a neilltuwyd E0301 wedi cael ei wneud er mwyn bodloni gofynion y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol ond roedd maint y tir a neilltuwyd wedi'i seilio ar y tir y gellid rhagweld y byddai ei angen i fodloni'r gofynion ar gyfer cyfleuster rhanbarthol i ddiwallu gofynion rhanbarthol ardal Partneriaeth Gwastraff Canolbarth Cymru (Ceredigion a Phowys) gan gofio y byddai natur wasgaredig a'r lefelau isel o wastraff a gynhyrchir ar draws Ceredigion a Phowys, yn golygu na fyddai'r diwydiant gwastraff byth yn barnu bod cefn gwlad gorllewin Cymru yn lleoliad ymarferol ar gyfer unrhyw gyfleusterau rhanbarthol i wasanaethu ardal Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru. Mae capasiti E0301 yn parhau'n briodol ar gyfer unrhyw angen a ragwelir am unrhyw gyfleuster trin rhanbarthol a allai fod ei angen yng Ngheredigion i wasanaethu ardal Partneriaeth Canolbarth Cymru, neu fel rhan o ateb ehangach a hirdymor o ran gwastraff gweddilliol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Ar hyn o bryd mae'r gwastraff bwyd a gesglir gan yr Awdurdod Lleol yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu bionwy a thrydan yng nghyfleuster treulio anaerobig Cassington a weithredir gan Agrivert yn Worton, Oxen yn Swydd Rydychen. Cafodd Agrivert ganiatâd cynllunio yn ddiweddar a chyllid ar gyfer cyfleuster 3.0MW AD 40,000 tunnell newydd yn Stormy Down, Pen-y-bont ar Ogwr. O dan contract Ceredigion ag Agrivert, os yw safle Stormy Down yn dechrau gweithredu bydd gwastraff bwyd Ceredigion yn cael ei gludo yno yn hytrach nag i safle Cassington.

Ynghyd â Chyngor Sir Penfro, roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi arwyddo contract gwastraff gweddilliol 15 mlynedd (gyda chymal optio allan 10 mlynedd) ar 1 Mawrth 2015, lle y caiff holl wastraff gweddilliol Ceredigion ei brosesu mewn safleoedd yn Llanbedr Pont Steffan a Phorthladd Penfro i symud deunyddiau y gellir eu hailgylchu, cyn cael eu rhwygo, eu bwndelu a'u lapio ym

Mhorthladd Penfro i greu Tanwydd yn Deillio o Sbwriel, a gaiff ei gludo ar long i orsaf bŵer Ynni o Wastraff effeithlonrwydd uchel yn Sweden.

Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer delio â gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol yn golygu na fydd angen safle Glanyrafon. Mae'n bosib y bydd angen y safle o hyd ar gyfer rheoli gwastraff rhanbarthol (Ceredigion a Phowys) a chyfleusterau trin i yrru'r gwaith o reoli gwastraff ymhellach i fyny'r hierarchaeth gwastraff, boed hynny (yn nhrefn blaenoriaeth ddisgynnol) yn galluogi aildefnyddio pellach, paratoi ar gyfer aildefnyddio, ailgylchu neu adennill deunyddiau (neu gyfuniad o'r rhain) i leihau faint o ddeunyddiau y mae'n rhaid eu hallforio fel gwastraff gweddilliol, ac i'r diben hwnnw mae'r safle yn parhau i fod ar gael.

Casgliadau

Mae'n rhy gynnar eto i ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch a fydd angen y tir a neilltuwyd yng Nglanyrafon (E0301) i ddarparu Cyfleuster Gwastraff Rhanbarthol, ond mae'n bwysig ei fod yn cael ei gadw fel safle o dan reolaeth yr awdurdod yn unswydd i fodloni unrhyw ofynion yn y dyfodol am gyfleusterau gwastraff rhanbarthol hyd nes y gellir dangos nad oes angen ei gadw at y diben hwn.

Cyfeirnod Monitro: AMRQ010 (Dangosydd Statudol) Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Agregau Y Polisiau a Gaiff eu Monitro: LU27 ac LU30 Lefel: Craidd Pryd: Yn flynyddol Ffynhonnell: Arolygon ac Adroddiadau Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint yr agregau a gloddir o'r tir yn bennaf a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau fel canran o'r holl gapasiti sy'n ofynnol fel y'i nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.	Maint yr agregau a gloddir o'r tir yn bennaf a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau fel canran o'r holl gapasiti sy'n ofynnol fel y'i nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol Agregau fel canran o'r holl gapasiti sy'n angenrheidiol fel y'i nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.	<p>Os bydd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a ganiateir, y lefelau allbwn a ganiateir a'r lefelau allbwn gwirioneddol ar draws yr holl safleoedd agregau'n cwmpo o dan y lefelau sy'n ofynnol i gynnal lefel allbwn o 0.3mt/y flwyddyn (neu'n cwmpo o dan gyfradd flynyddol a fyddai'n galluogi cyflawni targed allbwn cyffredinol 4.5Mt yn ystod cyfnod y cynllun) yna cynhelir ymchwiliad i'r sefyllfa i ganfod y rhesymau dros hynny.</p> <p>Os mai diffyg cronfeydd wrth gefn a ganiateir yw'r broblem bydd angen ystyried a oes</p>	<p>Yn 2014 roedd gwerthiannau o agregau cerrig mâl yn 0.11Mt h.y. 44% o'r targed 0.2Mta. Y ffigur gwerthiant 10 mlynedd ar gyfartaledd ar gyfer 2005-2014 oedd 0.21Mt h.y. 84% o'r targed 0.2Mta. Fodd bynnag, roedd capasiti safleoedd i gyflenwi (h.y. capasiti gweithredol a lefelau allbwn blynyddol) yn fwy na 100% o'r targed.</p> <p>Yn 2014 roedd gwerthiant tywod a graen ar draws cyn grŵp awdurdod Dyfed yn 0.2Mt h.y. 60.6% o'r targed 0.33Mta. Y ffigur</p>	0

		<p>angen neilltuo mwy o dir neu ddynodi 'Ardaloedd a Ffafrir' ai peidio.</p> <p>Os mai'r lefelau allbwn a ganiateir yw'r broblem, ystyrir a oes lle i gefnogi ceisiadau i amrywio'r amodau sy'n cyfyngu ar y lefelau allbwn.</p> <p>Os mai'r lefelau allbwn gwirioneddol yw'r broblem, cynhelir ymchwiliad ynghylch a yw hynny'n adlewyrchu galw isel, ynteu a oes cyfyngiad ar lefel yr allbwn gan unrhyw beth y gellid mynd i'r afael ag ef drwy'r CDLI.</p>	<p>gwerthiant 10 mlynedd ar gyfartaledd ar gyfer 2005-2014 oedd 0.25Mt h.y. 75.75% o'r targed 0.33Mta. Fodd bynnag, ar draws grŵp yr awdurdod roedd capasiti safleoedd i gyflenwi (h.y. capasiti gweithredol a lefelau allbwn blynyddol) yn 2015 yn fwy na 100% o'r targed.</p>	
<p>Dadansoddiad Mae'r dadansoddiad hwn yn dibynnu ar ddata wedi'i gynnwys o fewn y fersiwn drafft diweddaraf o Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (y cyfeirir ato wedi hyn fel Adroddiad Blynyddol 2014).</p> <p>Mae Adolygiad 1af Datganiad Technegol Rhanbarthol y Gweithgor yn gosod dosraniad creigiau mâl o 0.2Mta ar gyfer Ceredigion tan ddiwedd cyfnod y cynllun a hefyd 10 mlynedd y tu hwnt i hynny (h.y. hyd at 2032), ac mae'n gosod cyfanswm dosraniad tywod a graean a gloddir o'r tir o 0.3Mta ar draws Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (h.y. cyn awdurdodau Dyfed) tan ddiwedd cyfnod y cynllun a saith mlynedd y tu hwnt i hynny (h.y. hyd at 2029 ar gyfer Ceredigion). Nid yw Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn nodi sut y dylai'r dosraniad ar y cyd o 0.33Mta o dywod a graean gael ei rannu ymysg awdurdodau unigol.</p>				

Yn 2014 roedd gwerthiannau o agregau mâl yng Ngheredigion yn 0.16Mt, 80% o'r targed dosraniad o 0.2Mta. Fodd bynnag, disgwylir i werthiannau adlewyrchu newidiadau yn y galw, ac er gwaetha'r diffyg yn 2014, mae'r ffigur gwerthiannau cyfartalog 10 mlynedd a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2014 (0.21Mt) yn parhau i fod ychydig yn uwch na'r ffigur dosraniad o 0.2Mta. Roedd gan Geredigion 5.69Mt o gronfeydd wrth gefn o greigiau mâl ar ddiwedd 2014, felly pe bai gwerthiannau cyfartalog yn digwydd ar y gyfradd a ddosrannwyd o 0.2Mta, byddai'r cronfeydd wrth gefn yn para tan 2043 h.y. yn llawer hwy na'r hyn sy'n ofynnol yng nghyfnod y cynllun a hefyd 10 mlynedd y tu hwnt i hynny (h.y. hyd at 2032).

Yn 2014 cyfanswm gwerthiannau tywod a graean a gloddir o'r tir cyn awdurdodau Dyfed oedd 0.20Mt (er iddo fod yn 0.28Mt y flwyddyn flaenorol). Mae hyn yn 60.6% o'r targed dosraniad o 0.33Mta. Er nad oedd hyn yn agos i'r dosraniad ar y cyd o 0.33Mt ar gyfer cyn awdurdodau Dyfed, roedd yr holl alw am dywod a graean a gloddir o'r tir ar draws ardal gyfan y Gweithgor wedi'i gyflawni gan safleoedd a leolir o fewn cyn ardal Dyfed, ac roedd pob un o'r safleoedd hyn yn gweithredu'n dda o fewn eu capasiti gweithredol ac yn llawer is na'u lefelau allbwn blynyddol a ganiateir (sydd ar y cyd yn uwch na'r dosraniad blynyddol), gan awgrymu bod y diffyg unwaith eto yn fater o alw ac nid yn fethiant o ran cyflenwad i ateb y galw. Ar draws cyn ardal Dyfed, mae mwy na digon o gapasiti i gynyddu allbynnau i'r 0.33Mta a ddosrannwyd ar y cyd pe bai'r galw byth yn codi i'r lefel honno, er pe byddai hyn yn digwydd byddai sefyllfa'r banc tir yn lleihau'n gyflymach, felly byddai'n rhaid monitro hyn yn agos. Mae gan Geredigion ei hun y capasiti (yn seiliedig ar uchafswm allbynnau a ganiateir a osodwyd gan amodau cynllunio) i gyfrannu 0.248MTa i'r dosraniad grŵp (h.y. 75.15% o darged y grŵp o 0.33Mta).

D.S. Mae cynrychiolwyr pob un o gyn awdurdodau Dyfed yn cwrdd o leiaf dwywaith y flwyddyn fel Grŵp Cynllunio Mwynau De-orllewin Cymru i drafod materion mwynau traws-ffiniol, gan gynnwys eu dosraniad a rennir.

Mae'n rhaid i'r awdurdodau gynnal banc tir o 10 mlynedd hefyd o agregau creigiau mâl a banc tir o saith mlynedd o agregau tywod a graean trwy gyfnod y cynllun (MTAN1: Agregau.) Ar gyfer Ceredigion mae hyn yn golygu bod rhaid i'r banc tir creigiau mâl ymestyn i 2032 ac mae'n rhaid i'r banc tir tywod a graean ymestyn i 2029. Yn seiliedig ar y gwerthiannau blynyddol cyfartalog o greigiau mâl ar gyfer y cyfnod nesaf o ddeng mlynedd 2005 - 2014 (Adroddiad Blynyddol 2014), roedd banc tir agregau creigiau mâl Ceredigion ar ddiwedd 2014 yn 27 mlynedd (gan ymestyn i 2041), h.y. mwy na digonol i fodloni gofynion MTAN1, ac roedd banc tri Ceredigion o dywod a graean yn 14 mlynedd (gan ymestyn i 2028), h.y. un flwyddyn yn fyr o'r lefel ofynnol. Fodd bynnag, roedd y diffyg wedi cael ei ragweld pan gynhyrchwyd y CDLI (yn wir, roedd disgwyl iddo fod ychydig yn waeth), felly cafodd sylw ar

yr adeg honno trwy neilltuo dau safle ar gyfer estyniadau i safleoedd tywod a graean presennol (cyfeirnod safle CDLI MNA0201 a MNA0701). Gyda'i gilydd mae'r rhain yn cynnwys digon o gronfeydd wrth gefn i estyn banc tir Ceredigion gan sawl blwyddyn. Mae'r ddau safle hyn yn parhau i fod ar gael. Yn ogystal, yn 2015 rhoddwyd caniatâd cynllunio i estyn safle tywod a graean yng Nghrug yr Eryr, a rhoddwyd caniatâd hefyd i ddefnyddio safle tywod a graen sy'n gweithredu yn Llechwedd Dderi, Cribyn, Llanbedr Pont Steffan, gan greu 150-175,000t ychwanegol o gronfeydd wrth gefn tywod a graean. Felly, nid oes angen newid y CDLI a neilltuo unrhyw safleoedd pellach ar gyfer echdynnu tywod a graean er mwyn sicrhau bod cronfeydd wrth gefn digonol i fodloni'r gofyniad banc tir a osodwyd yn MTAN1.

Casgliadau

Mae safleoedd creigiau mâl Ceredigion yn gallu bodloni'r dosraniad a osodwyd ar gyfer Ceredigion yn Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol, ac mae safleoedd tywod a graean Ceredigion (o'u cyfuno â'r safleoedd hynny a leolir mewn mannau eraill yn Nyfed) yn gallu bodloni'r dosraniad ar y cyd gofynnol mewn unrhyw flwyddyn a osodwyd ar y cyd ar gyfer cyn awdurdodau Dyfed. Mae'r awdurdod eisoes yn cyfrannu cyfran sylweddol o'r tywod a graean a gyflenwir o fewn ardal Dyfed, a dyma'r unig awdurdod o fewn y grŵp sydd â safleoedd ychwanegol wedi'u neilltuo yn ei Gynllun Datblygu Lleol.

Ar ddiwedd 2014 (data diweddaraf sydd ar gael), roedd cronfeydd wrth gefn a ganiateir Ceredigion o agregau creigiau mâl a chronfeydd wrth gefn wedi'u caniatáu a'u neilltuo yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r lefelau sydd eu hangen i fodloni gofynion banc tir MTAN1. Ni wyddys am unrhyw beth yn 2015 i newid y sefyllfa honno, felly nid oes angen newid y Polisiâu Mwynau yn y CDLI na neilltuo unrhyw safleoedd pellach ar gyfer tywod a graean a gloddir o'r tir er mwyn darparu'r banc tir gofynnol.

5. Fframwaith Monitro Dangosyddion AAS/AG

- 5.1 Mae monitro'r CDLI hefyd yn cyd-fynd â'r gofynion i fonitro perfformiad y cynllun o ran cynaliadwyedd trwy'r Asesiad Amgylcheddol Strategol / Arfarniad o Gynaliadwyedd (AAS/AG). Mae Adran 5 yn cynnwys monitro'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd am y cyfnod 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016. Mae dangosyddion wedi cael eu nodi i asesu perfformiad yr Amcanion Cynaliadwyedd. Bydd yr ysgogyddion sydd wedi'u cynnwys yn y drefn monitro yn rhoi arwydd cynnar o berfformiad y cynllun ac o bosibl pa mor eang y bydd yr adolygiad o'r cynllun.
- 5.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

Arwyddocâd perfformiad	Disgrifiad
+	Mae'r targedau'n cael eu cyflawni.
?	Nid oes modd dod i unrhyw gasgliad ar hyn o bryd.
0	Nid yw'r targedau wedi cael eu cyflawni ond nid oes pryderon ynghylch gweithrediad y polisi / polisïau.
-	Nid yw'r targedau'n cael eu cyflawni ac mae pryderon ynghylch gweithrediad y polisi / polisïau.

- 5.3 Mae'r fframwaith monitro'n cynnwys cyfeiriadau at sefydliadau eraill a chynlluniau a strategaethau eraill a all fod â dylanwad rhagweithiol ar weithrediad y polisïau.
- 5.4 Mae'r broses fonitro yn dibynnu ar ystod eang o wybodaeth ystadegol. Mae rhai amgylchiadau wedi arwain at newidiadau i'r Fframwaith Monitro gwreiddiol. Mae manylion am unrhyw newidiadau i'w gweld yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Amcan Cynaliadwyedd:		1a Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygiadau cyfredol a newydd.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Allyriadau blynyddol nwyon tŷ gwydr y fasedd (fesul sector).	Llywodraeth y DU https://www.gov.uk/government/statistics/	Fel sydd ar gael.	<p>Cofnodwyd yr allyriadau ddiwethaf yn 2013 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trydan Diwydiant a Masnach: 95.6 CO₂ (Kt) • Nwy Diwydiant a Masnach: 14.9 CO₂ (Kt) • Safleoedd Diwydiannol Mawr: 30.2 CO₂ (Kt) • Tanwyddau Eraill Diwydiant a Masnach: 37.1 CO₂ (Kt) • Llosgi Amaethyddol: 62.4 CO₂ (Kt) • Trydan Domestig: 78.3 CO₂ (Kt) • Nwy Domestig: 22.2 CO₂ (Kt) • Tanwyddau Eraill Domestig: 102.4 CO₂ (Kt) • Trafnidiaeth ar y Ffyrdd (Ffyrdd (Dosbarth) A): 87.4 CO₂ (Kt) 	?

			<ul style="list-style-type: none"> • Trafnidiaeth ar y Ffyrdd (Traffyrdd): 0 CO₂ (Kt) • Trafnidiaeth ar y Ffyrdd (Is-ffyrdd): 61.4 CO₂ (Kt) • Rheilffyrdd Diesel: 2.4 CO₂ (Kt) • Trafnidiaeth - Mathau Eraill: 1.5 CO₂ (Kt) • Allyriadau net LULUCF: -67.1 CO₂ (Kt) • Cyfanswm ar gyfer yr holl sectorau: 528.8 CO₂ (Kt) 	
Ôl troed ecolegol byd-eang Ceredigion.	<p>Llywodraeth Cymru https://statswales.wales.gov.uk</p> <p>Ôl troed Carbon ac Ecolegol Cymru, Diweddariad i 2011, Stockholm Environment Institute a GHD, Gorffennaf 2015</p>	Fel sydd ar gael.	<p>Mae'r ffigurau diweddaraf o 2015 yn dangos y canlynol:</p> <p>Ôl troed Ecolegol o 3.59 hectar byd-eang y pen (gha/c) (o'i gymharu ag Ôl troed Ecolegol Cymru o 3.28 (gha/c))</p>	0
Capasiti MW gosodedig ynni adnewyddadwy a gymeradwyir.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddoll.	<p>Mae ynni adnewyddwy a ganiateir yn hafal i 13.02MW. Gellir rhannu hyn i'r categorïau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwynt:3.35MW • Solar:8.80MW 	+

			<ul style="list-style-type: none"> • Biomaz/Anaerobig: 0.80MW • Dŵr: 0.6MW 	
Defnydd cyfartalog o <ul style="list-style-type: none"> i. Trydan Domestig Cyffredin, ii. Trydan Domestig Economy 7, a iii. Nwy Domestig. 	Neighbourhood Statistics http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/	Fel sydd ar gael.	Defnydd wedi'i gofnodi diwethaf yn 2011 fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • Defnydd Trydan Domestig Cyffredin: 92,371 MWh • Defnydd Trydan Domestig Economy 7: 73,135 MWh • Defnydd Nwy Domestig: 107,871 MWh • Cyfanswm Defnydd Trydan a Nwy Domestig: 273,377 MWh 	?
<p>Dadansoddiad</p> <p>Yn 2011 cyfanswm yr allyriadau tŷ gwyr blynyddol yng Ngheredigion oedd 666 CO₂ (Kt). Mae'r allyriadau a gofnodwyd diwethaf yn 2013 yn dangos gostyngiad o 20.6% yn yr allyriadau CO₂ (Kt) a ryddhawyd yng Ngheredigion. Er bod rhai sectorau wedi dangos cynnydd mewn allyriadau ers 2011 mae eraill wedi cynnal lleihad mewn allyriadau.</p> <p>Mae Ceredigion wedi lleihau ei hól troed ecolegol gan 1.1 (gha/c) ers iddo gael ei gofnodi diwethaf yn 2006. Bydd natur wledig Ceredigion yn parhau i effeithio ar ei hól troed ecolegol oherwydd ei natur wledig a chyfuniad o drafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig a dibyniaeth fawr ar drafnidiaeth breifat i gyrraedd gwasanaethau. Mae mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig ac felly mae mwy o ddibyniaeth ar drafnidiaeth breifat.</p>				

Y ffigur o 13.02MW ar gyfer capasiti ynni adnewyddadwy yw'r ffigur ar gyfer y cynlluniau hynny a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro. Bernir bod maint yr ynni a gynhyrchir yng Ngheredigion yn llawer mwy mewn gwirionedd na'r ffigur hwn oherwydd y technolegau hynny a ganiateir o dan hawliau datblygu a ganiateir. Mae Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn cael ei baratoi ar hyn o bryd yn fewnol i nodi cyfleoedd ar gyfer rhagor o gynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Bydd yr asesiad yn darparu Targedau Ynni Adnewyddadwy a Dyraniadau Ynni Adnewyddadwy posibl os gellir nodi safleoedd a allai ddarparu capasiti ar gyfer mwy na 5 megawat gosodedig. Bydd yr asesiad hwn yn llywio'r broses o adolygu'r CDLI.

Casgliadau

Mae Ceredigion yn darparu lefel o ynni adnewyddadwy sy'n helpu Cymru i gyrraedd ei tharged cenedlaethol o ran ynni adnewyddadwy, ac mae'n ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil.

Amcan Cynaliadwyedd:		1b Sicrhau mesurau digonol i addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint y datblygu preswyl newydd (unedau a chanran) a adeiledir i gyrraedd o leiaf Lefel 4 y Cod Cartrefi Cynaliadwy.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddoll.	Unedau: 0 Canran: 0%	?
Maint y datblygiadau masnachol neu berthnasol eraill (unedau a chyfran) 1,000m ² / 1 hectar neu fwy sy'n cyrraedd safon ardderchog BREEAM.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddoll.	Unedau: 0 Canran: 0%	?
<p>Dadansoddiad</p> <p>Cyn 2014 roedd cyflawni'r Cod ar gyfer Tai Cynaliadwy Lefel 4 a safon 'ardderchog' BREEAM yn uwch na gofynion cenedlaethol Lefel 3 (Anheddau) a 'da iawn' (Masnachol a datblygiadau perthnasol eraill).</p> <p>Ers 2014 nid yw'r Cod Cartrefi Cynaliadwy a safonau BREEAM yn berthnasol i ddatblygiadau newydd oherwydd datganoli Rheoliadau Adeiladu i Lywodraeth Cymru. Felly nid yw'n syndod nad yw unrhyw ddatblygiadau wedi cyrraedd o leiaf Lefel 4 y Cod ar gyfer Tai Cynaliadwy neu safon 'ardderchog' BREEAM yn ystod y cyfnod monitro hwn.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Adolygiad Cynaliadwyedd Rheoliadau Adeiladu ar hyn o bryd sy'n ystyried ymgorffori agweddau ar y Polisi Cynllunio Cenedlaethol Adeiladau Cynaliadwy yn y Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru. Disgwylir i ddogfennau cymeradwy a rheoliadau gael eu cyhoeddi a'u rhoi gerbron ym Medi 2016, felly dylai'r dangosydd hwn gael ei adolygu fel rhan o'r pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol ac yn dilyn cyflwyno'r newidiadau hyn.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Ni nodir unrhyw oblygiadau polisi ar gyfer y cyfnod monitro. Caiff y dangosydd hwn ei adolygu fel rhan o'r pedwerydd Adroddiad</p>				

Monitro Blynyddol i ymgorffori unrhyw newidiadau i'r rheoliadau perthnasol a ddisgwylir ym Medi 2016.

Amcan Cynaliadwyedd:		1c Lleihau'r perygl o lifogydd		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint y datblygu (unedau a hectarau) a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdiroedd C1 a C2 fel y'u diffinnir gan TAN 15.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddoll.	25 uned breswyl sy'n hafal i 0.29ha o dir wedi'u nodi fel tir a ganiateir o fewn parth llifogydd C2. 4 uned gwyliau wedi'u caniatáu hefyd ym mharth llifogydd C2. 42 uned breswyl (1.82 ha) wedi'u cymeradwyo ym mharth llifogydd C1.	0
Maint y datblygu preswyl newydd (unedau) a ganiateir gyda SDCau.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddoll.	118 Unedau wedi'u caniatáu gyda SDCau.	+
Maint y datblygu dibreswyl newydd (unedau) dros 500m ² a ganiateir gyda SDCau.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddoll.	2 Unedau ag arwynebedd llawr o 500m ² neu fwy gyda SDCau.	+
<p>Dadansoddiad Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys yr holl safleoedd sydd mewn parth llifogydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol. O ganlyniad, ychydig iawn o arwynebedd llawer y safleoedd fydd yn y parthau hyn.</p> <p>Roedd y mwyafrif o'r ceisiadau preswyl ym mharthau C1 a C2 wedi bodloni profion TAN 15. Nid oedd 2 gais preswyl ym mharth C2 wedi cyfiawnhau sut roedd profion TAN 15 wedi cael eu bodloni, fodd bynnag, nid oedd Cyfoeth Naturiol wedi eu gwrthwynebu.</p>				

Ym mis Ionawr 2016, mae safonau anstatudol Argymhellir ar gyfer SUDS yng Nghymru eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Bydd effaith y canllawiau hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r 4ydd AMB.

Casgliadau

Er nad yw unrhyw un o'r ceisiadau a gymeradwywyd ym mharth llifogydd C2 wedi bodloni profion TAN 15, ni wrthwynebodd Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw un ohonynt. Mae'r penderfyniadau wedi cael eu seilio ar wybodaeth a gafwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a lle'r oedd yn briodol mae amodau wedi cael eu gosod i sicrhau diogelwch y preswylwyr.

Amcan Cynaliadwyedd: 2a Lleihau halogiad a diogelu ansawdd a maint y pridd.				
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddoll.	Ers dechrau cyfnod y CDLI, mae'r ganran ganlynol o'r ceisiadau a ganiatawyd wedi bod ar dir llwyd: 23.9% (84.1ha)	+
Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddoll.	Ers dechrau cyfnod y CDLI, mae'r ganran ganlynol o'r datblygiadau a gwblhawyd wedi bod ar dir llwyd: 24.8% (34.2ha)	+
Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd datblygu a neilltuwyd yn y cynllun.	Cyngor Sir Ceredigion (Adroddiad Monitro Blynyddol Dangosydd H13)	Yn flynyddoll.	23 uned yr hectar yw dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI 23 uned yr hectar yw dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI ar safleoedd a neilltuwyd yn y	+

			CDLI.	
<p>Dadansoddiad Gan mai sir wledig yw Ceredigion ac nid oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu, mae'n anochel y bydd tir glas yn cyfrannu cyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu. Fodd bynnag, mae canran o dir llwyd wedi cael ei ddatblygu bob blwyddyn ers mabwysiadu'r cynllun. Mae dangosydd AMRH09 yn gosod targed o 5% ar gyfer datblygiadau preswyl ar dir a ddatblygwyd o'r blaen. Mae'r dangosydd hwn yn dangos bod mwy na 20% o ddatblygiadau'n cael eu sicrhau a'u cyflenwi ar dir llwyd ar gyfer pob math o ddatblygiadau, ac mae hynny'n gadarnhaol. Mae dwysedd cyfartalog datblygiadau ar safleoedd a neilltuwyd y CDLI wedi cynyddu o 21 uned fesul hectar (2014-2015) i 23 uned fesul hectar y flwyddyn hon. Mae hwn yn gyson â dwysedd canllaw y CDLI ar gyfer safleoedd a neilltuwyd o 23 uned fesul hectar. (Gweler y dadansoddiad ar gyfer H13 am ragor o wybodaeth).</p>				
<p>Casgliadau Er mai ychydig o ddatblygiadau a fu ar dir llwyd, nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithrediad polisiâu'r CDLI gan eu bod yn hybu datblygu tir llwyd lle bo'n briodol.</p> <p>Mae dwysedd cyfartalog datblygiad ar safleoedd a neilltuwyd y CDLI (23 uned fesul hectar) yn gyson â dwysedd canllaw y CDLI o 23 uned fesul hectar. Nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad Polisi LU06 y CDLI: Dwysedd Tai.</p>				

Amcan Cynaliadwyedd: 2b Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion				
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Lefelau llygryddion aer allweddol (e.e. NO ₂ , PM ₁₀ , bensen, oson)	Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Cyngor Sir Ceredigion 2015	Yn flynyddoll.	<p>NO₂: Ni aethpwyd yn uwch na'r safon gymedrig flynyddol yn 2014 o 40µg/m³ mewn unrhyw un o'r lleoliadau monitro allweddol yng Ngheredigion. Cofnodwyd y cymedr misol uchaf o NO₂ yn Stryd Thespis Aberystwyth ar 39.5 µg/m³ sydd dal yn is na'r safon gymedrig flynyddol</p> <p>Mae crynodaau o NO₂ yn parhau i gydymffurfio â Chyfarwyddeb Epil Ansawdd Aer Ewropeaidd Cyntaf.</p> <p>PM₁₀ Ni wnaethpwyd unrhyw fonitro newydd o lygredd gronynnol yn 2014. Roedd y data blaenorol yn dangos bod y cymedr blynyddol</p>	0

			<p>rhwng 7 a 9µg/m³ mewn lleoliadau monitro strategol allweddol yn y tair prif dref yn y sir ac mewn lleoliad monitro gwledig. Mae hyn yn dangos bod lefelau llygredd gronynnol yn yr ardaloedd trefol pwysicaf yng Ngheredigion yn parhau i fod yn agos at y lefelau cefndirol.</p> <p>Benzene Lluniwyd safonau gorfodol (a dangosol hirdymor) ar gyfer bensen yng Ngheredigion yn 2014 yn yr holl leoliadau 'problemus' ac ymyl y ffordd sy'n berthnasol i gysylltiad cyhoeddus. Mae'r safon ddangosol fwy hirdymor o 3.25µg/m³ yn cael ei llunio hefyd gyda'r lleoliadau achosion gwaethaf ym mhrif drefi Ceredigion.</p>	
--	--	--	---	--

		<p>Ozone Mae'n debyg bod y safon 8 awr ddangosol ar gyfer oson wedi cael ei thorri mewn nifer o leoliadau mewn pentrefi yng Ngheredigion yn 2014 (ac yn y blynyddoedd blaenorol, yn enwedig y rhai lle y cafwyd haf twym iawn).</p> <p>Yn 2013, gyda'r haf gweddol oer a gwlyb, roedd y crynhoad cymedrig blynyddol o 52.661µg/m³ oddeutu 40% yn is na'r cymedr blynyddol mwyaf a welwyd yn 2003. Fodd bynnag, yn 2014 cynyddodd y crynadau oson cymedrig blynyddol i 68.78µg/m³, sef tua 70% o'r safon gymedrig 8 awr. Unwaith eto roedd haf 2014 yn dwym ac yn sych sy'n golygu bod mwy o oson ar lefel y ddaear wedi cael ei gynhyrchu.</p>	
--	--	--	--

Dadansoddiad

Roedd Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf yn nodi lefelau tebyg o lygryddion aer â'r flwyddyn hon, gan gydymffurfio â phob safon ar wahân i oson. Ni aethpwyd yn uwch nag unrhyw lefelau cymedrig ar gyfer NO₂, PM₁₀ neu bensen.

Oson yw'r unig lygrydd o'r rhai a gynhwysir yn y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol a all fod yn fwy problemus mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol. Oherwydd bod heulwen yn ysgogi'r adweithiau sy'n cynhyrchu oson, deallir pam y mae oson fel arfer yn fwy o broblem yn yr haf ac yn ne'r sir (yn hytrach nag yn y gogledd). Mae'r lefelau uchaf yn debygol o ddigwydd ar ddiwrnodau heulog, poeth ac mae'r lefelau'n codi yn ystod cyfnodau pan fo llawer o fygdarth ceir yn cael ei gynhyrchu, a phan fo'n gwasgaru'n araf. Hyn sy'n angenrheidiol er mwyn i'r adweithiau ffotocemegol rhagflaenol ddigwydd.

Casgliadau

Er bod y safon ar gyfer lefelau oson wedi cael ei thorri, ni ystyrir bod hyn wedi cael ei achosi gan bolisïau'r CDLI. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod safonau oson yn cael eu torri, ac y byddant yn dal i gael eu torri, a bod yr achosion hyn yn digwydd yn amlach yn ne'r Deyrnas Unedig ac mewn ardaloedd gwledig yn hytrach nag mewn dinasoedd a threfi mawr. Gallai cynhesu byd-eang waethygu'r broblem hon, gan gynyddu pryderon ynghylch llygredd oson o ran iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

Amcan Cynaliadwyedd:		2c Lleihau effeithiau gweddilliol defnydd tir ar ansawdd a maint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ansawdd dŵr ymdrochi	Cyfoeth Naturiol Cymru http://environment.data.gov.uk/waters/profiles/index.html	Yn flynyddoll.	Mae gan 14 o draethau a gafodd eu monitro yn 2015 safonau ansawdd fel a ganlyn: 1. Aberporth: Ardderchog 2. Aberystwyth Gogledd: Ardderchog 3. Aberystwyth De: Da 4. Y Borth: Ardderchog 5. Cilborth: Ardderchog 6. Clarach De: Da 7. Llangrannog: Ardderchog 8. Llanrhystud: Ardderchog 9. Mwnt: Ardderchog 10. Harbwr Ceinewydd: Ardderchog 11. Ceinewydd Gogledd: Digonol 12. Ceinewydd Traeth Gwyn: Ardderchog 13. Penbryn: Ardderchog 14. Tresaith: Ardderchog	+

Dadansoddiad

Mae ansawdd dŵr yn cael ei brofi 20 gwaith yn ystod y tymor ymdrochi o 15 Mai i 30 Medi bob blwyddyn. Caiff y samplau hyn eu dadansoddi yn ôl y safonau a bennir yn y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi Ewropeaidd. O'r 14 o draethau a aseswyd yn 2015 cafodd 11 (78.6%) eu dosbarthu fel 'Ardderchog', 2 (14.3%) yn 'Dda' ac 1 (7.1%) yn 'Ddigonol'. Ni ddosbarthwyd unrhyw draeth fel 'Gwael'.

Casgliadau

Bennir bod 92.9% o'r traethau a aseswyd yng Ngheredigion yn cyrraedd safonau gofynnol 'Ardderchog' neu 'Dda' y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi Ewropeaidd. Mae polisïau'r CDLI yn helpu i gefnogi hyn trwy geisio sicrhau nad yw datblygiadau'n llygru cyrff dŵr.

Amcan Cynaliadwyedd:		3a Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Cyfanswm tunelledd gwastraff trefol a pherfformiad yn ôl:</p> <p>Targedau Adennill Awdurdodau Lleol (LART) h.y. y lefelau gofynnol i'w cyrraedd wrth baratoi ar gyfer aildefnyddio neu ailgylchu/compostio (neu Dreulio Anaerobig) mewn perthynas â gwastraff trefol (fel canran). 52% yw'r targed ar hyn o bryd</p>	Dangosyddion Perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru WMT10 (CSC)	Yn flynyddoll.	<p>Cyfanswm y gwastraff trefol ar gyfer 2012/13 oedd 34,584.46 o dunelli ac ar gyfer 2013/14 y cyfanswm oedd 33,827.78 o dunelli, ac ar gyfer 2014 /15 roedd yn 34,102,56 o dunelli.</p> <p>Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 cynhyrchodd yr awdurdod 63.38 o wastraff trefol wedi'i baratoi i'w aildefnyddio, ei ailgylchu/gompostio (neu ei anfon ar gyfer Treulio Anaerobig), yn erbyn cynnydd yn y LART o 58%.</p> <p>Rhagorwyd ar y targed ym mhob chwarter: Ch1: 63.63% Ch2: 69.07% Ch3: 67.96%</p>	+

			Ch4 71.99%	
Perfformiad yn ôl targedau Lwfansau Tirlenwi h.y. terfynau lwfansau ar gyfer y tunelledd Gwastraff Trefol Pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi. Wedi'u pennu fel 11,635 o dunelli ar gyfer 2012/13, 11,140 o dunelli ar gyfer 2013/14 a 10,645 o dunelli ar gyfer 2014/15	<p>i. Llif Data Gwastraff</p> <p>ii. Adroddiad Cynllun Lwfansau Tirlenwi Cymru 2014/15, (Cyfoeth Naturiol Cymru, Hydref 2015) (Dyma'r data perfformiad a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar).</p> <p>iii. Dangosyddion Perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru WMT/0004a (CSC)</p>	Yn flynyddoll.	<p>Yn y flwyddyn ariannol 2015/16 anfonwyd 3202t o wastraff trefol prydadwy i safle tirlenwi (hafal i 31.54% o lwfans tirlenwi 2015/16 o 10,150t). (Ffynhonnell i.).</p> <p>Y ffigur a nodwyd ar gyfer 2014/15 yn Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd oedd 3063.51t (hafal i 28.79% o'r lwfans uwch y pryd hynny sef 10,645t). (Ffynhonnell i.).</p> <p>DS. Roedd y ffigurau uchod yn ffigurau dros dro ac fe'u nodwyd yn amodol ar ddilysiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Yn ôl CNC, Perfformiad Cynllun Lwfansau Tirlenwi Ceredigion ar gyfer 2014/15 oedd 2,919t mewn gwirionedd (hafal i 27.4% o'r lwfans 10,645t a</p>	+

			<p>ddefnyddiwyd). (Ffynhonnell (ii)). Nid yw ffigurau 2015/16 wedi cael eu dilysu eto.</p> <p>Cyfanswm maint (heb ei ddilysu) yr holl wastraff a gasglwyd gan yr awdurdod a anfonwyd i safle tirlenwi yn 2015/16 oedd 4,121.82t (Ffynhonnell iii.).</p> <p>Y ffigur (heb ei ddilysu) a nodwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd ar gyfer 2014/15 oedd 5249.03t. (Ffynhonnell iii.).</p> <p>Ffigur wedi'i ddilysu CNC ar gyfer 2014/15 yw 5,156.47t. (Ffynhonnell ii.)</p>	
Cyfanswm y gwastraff o gartrefi / gwastraff diwydiannol a masnachol a gaiff ei gynhyrchu / ailgylchu / anfon i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.	Gwastraff a Ddychwelwyd (Cyfoeth Naturiol Cymru) 2013 (data diweddaraf sydd ar gael).	Yn flynyddoll.	Yn anffodus nid yw'r data ar gyfer cyfanswm tunelli o wastraff cartrefi/diwydiannol a masnachol yn ôl tynged ar gael ar gyfer blwyddyn	+

		<p>ariannol 2015/16 nac ar gyfer blwyddyn galendr 2015. Fodd bynnag, mae data ar gael erbyn hyn ar gyfer blwyddyn galendr 2014.</p> <p>Y cyfanswm tunelli ar gyfer y flwyddyn galendr 2014 oedd 54,149.35t, ac o hynny anfonwyd 14,622.81t i safle tirlenwi (y cyfan y tu allan i'r Sir), ohono, trosglwyddwyd 12,004.62t, llosgwyd 6,473.3t ac anfonwyd 851.44t i'w drin. Ni wyddys tynged 148.48t. (Ffynhonnell i.).</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Y flwyddyn cyn y flwyddyn ddiwethaf adroddwyd bod yr awdurdod yn cyrraedd targedau LART a thargedau *gwyro o safleoedd tirlenwi ond nid oedd unrhyw le i fod yn hunanfodlon oherwydd roedd angen gwneud gwelliannau pellach os oedd yr awdurdod am barhau i gyrraedd neu ragori ar dargedau LART a Lwfansau Tirlenwi sy'n fwyfwy anodd eu cyrraedd, bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, a chyfrannu'n llawn at strategaeth wastraff uchelgeisiol Llywodraeth Cymru fel y'i nodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff a'r Cynlluniau Sector ategol (yn enwedig Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd).</p> <p>Y llynedd nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud ynghylch amrywio gwastraff (cymysg) gweddilliol o safleoedd tirlenwi, bod Ceredigion a Phowys yn parhau i gydweithio fel Partneriaeth Canol Cymru i ystyried atebion hirdymor ar gyfer gwastraff gweddilliol, ond yn y cyfamser Ceredigion, ynghyd â Sir Benfro, yw'r ddau awdurdod cyntaf i osod contractau o dan gytundeb</p>			

fframwaith gwastraff wedi'i redeg gan Gyngor Sir Penfro, gyda chymorth gan gwmni ymgynghori preifat, lle mae pob cyngor yng Nghymru yn gallu prynu gwasanaethau gwaredu gwastraff o un o saith cyflenwr, gan gynnwys dau gyflenwr o'r DU a phum cyflenwr sy'n allforio. O dan y contract a ddechreuodd ar 1 Mawrth 2015, caiff holl wastraff gweddilliol Ceredigion ei brosesu mewn safleoedd yn Llanbedr Pont Steffan a Phorthladd Penfro i symud deunyddiau y gellir eu hailgylchu, cyn cael eu rhwygo, eu bwndelu a'u lapio ym Mhorthladd Penfro i greu Tanwydd yn Deillio o Sbwriel, a gaiff ei gludo ar long i orsaf bŵer Ynni o Wastraff effeithlonrwydd uchel yn Sweden. Dechreuwyd anfon Tanwydd yn Deillio o Sbwriel Gweddilliol i'r orsaf bŵer yn Sweden yn 2015. Mae'r contract am 15 mlynedd gyda dewis i optio allan ar ôl 10 mlynedd. Mae'r cyfleuster yn rhagori ar y paramedrau sydd eu hangen er mwyn i'r datrysiad hwn gael ei ystyried yn weithrediad adennill gwastraff, yn hytrach na gweithrediad gwaredu gwastraff. Felly yn y dyfodol mae'r awdurdod yn hyderus y bydd pob targed gwyro o safleoedd tirlenwi yn cael eu cyrraedd ar gyfer cyfnod y CDLI a thu hwnt.

Fel y nodir yn Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf (a'r un blaenorol) mae'r holl wastraff bwyd sy'n cael ei wahanu yn y tarddle a gesglir gan yr awdurdod yng Ngheredigion (a chan Gyngor Sir Powys ym Mhowys) yn cael ei anfon i gyfleuster treulio anaerobig y tu allan i'r sir, sy'n cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant presennol yr awdurdod o ran cyrraedd targedau LART a thargedu gwyro o safleoedd tirlenwi. Nid yw'r sefyllfa hon yn debygol o newid yn y dyfodol agos gan nad yw'r contract yn dod i ben tan 2027.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16, roedd Ceredigion wedi parhau i ragori eto ar Darged Ailgylchu'r Awdurdod Lleol (LART). Cynyddodd y gwastraff trefol pydradwy a anfonir at safle tirlenwi ychydig, ond mae dal yn cyfrif am 31.54% yn unig o derfyn lwfans tirlenwi 2015/16 o 10,150t a osodwyd ar gyfer 2015/16 o dan y Cynllun Lwfans Tirlenwi. Cynyddodd yr awdurdod ei berfformiad ailgylchu yn sylweddol gan leihau maint y gwastraff y mae'n ei anfon i safle tirlenwi i ddim ond 4,212,821, er nad yw'r ffigur hwn wedi cael ei ddilysu eto gan CNC.

Roedd cyfanswm y gwastraff (Cartrefi, Diwydiannol a Masnachol) (h.y. yr holl wastraff a gynhyrchwyd yng Ngheredigion, nid dim ond y gwastraff y mae'r awdurdod wedi delio ag ef) yn uwch ar gyfer 2014 (54,149.35t) nag yr oedd ar gyfer 2013 (47,321.67t), ond roedd y swm a anfonwyd i safle tirlenwi yn is yn 2014 (14,622.81t) nag y bu ar gyfer 2013 (17,318.28t) sy'n galonogol, tra bo'r gwastraff a adenillwyd yn uwch (i fyny 13,802.39t yn 2013 i 20,048.7t yn 2014). Gyda'r contract ar gyfer anfon gwastraff gweddilliol Ceredigion i'w ailgylchu yn dechrau yn 2015 mae'n debygol y bydd y duedd hon yn parhau yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw le i fod yn hunanfodlon. Mae tîm rheoli gwastraff yr awdurdod wedi ymrwmo i gyrraedd targedau

sy'n fwyfwy heriol yn y dyfodol, ac wedi ymrwymo i yrru rheoli gwastraff ymhellach i fyny'r hierarchaeth gwastraff yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol 'Tuag at Ddim Gwastraff'. I'r diben hwnnw, trwy gydol y flwyddyn ariannol 2015/16 mae'r awdurdod wedi parhau i weithio ar adolygiad o'r Gwasanaethau Rheoli Gwastraff yn unol â'r Strategaeth Rheoli Gwastraff newydd a gafodd ei mabwysiadu yn Chwefror 2014. Ar adeg ysgrifennu (Mehefin 2016) mae'r gwaith hwn yn parhau.

Mae gan y tir a neilltuwyd o dan E0301 y capasiti i ddiwallu unrhyw angen rhagweladwy yn y dyfodol am gyfleuster trin gwastraff gweddilliol rhanbarthol i wasanaethu ardal Partneriaeth Canol Cymru, neu i fod yn rhan o ateb ehangach mwy hirdymor ar gyfer gwastraff gweddilliol i ardal Canol a Gorllewin Cymru. P'un a fydd safle E0301 byth yn cael ei ddewis fel safle cyfleuster gwastraff gweddilliol rhanbarthol neu beidio, dylai defnyddio safle E0301, neu argaeledd parhaus safle E0301, o'i ystyried ar y cyd ag unrhyw dir arall a allai fod ar gael ar gyfer cyfleusterau adennill adnoddau a gwastraff o dan bolisiau gwastraff esgeulus y CDLI, alluogi Ceredigion i ddarparu ar gyfer yr ystod lawn o seilwaith adennill adnoddau a gwastraff a allai fod ei angen, boed ar gyfer y gwastraff trefol mae'r awdurdod yn gyfrifol amdano neu wastraff masnachol a diwydiannol a reolir gan y sector preifat, i raddau digonol i gyrraedd neu ragori ar yr holl dargedau gwastraff yn awr ac yn y dyfodol agos.

** Mae cyfanswm y gwastraff o gartrefi/diwydiannol a masnachol yn cynnwys gwastraff trefol.

Casgliadau

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon am effaith y CDLI ar allu Ceredigion i gadw o fewn y Targedau Lwfansau Tirlenwi, neu fod yn uwch na'r Targedau Ailgylchu'r Awdurdod Lleol (LART)

Amcan Cynaliadwyedd:		3b Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith amgylcheddol gyfeillgar o ansawdd uchel.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr).	Cyngor Sir Ceredigion (Adroddiad Monitro Blynyddol Dangosydd Q06)	Yn flynyddoll.	Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr).	+
<p>Dadansoddiad</p> <p>Yn ystod proses y CDLI, nodwyd naw Canolfan Gwasanaethau fel rhai a gyfyngir ac sydd angen arian trwy raglen y Cynllun Rheoli Asedau. Mae trafodaethau â DCWW yn parhau. Mae Cynllun Rheoli Asedau DCWW (AMP) 6 yn rheoli gwelliannau dŵr a charthffosiaeth hyd nes a chan gynnwys 2020 newydd gael ei ddiweddarau. Mae'r AMP yn dangos lleihad mewn materion seilwaith eleni. Dim ond 4 Canolfan Gwasanaethau sydd wedi'u cyfyngu'n rhannol o'i gymharu â 6 yn 2015 a 9 yn 2014. Cyfeiriwch at AMRQ06 uchod am ragor o fanylion.</p> <p>O'r pedair canolfan gwasanaethau a gafodd eu cyfyngu'n rhannol, nodir y canlynol:</p> <p>Nid oes unrhyw gapasiti gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llwyncelyn i ddarparu ar gyfer twf pellach yn Llwyncelyn (heblaw datblygiadau gyda chaniatadau sy'n bodoli).</p> <p>Nid oes unrhyw gapasiti gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanrhystud i ddarparu ar gyfer y twf a gynigir yn Llan-non a Llanrhystud (heblaw datblygiadau gyda chaniatadau sy'n bodoli).</p> <p>Mae capasiti cyfyngedig i dderbyn cyfran y twf a gynigir ym Mhontarfynach ond nid y twf cyfan. Bydd astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chyllido gan ddatblygwr yn nodi'r capasiti sydd ar gael.</p>				

Bydd y tri safle Gwaith Trin Dŵr Gwastraff a nodwyd fel rhai sydd â capasiti cyfyngedig yn ffurfio rhan o gyflwyniad Dŵr Cymru i reoleiddwyr diwydiant ar gyfer AMP7 (2020-2025). Cyn buddsoddiad rheoleiddiol gall datblygiad ddigwydd yn y tymor byr os yw datblygwyr yn cyllido gwelliannau eu hunain.

Casgliadau

Mae'r ymgysylltu â DCWW yn gadarnhaol. Ers dechrau cyfnod y cynllun mae nifer y canolfannau gwasanaethau a gyfyngir yn rhannol wedi lleihau o 9 i 4, ac fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLI bydd hyfywedd safleoedd presennol a neilltuwyd (gan gynnwys yr ystyriaeth o gyfyngiadau seilwaith) a nodwyd yn ystod y cyfnod monitro yn cael eu hystyried yn fwy manwl.

Amcan Cynaliadwyedd:		4a Gwerthfawrogi, cadw a gwella bioamrywiaeth.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>% y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol neu anhysbys ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Warchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth; • Cysylltedd ecolegol; • Coed, gwrychoedd a choetiroedd â gwerth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynderol; neu • Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol. 	Cyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru	Yn flynyddoll.	O'r 549 o geisiadau a ganiatawyd (heblaw hysbysebion), tybiwyd y gallai 523 ohonynt fod yn berthnasol i ecoleg. O'r 523 hwnnw, darparwyd ymgynghoriad ac ymateb ecolegol dilynol ar gyfer 227 o'r ceisiadau hynny. Nododd hyn a oedd disgwyl unrhyw effeithiau gweddilliol hirdymor arwyddocaol ar ôl lliniaru, digolledu ac ati. Nododd tri o'r ymatebion effeithiau sylweddol/anhysbys (1.3%) eto cawsant eu cymeradwyo a chafodd 10 cais (4.4%) eu cymeradwyo, cyn i ymateb gael ei wneud a allai fod wedi arwain at effeithiau negyddol sylweddol. Yn ogystal, er na thybiwyd y byddai unrhyw effeithiau	-

			<p>sylweddol gan y 213 o'r ceisiadau a gymeradwywyd, nid oedd yr Hysbysiad o Benderfyniad ar gyfer bron 11.5% o'r 227 o geisiadau a gymeradwywyd yn cynnwys pob un neu rai o'r amodau a gynigiwyd gan yr ecolegydd er mwyn lleihau'r effeithiau. Felly mae'n bosibl bod yr 11.5% hyn wedi cael effaith sylweddol yn absenoldeb yr amodau gofynnol, ac felly 17.2% yw cyfanswm canran y ceisiadau a allai gael effaith weddilliol hirdymor sylweddol, mewn gwirionedd.</p>	
<p>Canran y ceisiadau lle mae gwelliannau sy'n ymwneud â'r isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bioamrywiaeth (gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth); • Cysylltedd ecolegol; • Coed, gwrychoedd a 	<p>Cyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru</p>	<p>Yn flynyddoll.</p>	<p>Dim ond 52% o'r ceisiadau perthnasol a ganiatawyd sydd wedi ymgorffori rhyw fath o welliant fel un o'r amodau. Nid yw ceisiadau lle nad yw gwelliant yn berthnasol, e.e. blychau BT, neu lle mae modd darparu gwelliannau mewn</p>	<p>0</p>

<p>choetiroedd; neu</p> <ul style="list-style-type: none"> Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol 			<p>Materion a Gadwyd yn Ôl, wedi cael eu cyfrif.</p>	
<p>Colled cynefin â blaenoriaeth (hectarau) oherwydd datblygu newydd.</p>	<p>Cyngor Sir Ceredigion</p>	<p>Yn flynyddoll.</p>	<p>O'r 26 (11.5%) o geisiadau a allai fod wedi cael effaith negyddol sylweddol yn dilyn hepgor amodau, mae 7 ohonynt yn debygol o arwain neu gallent arwain at golled net o gynefinoedd â blaenoriaeth. Mae hyn yn cynnwys safleoedd lle na chafodd y gwrychoedd eu diogelu. Roedd 4 cais hefyd a gafodd eu cymeradwyo cyn ymateb ecolegol (naill ai oherwydd na ymgynghorwyd arnynt neu oherwydd bod y tîm ecoleg yn aros am arolygon), felly ni wyddys effeithiau'r rhain. At hynny, nid yw maint y golled yn hysbys mewn perthynas â'r 57% o geisiadau a gymeradwywyd (ac eithrio hysbysebion a cheisiadau amherthnasol eraill) gan na chafwyd/cheisiwyd</p>	

			unrhyw ymateb gan Ecolegydd y Cyngor.	
Colled safleoedd (hectarau) sy'n bodloni meini prawf safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth natur oherwydd datblygu newydd.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddoll.	<p>Fel y nodwyd eisoes, cymeradwywyd 26 (11.5%) o'r ceisiadau a gymeradwywyd gyda'r rhagdybiaeth nad oedd unrhyw effeithiau sylweddol wedi cael eu rhagweld mewn ymateb ecolegol, ond bod angen gosod amodau er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw effaith sylweddol. Fel y nodwyd cafodd yr amodau hyn (am ba reswm bynnag) eu hepgor o'r Hysbysiad o Benderfyniad terfynol.</p> <p>Mae hyn wedi arwain at golled bosibl o gynefin Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth natur o fewn 3 o'r ceisiadau hynny, a 3 arall lle na ymgynghorwyd â'r tîm ecoleg/ni chafwyd ymateb ganddynt oherwydd eu bod yn aros</p>	-

			am arolygon.	
<p>Dadansoddiad</p> <p>O'r ceisiadau lle mae ecolegwyr yn ymateb, nid yw ceisiadau lle rhagwelir effeithiau sylweddol, neu lle maent yn anhysbys, yn cael eu cymeradwyo yn gyffredinol, ac felly ymddengys fod yna lwyddiant da o ran diogelu bioamrywiaeth. Fodd bynnag, yn achos 11.5% o'r ceisiadau a gymeradwywyd lle roedd Ecolegydd y Cyngor wedi rhagweld na fyddai unrhyw effaith sylweddol (ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu cynnwys gyda'r caniatâd cynllunio) nid oedd yr amodau perthnasol wedi'u cynnwys, naill ai'n rhannol neu'n llawn. Mae hwn yn gam am nôl yn anffodus ers y llynedd, ac mae'n debygol o fod wedi'i achosi gan drosiant staff uwch yn ystod 2015/16. Mae trafodaethau pellach eisoes wedi cael eu cynnal dros y misoedd diwethaf ac mae gwelliannau eraill wedi cael eu gwneud a ddylai olygu ein bod o fewn y 5% erbyn 2016/17. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw fewnbwn ecolegol o gwbl yn achos 57% o'r ceisiadau a gymeradwywyd (heb gynnwys hysbysebion) ac felly ni wyddys beth yw effeithiau'r datblygiadau hynny. Rhaid cael trafodaethau ar y ffordd orau o ystyried y rhain er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol mewn mannau eraill.</p> <p>Gan fod yr effeithiau tebygol yn ymwneud â rhywogaethau a warchodir yn bennaf, mae'r effeithiau ar gynefinoedd â blaenoriaeth yn llawer llai, gydag effeithiau hysbys yn ymwneud ag 11 o geisiadau (gwrychoedd yn bennaf). Roedd 6 chais hefyd wedi'u cymeradwyo lle na wyddys a fyddant yn cael effaith ar gynefinoedd sy'n bodloni meini prawf Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth natur.</p> <p>Mae cynnwys gwelliannau o fewn ceisiadau a gymeradwywyd yn 52% yn unig (er bod hynny'n gynydd o 20% ers y flwyddyn ddiwethaf). Mae hyn yn un o ofynion polisïau DM06, DM14, DM15, DM20 a DM22. Felly mae hyn yn ganlyniad negyddol sylweddol yn erbyn y dangosydd hwn gan nad yw rhan o'r amcan yn cael ei chyflawni'n ddigonol.</p> <p>Casgliadau</p> <p>Mae rhan o'r amcan yn cael ei chyflawni trwy werthfawrogi a diogelu bioamrywiaeth yn y rhan fwyaf o achosion er bod yna bryderon ynghylch y ffaith nad yw amodau a argymhellir gan Ecolegydd y Cyngor yn cael eu cynnwys mewn hysbysiadau o benderfyniad.</p> <p>Nid yw rhan o'r amcan yn cael ei chyflawni'n ddigonol ac felly bydd angen mynd i'r afael â hyn (gweler Amcan AMRQ04 yr Adroddiad Monitro Blynyddol).</p>				

Amcan Cynaliadwyedd:		5a 5a Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth a hynodedd lleol, a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint y datblygu (hectarau, unedau a chanran) a ganiateir ac a gwblheir o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddoll.	<p>Rhwng 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016</p> <p>Datblygu Preswyl a Ganiatawyd: Hectarau: 9.7 (34.3%) Unedau: 119 (41%)</p> <p>Datblygu Preswyl a Gwblhawyd: Hectarau: 0.3 (2.8%) Unedau: 24 (11.1%)</p> <p>Datblygu Amhreswyl a Ganiatawyd: Hectarau: 5.0 (70.9%) Unedau: 10 (32.3%)</p> <p>Datblygu Amhreswyl a Gwblhawyd: Hectarau: 0.3 (28.7%) Unedau: 7 (31.8%)</p>	+

<p>Maint y datblygu (hectarau, unedau a chanran) a ganiateir ac a gwblheir mewn Ardal Agwedd Weledol a Synhwyrdd LANDMAP gydag arfarniad cyffredinol o Eithriadol.</p>	<p>Cyngor Sir Ceredigion</p>	<p>Yn flynyddoll.</p>	<p>Rhwng 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016:</p> <p>Datblygu Preswyl a Ganiatawyd: Hectarau 24.4 (86.4%) Unedau: 272 (93.8%)</p> <p>Datblygu Preswyl a Gwblhawyd: Hectarau: 6.6 (65.9%) Unedau: 156 (72.2%)</p> <p>Datblygu Amhreswyl a Ganiatawyd: Hectarau: 7.1 (100%) Unedau: 29 (93.5%)</p> <p>Non-residential Development Completed: Hectarau: 0.6 (54.1%) Unedau: 15 (68.2%)</p>	<p style="text-align: center;">+</p>
<p>Dadansoddiad Mae gan Geredigion dirwedd gyfoethog ac amrywiol a werthfawrogrir yn fawr. O ganlyniad, barnwyd bod oddeutu 45% o'i harwynebedd tir o ansawdd digon uchel i gael ei ddynodi fel rhan o Ardaloedd Tirwedd Arbennig, y mae tair ar ddeg ohonynt. Hefyd dynodwyd bod oddeutu 15% o'i thir o werth Eithriadol yn ôl Pennod Fethodolegol Weledol a Synhwyrdd LANDMAP, sy'n golygu ei fod o bwysigrwydd cenedlaethol neu hyd yn oed rhyngwladol.</p> <p>Dylid nodi nad yw'r dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig na'r arfarniadau eithriadol LANDMAP yn atal datblygu, o angenrheidrwydd,</p>				

ac na fydd llawer o fathau o ddatblygu'n cael unrhyw effaith ar y dirwedd. Dylid hefyd nodi, lle ceir datblygu mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig a thirweddau eraill a werthfawrogir yn fawr, gellir defnyddio polisïau'r CDLI i fynnu ansawdd gwell o ran dylunio a thirwedd.

Mae dadansoddiad o'r ceisiadau cynllunio llawn a materion a gadwyd yn ôl perthnasol yn dangos yn nhermau hectarau bod y mwyafrif (58.9%) o'r caniatadau preswyl o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn Ardal 7: Dyffryn Teifi. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod y dyffryn hwn nid yn unig yn un o Ardaloedd Tirwedd Arbennig mwyaf Ceredigion, ond dyma'r ardal fwyaf poblog hefyd, gan ei bod yn cynnwys tair Canolfan Gwasanaethau (Adpar, Tregaron a Chenarth). Yn ystod y cyfnod monitro, cymeradwywyd dau ddatblygiad preswyl maint canolig yn yr Ardal Tirwedd Arbennig, un yng Nghenarth, ac un ar ymyl Llanbedr Pont Steffan. Lleolir bron chwarter (23.8% 5 uned) o'r caniatadau llawn a materion a gadwyd yn ôl o fewn Ardal 5: Ucheldiroedd Gogledd Ceredigion. Mae'r caniatadau eraill wedi'u rhannu rhwng pedair Ardal Tirwedd Arbennig arall. O ran datblygu amhreswyl a ganiatawyd (ceisiadau llawn a materion a gadwyd yn ôl), mae'r arwynebedd tir a ddatblygir yn llai ac wedi'i wasgaru'n fwy cyfartal rhwng pump o'r tair ar ddeg o Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Fodd bynnag Ardal 7: Dyffryn Teifi sydd â'r mwyafrif (tua 61.4%) oherwydd y datblygu sy'n creu llety gwyliau. O gofio dosbarthiad a maint bach y datblygiadau yn yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig, felly, mae'n glir bod effeithiau negyddol sylweddol ar eu cymeriad yn annhebygol.

Casgliadau

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon am effeithiau'r CDLI ar dirweddau Ceredigion a werthfawrogir fwyaf.

Amcan Cynaliadwyedd:		6a Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg newidiol yn cael eu hadlewyrchu; a		
		6b Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer y tai fforddiadwy (unedau a chanran) a ganiateir ac a gwblheir o dan bolisi cynllunio Cartrefi Fforddiadwy Cyngor Sir Ceredigion.	Cyngor Sir Ceredigion (Adroddiad Monitro Blynyddol Dangosydd H10 a H11).	Yn flynyddoll.	Ers mabwysiadu'r CDLI, ymrwymwyd i'r tai fforddiadwy canlynol: A ganiatawyd: 823 (234.2%) A gwblhawyd: 382 (21.7%)	+
Nifer y 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd pentref, ysgol gynradd) mewn Canolfan Gwasanaethau.	Cyngor Sir Ceredigion (Adroddiad Monitro Blynyddol Dangosydd E06).	Yn flynyddoll.	Gweler Atodiad 9.	+
Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yn y 30% mwyaf amddifad.	Llywodraeth Cymru https://statswales.wales.gov.uk	Yn flynyddoll.	Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) (2015), nodwyd bod 3 o'r 46 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (6.5%) o fewn y 30% o ardaloedd mwyaf amddifad, sef Aberystwyth Penparcau 1	?

			(W01000515), Aberteifi/Cardigan - Rhyd- y-Fuwch (W01000510) ac Aberteifi/Cardigan - Teifi (W01000511).	
Troseddau hysbysadwy a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl math.	Ystadegau Cymdogaethau http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/	Fel sydd ar gael.	Nid yw ystadegau ar gyfer troseddau hysbysadwy am y flwyddyn 2015 - 2016 ar gael. Y ffigurau diweddaraf ar gyfer Ebrill 2012 - Mawrth 2013 yw: <ul style="list-style-type: none"> • Trais gydag anaf (Troseddau): 261 • Trais heb anaf (yn cynnwys Aflonyddu ac Ymosod) (Troseddau): 171 • Lladrad (Troseddau): 6 • Dwyn oddi ar y person (Troseddau): 5 • Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol (Troseddau): 434 • Byrgleriaeth o annedd (Troseddau): 56 • Byrgleriaeth heb fod o annedd (Troseddau): 90 • Troseddau Cerbyd (yn 	?

		<p>cynnwys Dwyn cerbydau a Dwyn o gerbydau) (Troseddau): 96</p> <ul style="list-style-type: none"> • Troseddau Cyffuriau (Troseddau): 440 • Troseddau Rhywiol (Troseddau): 47 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>O ran Tai Fforddiadwy a ganiatawyd ac a gwblhawyd, mae'r ganran yn rhesymol o agos at y targed ar gyfer tai a ganiatawyd/gwblhawyd. Gweler Dangosydd Adroddiad Monitro Blynyddol H10 am ragor o fanylion.</p> <p>O ran gwasanaethau a chyfleusterau mewn Canolfannau Gwasanaethau, ni fu llawer o amrywiad yn nifer y gwasanaethau a chyfleusterau allweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a gan mai ers mis Ebrill 2013 mae'r CDLI wedi bod yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r strategaeth hon yn cael effaith ar eu cadw neu eu gwella. Gweler Dangosydd Adroddiad Monitro Blynyddol E06 am ragor o fanylion.</p> <p>Mewn perthynas â nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 30% mwyaf amddifad, roedd 3 ardal (6.5%) yng Ngheredigion. Ni ystyrir bod y mân newid hwn mewn amddifadedd yn arwyddocaol.</p> <p>O ran troseddau hysbysadwy a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl math, ni chafodd unrhyw ddiweddariad i'r data hwn ac felly bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer monitro yn y dyfodol.</p>			
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn awgrymu bod canran y tai fforddiadwy a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol y Sir mewn ffordd sy'n ymateb i amrywiaeth o anghenion trwy alluogi pobl leol y mae angen tai fforddiadwy arnynt i gael tai yn y sectorau tai preifat a chymdeithasol.</p> <p>Ni fu llawer o amrywiad ers mabwysiadu'r cynllun yn nifer y gwasanaethau a chyfleusterau allweddol yng Nghanolffannau Gwasanaethau Gwledig a'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is amddifad, ac ni chafwyd unrhyw wybodaeth newydd ar</p>			

droseddau i'w ystyried yn y cyfnod monitro hwn.

Ni all yr Adroddiad Monitro Blynyddol ddod i unrhyw gasgliadau pwysig ynghylch effeithiau'r CDLI ar hyn o bryd mewn perthynas â'r amcan i adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol, ond bydd yn parhau i fonitro yn erbyn yr amcan hwn.

Amcan Cynaliadwyedd: 7a Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach.				
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Canran yr anheddau o fewn pellter cerdded/beicio cytunedig (400m) o wasanaethau iechyd allweddol.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddoll.	Canran yr anheddau o fewn pellter cerdded/beicio cytunedig (400m) o wasanaethau iechyd allweddol: 10.6%	?
Canran yr anheddau newydd sydd o fewn 300m i'r man gwyrdd naturiol agosaf.	Cyngor Sir Ceredigion.	Fel sydd ar gael.	Mae pob annedd newydd o fewn 300m o'r man gwyrdd naturiol agosaf yn ôl data Cyfoeth Naturiol Cymru ar 'fannau gwyrdd naturiol sydd o bosibl yn hygyrch'.	+
Maint y cyfleusterau mannau agored newydd (hectarau) a ddarperir.	Cyngor Sir Ceredigion (Adroddiad Monitro Blynyddol Dangosydd Q01 a Q03.	Yn flynyddoll.	Ennill 0.94 hectar o gyfleuster mannau agored ffurfiol yng Nghanolfan Gwasanaethau Trefol Aberystwyth.	+
<p>Dadansoddiad Mae llawer o'r ceisiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod monitro hwn yn ymwneud â safleoedd y rhoddwyd caniatâd amlinellol iddynt eisoes o dan y Cynllun Datblygu Unedol ac oherwydd hynny ni fu modd ei gwneud yn ofynnol i'r datblygiadau ddarparu mannau agored yn unol â Pholisi LU24.</p> <p>Cyfran yr anheddau sydd o fewn cyrraedd i brif wasanaethau iechyd yw 10.6%. Mae hyn oherwydd natur wledig y sir a dosbarthiad hanesyddol y boblogaeth. Gan nad yw'r dangosydd hwn wedi'i nodi o'r blaen bydd yn gweithredu fel gwaelodlin ar gyfer monitro yn y dyfodol. Gobeithir y bydd y canlyniadau'n gwella wrth i fwy o ganiatadau gael eu rhoi yn unol â strategaeth y CDLI i sicrhau</p>				

patrwm cynaliadwy o ddatblygu.

Oherwydd natur wledig Ceredigion, mae pob annedd o fewn 300 metr i fan gwyrdd naturiol yn ôl data Cyfoeth Naturiol Cymru ar 'fannau gwyrdd naturiol sydd o bosib yn hygyrch'. Mae angen mireinio'r wybodaeth am fannau gwyrdd naturiol gan Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn darparu ateb mwy manwl yng nghyfnodau cynlluniau yn y dyfodol.

Casgliadau

Mae'r data'n adlewyrchu'r ffaith bod llawer o'r ceisiadau a ddaeth i law yn ymwneud mewn rhyw ffordd â chaniatadau a roddwyd o dan y Cynllun Datblygu Unedol. Wrth i'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI gael eu datblygu, bydd maint y mannau agored newydd yn cynyddu.

Sustainability Objectives:		8a Hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylcheddol gyfeillgar, cyfleusterau hamdden a difyrrwch yng Ngheredigion.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Dyddiau twristiaid a nifer twristiaid fesul.</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Llety â Gwasanaeth, ii. Llety heb Wasanaeth, iii. Aros gyda chyfeillion neu berthnasau a iv. Ymwelwyr Dydd. 	<p>Cyngor Sir Ceredigion http://www.discoverceredigion.co.uk/English/footer/tradepartner/site/toursismreportstatistics/Pages/default.aspx</p>	<p>Fel sydd ar gael.</p>	<p>Mae'r wybodaeth isod ar gyfer y flwyddyn galendr 2014 a hon yw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 189,100 o bobl a arhosodd mewn Llety â Gwasanaeth • 936,700 a arhosodd mewn Llety heb Wasanaeth • 117,400 a arhosodd gyda chyfeillion neu berthnasau • 1.45 miliwn o ymwelwyr dydd 	<p>0</p>
<p>Dadansoddiad O'i gymharu â data blaenorol mae gostyngiad cyffredinol ar draws pob math o ymwelydd ac eithrio ymwelwyr sy'n aros gyda ffrindiau neu berthnasau a oedd yr un fath. Nid yw'r duedd hon yn unigryw i Geredigion ac mae'r sefyllfa yr un fath yn nifer o awdurdodau cyfagos Ceredigion.</p> <p>Mae nifer yr ymwelwyr dydd wedi codi gan 7.9%, sy'n gynnydd/welliant sylweddol ar yr hyn a welwyd dros y blynyddoedd</p>				

blaenorol. Yn ogystal, cynyddodd cyfanswm yr ymwelwyr gan 2.2%. Mae'r effaith economaidd wedi codi ychydig hefyd (0.1%). O'r herwydd, bernir nad yw'r Cynllun wedi cael llawer o effaith ar nifer y twristiaid ac mai niwtral yw'r newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn gyffredinol.

Dangosodd y ffigurau cymharol o Ganolbarth a De Cymru bod y sector heb wasanaeth (yn enwedig carafanau a gwersylla) wedi perfformio'n wael iawn yn 2013. Mae'r mwyafrif o'r gwelyau twristiaeth yn y math hwn o lety ac felly gall hyn gael effaith gryfach ar agweddau eraill ar economi twristiaeth Ceredigion.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cynnal arolwg o'r stoc gwelyau, a bydd y canlyniadau yn bwydo i mewn i ganlyniadau STEAM 2015. Gwneir gwaith dadansoddi pellach ar ôl cyhoeddi adroddiad STEAM y disgwylir iddo fod ar gael yn yr hydref 2016.

Casgliadau

Er y bu gostyngiad amlwg yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros, nid yw hyn i'w weld yn benodol i Geredigion. Bernir y bydd polisi'r CDLI sy'n cyfyngu ar ddatblygu safleoedd carafanau newydd ac ati o fudd i Geredigion yn y tymor hir trwy ei gwneud yn llai dibynnol ar un sector llety penodol. Ystyrir bod y gyfres o bolisiâu twristiaeth yn y CDLI yn cefnogi'r amcan.

Sustainability Objectives:		9a Cynyddu cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a % y bobl 16-64 oed sydd â chymwysterau NVQ.	NOMIS Official Labour Market Statistics https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157390/report.aspx#tabquals	Yn flynyddoll.	Ar gyfer y cyfnod Ionawr 2015 - Rhagfyr 2015 fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> NVQ4 ac uwch: 14,800(32%) NVQ3 ac uwch: 27,900(60.5%) NVQ2 ac uwch: 36,900(80%) NVQ1 ac uwch: 40,900 (88.7%) Cymwysterau eraill: 2,000 (4.3%) Dim cymwysterau: 3,300 (7.1%) 	?
Canran y bobl 16-24 oed sydd o fewn trothwyau amser teithio 30, 60, 90 munud o 'Ddarparwyr Dysgu' drwy <ol style="list-style-type: none"> gerdded trafnidiaeth gyhoeddus a car. 	Cyngor Sir Ceredigion	2011 - 13 and 2021 - 23	<ol style="list-style-type: none"> Cerdded <ul style="list-style-type: none"> 30 munud: 73% 60 munud: 3.9% 90 munud: 4.6% Over 90 munud: 18.4% Trafnidiaeth Gyhoeddus <ul style="list-style-type: none"> 30 munud: 82% 60 munud: 5.8% 90 munud: 1.5% 	+

			<ul style="list-style-type: none"> • Over 90 munud: 10.8% <p>iii. Car</p> <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 100% • 60 munud: 0% • 90 munud: 0% • Over 90 munud: 0% 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae pellteroedd cerdded i ddarparwyr dysgu wedi gwella ac mae'r pellter ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi gwaethygu mymryn. Gallai hyn fod wedi'i achosi gan newidiadau i lwybrau trafndiaeth gyhoeddus ac amllder gwasanaethau sydd y tu allan i reolaeth y CDLI. Mae strategaeth y CDLI yn parhau i hyrwyddo twf mewn lleoliadau cynaliadwy. Bydd newidiadau o ganlyniad i foderneiddio ysgolion yn cael eu hystyried yn yr Adolygiad o'r CDLI.</p> <p>Yng Ngheredigion mae'r nifer sy'n ennill cymwysterau NVQ wedi gostwng ychydig, fodd bynnag, mae'r nifer sy'n ennill cymwysterau eraill wedi cynyddu. Wrth gymharu cyfartaleddau Cymru mae gan 81.7% o boblogaeth Ceredigion gymhwyster NVQ Lefel 2 neu uwch o'i gymharu â'r cyfartaledd i Gymru sef 72.5% a dim ond 7.1% o boblogaeth Ceredigion sydd heb unrhyw gymwysterau ac mae'r cyfartaledd i Gymru yn 10.5%.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Nid oes unrhyw bryderon ynghylch Strategaeth y CDLI a pholisi o ran yr amcan.</p>				

Sustainability Objectives:		10a Hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a chanran y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl blwyddyn Cyfrifiad.	Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.ons.gov.uk/ons/index.html	2011 - 13 and 2021 - 23	31 Mawrth 2011: <ul style="list-style-type: none"> • Pawb 3 oed a hŷn: 73,847 • Pobl a all siarad Cymraeg: 34,964 • Pobl na allant siarad Cymraeg: 38,883 • Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg: 47% 	N/A
Canran y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl amcangyfrifon Arolwg Poblogaeth Blyneddol.	Llywodraeth Cymru https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure	Yn flynyddoll.	31 Mawrth 2016, pobl 3 oed a hŷn: <ul style="list-style-type: none"> • Pawb 3 oed a hŷn: 73,700 • Pobl a all siarad Cymraeg: 39,100 • Pobl na allant siarad Cymraeg: 33,000 • Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg: 53% 	?

<p>Nifer a chanran disgyblion Ceredigion sy'n siarad Cymraeg gartref.</p>	<p>Cyngor Sir Ceredigion Cyfrifiad Ysgolion</p>	<p>Yn flynyddoll.</p>	<p>Mae'r data ar gyfer blwyddyn academaidd 2015 - 2016:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn siarad Cymraeg gartref: 3,577 (37.1%) • Nid yw'n siarad Cymraeg gartref: 4,044 (41.9%) • Amherthnasol (ni all siarad Cymraeg): 1,933 (20%) 	<p>?</p>
<p>Nifer a chanran y disgyblion sy'n cael Asesiad Athro drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.</p>	<p>Llywodraeth Cymru https://statswales.gov.uk (Dangosyddion Strategol Cenedlaethol).</p>	<p>Yn flynyddoll.</p>	<p>Data ar gyfer y flwyddyn 2014/2015: Aseswyd 446 o ddisgyblion yn Gymraeg o gyfanswm o 664 o ddisgyblion (67.2%)</p>	<p>+</p>

Dadansoddiad

Mae nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg wedi gostwng trwy Gymru gyfan. Cynyddodd canran y siaradwyr Cymraeg rhwng 1981 a 2001 o 20.5% i 21.1%, ond gostyngodd wedi hynny rhwng 2001 a 2011 i 18.6%, sef gostyngiad o 1.74%. Yn ôl data'r Cyfrifiad gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer a chanran y bobl oedd yn honni y gallent siarad Cymraeg yng Ngheredigion, o ryw 38,000 (oddeutu 52%) yn 2001 i ryw 35,000 yn 2011 (oddeutu 47%). Pwysleisir bod y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru wedi bod yn fwyaf amlwg yng nghadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg, sef Ceredigion (5%), Sir Gaerfyrddin (6%) a Gwynedd (4%). O gofio'r twf a welwyd rhwng 1991 a 2001 mae'r fath newid yn nifer y siaradwyr yn arbennig o bryderus. Er yr ystyrir bod y Cyfrifiad yn darparu'r amcangyfrifon mwyaf dibynadwy ar gyfer y boblogaeth a'i chymeriad, nodir y dylid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau o'r data iaith, yn enwedig wrth ystyried yr ardaloedd lleiaf ac yn enwedig wrth ystyried y newidiadau bach perthynol dan sylw.

Mae amcangyfrifon yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi gostwng

y chydig eto dros y blynyddoedd diwethaf. Ym Mawrth 2016 roedd 53% o bobl yng Ngheredigion yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu i 53.6% (2014) a 54.3% (2013).

Mae data addysg o Gyfrifiad Ysgolion blynyddol Ceredigion yn 2015 yn dangos bod 37.1% o fyfyrwyr yn siarad Cymraeg gartref. Mae hyn yn cymharu i 38.3% (2014), 38.8% (2013) a 39.2% (2010). Yn 2015 nid oedd 20% o fyfyrwyr yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu i 18.6% (2014) a 16.4% (2013). Felly gellir dod i'r casgliad y bu newid arwyddocaol yn nifer y plant nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn ystod cyfnod y CDLI.

Mae'r Dangosydd Strategol Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn 2014/2015 yn dangos gwelliant cadarnhaol gyda 67.2% o ddisgyblion yn cael Aseiad Athro yn Gymraeg (iaith gyntaf). Mae hyn yn cymharu i 62.8% (2013/14) ac yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd i Gymru.

Mae cysylltu newid ieithyddol a chynllunio gofodol yn anodd iawn. Mae gwybodaeth o'r cyfrifiad yn cyn-ddyddio mabwysiadu'r CDLI yn 2013 ac ni ystyrir bod y gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion ers 2013 yn arwyddocaol yn wyneb y cyfnod byr y mae'r cynllun wedi bod yn ei le, ac nid oes modd dod i unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y CDLI ar y Gymraeg ar hyn o bryd.

Mae polisi DM01 y CDLI yn ei gwneud hi'n ofynnol i effaith datblygu ar y Gymraeg a'r Gymuned gael ei hasesu mewn rhai achosion. Er mwyn cefnogi gweithredu'r polisi hwn mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol ar 23 Mehefin 2015. Yn dilyn mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol mae'r Cyngor hefyd yn adrodd ar berfformiad gofynion Polisi DM01 ar gyfer CLIA yn Adroddiad Monitro'r Gymraeg blynyddol.

Nodir ymhellach bod Deddf Cynllunio (Cymru) (2015) a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cryfhau'r ystyriaeth o'r Gymraeg wrth gynllunio. Am y tro cyntaf erioed, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n orfodol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried effaith ei Gynllun Datblygu Lleol ar yr iaith Gymraeg trwy gynnal aseiad priodol fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y cynllun. Mae hefyd yn egluro y gallai effeithiau ar y Gymraeg gael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio os yw'n berthnasol i'r cais. Mae TAN 20 - Cynllunio a'r Gymraeg hefyd yn cael ei adolygu a chaiff ei gyflwyno yn ystod cyfnod monitro yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf. Bydd goblygiadau'r diwygiad hwn yn cael eu hystyried yn y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol a bydd yn llywio'r adolygiad o'r CDLI.

Casgliadau

Mae TAN 20 - Cynllunio a'r Gymraeg yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a chaiff ei gyflwyno yn ystod cyfnod monitro yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf. Bydd goblygiadau hyn yn llywio'r adolygiad o'r CDLI ac unrhyw newidiadau dilynol i Bolisi DM01. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro perfformiad polisi DM01, fodd bynnag, ni ellir ystyried effaith lawn y cynllun ar y Gymraeg tan y cyfrifiad nesaf.

Ni all yr Adroddiad Monitro Blynyddol ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch y Gymraeg tan y cyfrifiad nesaf pan fydd effaith y CDLI a ffactorau eraill yn cael eu dadansoddi.

Sustainability Objectives:		11a Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio; a 11b Gwella hygyrchedd at wasanaethau i gymunedau, a chysylltedd er budd yr economi.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Canran yr aelwydydd sydd o fewn trothwyau amser teithio 30, 60 a 90 munud o amwynderau, gan gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> i. archfarchnad, ii. swyddfa bost a iii. meddygfa a/neu ysbyty; <p>trwy gerdded, neu drwy ddefnyddio car neu drafnidiaeth gyhoeddus.</p>	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddoll.	<p>Archfarchnad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Car: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 99.94% • 60 munud: 0.05% • 90 munud: 0.01% • Mwy na 90 munud: 0% • Trafnidiaeth Gyhoeddus: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 67.34% • 60 munud: 13.05% • 90 munud: 1.64% • Mwy na 90 munud: 17.97% • Cerdded: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 36.80% • 60 munud: 8.61% • 90 munud: 11.84% • Mwy na 90 munud: 42.75% 	?


		<p>Swyddfa Bost</p> <ul style="list-style-type: none"> • Car: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 99.99% • 60 munud: 0% • 90 munud: 0% • Mwy na 90 munud: 0.01% • Trafnidiaeth Gyhoeddus: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 78.66% • 60 munud: 5.70% • 90 munud: 0.63% • Mwy na 90 munud: 15.01% • Cerdded: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 60.23% • 60 munud: 18.10% • 90 munud: 12.39% • Mwy na 90 munud: 9.23% <p>Meddygfa a/neu ysbyty</p> <ul style="list-style-type: none"> • Car: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 99.99% • 60 munud: 0% • 90 munud: 0% • Mwy na 90 munud: 0.01% 	
--	--	--	--

			<ul style="list-style-type: none"> • Trafnidiaeth Gyhoeddus: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 72.74% • 60 munud: 8.99% • 90 munud: 1.05% • Mwy na 90 munud: 17.22% • Cerdded: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 44.20% • 60 munud: 12.69% • 90 munud: 15.70% • Mwy na 90 munud: 27.41% 	
Maint y traffig ar y ffyrdd.	Llywodraeth Cymru https://statswales.wales.gov.uk	Yn flynyddoll.	Cofnodwyd maint y traffig ddiwethaf yn 2014 fel a ganlyn: 0.72 biliwn o gilometrau cerbydau.	?
Prif ddull o deithio i'r gwaith.	Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.ons.gov.uk/ons/index.html	2011 - 13 and 2021 - 23	31 Mawrth 2011: <ul style="list-style-type: none"> • Pob categori: Dull teithio i'r gwaith (amgen): 57,405 • Gweithio'n bennaf gartref neu o'r cartref: 6,780 (11.8%) • Trên tanddaearol, 	N/A

			<p>metro, tram, neu reilffordd ysgafn: 32 (0.1%)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trên: 125 (0.2%) • Bws, bws mini neu goets: 910 (1.6%) • Tacsî: 98 (0.2%) • Beic modur, moped neu sgwter: 148 (0.3%) • Teithiwr mewn car neu fan: 17,917 (31.2%) • Passenger in a car or van: 1,652 (2.9%) • Beic: 361 (0.6%) • Cerdded: 4,266 (7.4%) • Dull arall o deithio i'r gwaith: 157 (0.3%) • Ddim mewn cyflogaeth: 24,959 (43.5%) 	
Nifer y ceir neu faniau i bob aelwyd.	<p>Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.ons.gov.uk/ons/index.html</p>	2011 - 13 and 2021 - 23	<p>31 Mawrth 2011:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pob aelwyd: 31,562 • Aelwydydd heb unrhyw gar neu fan: 5,803 (18.4%) • Aelwydydd ag 1 car neu fan: 13,627 (43.2%) • Aelwydydd â 2 gar neu 	N/A

			fan: 8,677 (27.5%) <ul style="list-style-type: none"> • Aelwydydd â 3 char neu fan: 2,449 (7.8%) • Aelwydydd â 4 car neu fan neu fwy: 1,006 (3.2%) • Cyfanswm yr holl geir neu faniau: 42,905 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Nid oes modd canfod effaith datblygiadau preswyl newydd fel cyfran o'r stoc tai presennol ar draws y Sir o flwyddyn i flwyddyn, ac yn achos peth o'r data nid yw'n hawdd dirnad y berthynas rhwng amserau teithio a datblygiadau preswyl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd dadansoddi'r data dros gyfnod hwy yn cynnig rhyw arwydd ynghylch effeithiau'r CDLI.</p> <p>O ran amserau teithio i gyfleusterau allweddol, mae'r canlyniadau'n parhau heb eu newid ryw lawer ers mabwysiadu'r cynllun. Mae'r ganran dros 90 munud o gyfleusterau allweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi cynyddu oherwydd newidiadau yn y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus ac amllder gwasanaethau, fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn parhau i fod o fewn amser teithio 30 munud.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Ni all yr Adroddiad Monitro Blynyddol ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y CDLI ar hyn o bryd. Mae'n debygol y bydd y sefyllfa o 'ddim newid' o flwyddyn i flwyddyn yn parhau ac ni fydd modd nodi effeithiau sylweddol hyd nes y bydd mwy o ddatblygiad wedi digwydd. Dylai unrhyw newidiadau o bwys fod yn destun dadansoddiad o'r achosion posibl y tu hwnt i effaith y CDLI.</p>				

Sustainability Objectives:		12a Hybu economi fywiog ac amrywiol.		
Dangosyddion	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a chanran y bobl economaidd weithgar mewn cyflogaeth.	NOMIS - Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur https://www.nomisweb.co.uk/reports/imp/la/1946157390/printable.aspx	Yn flynyddoll.	Ebrill 2015 to March 2016: <ul style="list-style-type: none"> Economaidd Weithgar: 34,700(69%) Mewn cyflogaeth: 33,100(65.6%) Cyflogeion: 24,100(50%) Hunangyflogedig: 8,300 (14.6%) Di-waith (ar sail model): 1,600 (4.6%) 	+
Tâl wythnosol gros cymedrig ar gyfer preswylwyr yng Ngheredigion.	NOMIS - Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur https://www.nomisweb.co.uk/reports/imp/la/1946157390/printable.aspx	Yn flynyddoll.	Ebrill 2015 i Fawrth 2016: <ul style="list-style-type: none"> Gweithwyr amser llawn: £423.70 Gweithwyr amser llawn gwryw: £461.20 Gweithwyr amser llawn benyw: Amh (maint y sampl yn rhy fach i gael amcangyfrifiad dibynadwy). 	?
Nifer y cyflogeion fesul sector	Stats Wales:	Yn	Cyflogaeth yn y gweithle	+

<p>economaidd bras.</p>	<p>https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Whole-Workforce/WorkplaceEmployment-by-WelshLocalAreas-Industry</p>	<p>flynyddoll.</p>	<p>fesul diwydiant 2014 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota: 4,500 • Cynhyrchu: 2,300 • Adeiladu: 2,600 • Cyfanwerthu, manwerthu, cludiant, gwestai a bwyd: 9,300 • Gwybodaeth a chyfathrebu: 400 • Gweithgareddau ariannol ac yswiriant: 300 • Gweithgareddau eiddo tiriog: 600 • Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth: 2,700 • Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd: 12,600 	
-------------------------	--	--------------------	---	--

			<ul style="list-style-type: none"> Gweithgareddau gwasanaeth eraill: 2,200 Pob diwydiant: 37,500 	
Maint y datblygu economaidd a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau).	Cyngor Sir Ceredigion (Adroddiad Monitro Blynyddol Dangosydd E03).	Yn flynyddoll.	Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI: Unedau: 61 (52.6%) Arwynebedd: 21.01ha (71%)	+
Maint y datblygu economaidd a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau).	Cyngor Sir Ceredigion (Adroddiad Monitro Blynyddol Dangosydd E03).	Yn flynyddoll.	Maint y datblygu economaidd a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI: Unedau: 40 (54.8%) Arwynebedd: 3.68ha (36%)	+
Canran yr adeiladau sy'n wag yng nghanol trefi Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddoll.	Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Chwefror 2016: <ul style="list-style-type: none"> Aberaeron: 10.3% Aberteifi: 10.8% Aberystwyth: 4.3% Llanbedr Pont Steffan: 3.0% Llandysul: 11.9% Tregaron: 20.0% 	0

Fframwaith Monitro Dangosyddion AAS/AG

Canran y defnyddiau manwerthu ar ffrytiadau manwerthu cynradd.	Cyngor Sir Ceredigion (Adroddiad Monitro Blynyddol Dangosydd E07)	Yn flynyddoll.	Gweler canlyniadau Dangosydd E07 yr Adroddiad Monitro Blynyddol.	+
% of retail uses on secondary retail frontage.	Cyngor Sir Ceredigion (Adroddiad Monitro Blynyddol Dangosydd E07).	Yn flynyddoll.	Gweler canlyniadau Dangosydd E07 Adroddiad Monitro Blynyddol.	+
Nifer yr ymwelwyr yn Aberystwyth.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddoll.	<p>Nifer yr ymwelwyr a gofnodwyd ar ddydd Gwener 6 Tachwedd 2015, rhwng 10am a 5pm:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Stryd Fawr: 2044 • Sgwâr Owain Glyndwr: 1,232 • Sgwar Owain Glyndwr: 1012 • Ffordd y Môr (Gogledd): 1,892 • Ffordd y Môr (De): 1674 • Y Ffynnon Haearn: 1124 • Tŵr y Cloc - Stryd y Bont: 471 • Tŵr y Cloc - Y Stryd Fawr Uchaf: 437 • Y promenâd - heb ei gofnodi • Y Porth Bach Bach - 	?

		<p>heb ei gofnodi</p> <ul style="list-style-type: none"> • Heol y Wig - Heb ei gofnodi • Cyfanswm: 9886 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Er i'r dirwasgiad economaidd achosi i'r nifer mewn cyflogaeth ostwng o 69.6% yn 2010 i 61.3% yn 2011/2012, bu cynnydd graddol ers hynny yn nifer y bobl mewn cyflogaeth. Mae'r cyfnod monitro hwn yn dangos cynnydd yng nghanran y bobl sy'n economaidd weithgar mewn cyflogaeth i 69% i fyny o 67.2% (2015). Efallai fod canran y bobl economaidd weithgar mewn cyflogaeth yn ymddangos yn fach gan ei bod yn is na chyfartaledd Cymru (75.3%) a'r Deyrnas Unedig (77.8%) ond mae gan Geredigion boblogaeth gymharol fawr o fyfyrwyr sy'n cyfrannu at ganran sylweddol o'r unigolion hynny nad oeddent mewn cyflogaeth.</p> <p>Mae data Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y tâl wythnosol gros i gyflogeion amser llawn wedi codi oddeutu 2.8% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y cyfnod o 2007 i 2013 sy'n fwy na'r lefel gyffredinol yng Nghymru (oddeutu 2.4%) a'r Deyrnas Unedig (oddeutu 2.2%). Nid yw'r tâl wythnosol gros ar gyfer gweithwyr amser llawn wedi amrywio'n fawr ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu. At hynny, gan fod ffigurau Ceredigion yn deillio o ddata arolwg ar gyfer ardal fach, gall y newid flwyddyn ar ôl blwyddyn fod yn fwy o ganlyniad i amrywiadau'r sampl na thystiolaeth o newid go iawn mewn incwm. Er gwaethaf hynny, mae cyflogau yng Ngheredigion yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd i Gymru a'r DU, ac mae twf tybiedig hefyd yn is na chyfradd flynyddol gyfartalog chwyddiant ar gyfer y cyfnod hwn.</p> <p>Mae data ar gyflogaeth fesul sector economaidd ar gael ar gyfer 2014. Mae pob sector wedi gweld cynnydd yn nifer y swyddi fesul diwydiant ac eithrio gweithgareddau cyllid ac yswiriant a gweithgareddau gwasanaeth eraill. Mae cyfanswm cyflogaeth pob diwydiant wedi cynyddu i 37,500 o'i gymharu â 36,200 (2015) a 34,900 (2014).</p> <p>O ran datblygu'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI, erbyn hyn mae 71% o'u harwynebedd wedi'i ymrwymo ar gyfer datblygu, er mai dim ond 36% o'r unedau sydd wedi cael eu cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r unedau a gwblhawyd a gofnodwyd eu cwblhau cyn mabwysiadu'r CDLI gan fod llawer o'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI wedi cael eu dynodi er mwyn caniatáu ar gyfer ailddatblygu a/neu ad-drefnu eu defnyddiau presennol mewn modd cydgyssylltiedig. Mae hon yn sefyllfa foddhaol ar yr adeg hon yng nghyfnod y Cynllun.</p>			

Mae cyfraddau siopau gwag yn amrywio'n fawr rhwng canolfannau trefi. 7.6% yw cyfradd gyfartalog siopau gwag yng nghanol trefi Ceredigion. Mae'r ffigur hwn yn cymharu i 9.1% (2015) a 11.9% (2014). Mae hyn yn is na chyfartaledd siopau gwag y Deyrnas Unedig a oedd, yn ôl y Local Data Company (2014/5), yn 12.3% ym Mehefin 2015. Felly, ac eithrio Tregaron (20%) mae canol trefi eraill Ceredigion yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol ac, yn gyffredinol, mae'r sefyllfa'n gadarnhaol, yn enwedig gan fod gan Aberystwyth, sef canolfan siopa fwyaf Ceredigion o bell ffordd, gyfradd siopau gwag o 4.3% yn unig.

Mae ffryntiadau manwerthu cynradd ac eilaidd Ceredigion, sy'n bodoli yn Aberystwyth ac Aberteifi yn unig, hefyd yn rhoi darlun amrywiol. Yn Aberystwyth mae canran defnydd manwerthu yn y Ffryntiadau Cynradd yn amrywio o 57.1% i 88.9%, ac o 84.6% i 26.7% yn y Ffryntiadau Eilaidd. Yn Aberteifi canran defnydd manwerthu yn y Ffryntiadau Cynradd yw 76% ac mae ei Ffryntiadau Eilaidd yn amrywio rhwng 409% a 90.9%. Nod y CDLI yw cadw defnyddiau manwerthu yn bennaf yn y ffryntiadau hyn. 75% yw'r ganran a ddymunir yn y Ffryntiadau Cynradd. Fodd bynnag, mae'n ffaith fod llawer o ffryntiadau wedi cwmpo o dan y targedau hyn cyn i'r CDLI gael ei fabwysiadu, ac felly nid oedd modd defnyddio Polisi LU21 i atal y newidiadau hyn. Felly mae'n bwysig cynnal polisi cadarn ar geisiadau yn yr ardaloedd hyn, yn enwedig pan gynnigir newid defnydd i swyddogaeth heblaw manwerthu.

Mae arolygon ymwelwyr wedi cael eu cynnal yn Aberystwyth bob blwyddyn ers 2012. Nodir na chafodd pob lleoliad ei gofnodi'r flwyddyn hon, fodd bynnag, o'r lleoliadau a gafodd eu cofnodi cyfrifwyd nifer yr ymwelwyr tebyg i'r blynyddoedd blaenorol. Yn wyneb cyfnod cymharol fyr yr arolwg, nid oes modd dod i unrhyw gasgliadau o bwys ar hyn o bryd. Er gwaethaf hyn, disgwylir i'r dangosydd hwn fod yn fwy defnyddiol yn rhan olaf cyfnod y Cynllun, yn enwedig ar ôl datblygu prosiectau manwerthu mawr fel siopau arfaethedig Tesco a Marks & Spencer ar safle a neilltuwyd M0302 (Dan Dre).

Casgliadau

Mae yna arwyddion bod yr economi a'r farchnad swyddi'n gwella yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud ai tuedd hirdymor yw hon ac a oes cysylltiad achosol rhyngddi a gweithrediad y CDLI. Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y CDLI yn cael effaith negyddol ar yr economi leol ac felly, yng nghyd-destun yr AG/AAS, nid yw effaith gyffredinol y CDLI yn codi unrhyw bryderon ar hyn o bryd.

6. Casgliadau ac Argymhellion

- 6.1 Mae'r adran ganlynol yn amlinellu casgliadau'r trydydd Adroddiad Monitro a'r argymhellion yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

A yw'r strategaeth sylfaenol yn parhau'n gadarn?

- 6.2 Mae'r 'cyfeiriad teithio' tuag at dargedau'r strategaeth yn gadarnhaol, fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd er mwyn gallu cyflawni'r targedau a nodwyd erbyn diwedd cyfnod y cynllun.
- 6.3 Roedd y twf a gynlluniwyd yn y sector tai a'r economi yn seiliedig ar ddata poblogaeth ac aelwydydd a'r amcanestyniadau oedd ar gael adeg drafftio'r cynllun. Mae amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd dilynol seiliedig ar ddata 2011 yn dangos lefelau llawer is o dwf na'r hyn a ragwelwyd yn yr amcanestyniadau seiliedig ar ddata 2008 y mae gofyniad anheddau'r CDLI yn seiliedig arno. Roedd sesiynau olaf yr archwiliad o'r CDLI yn cydnabod bod yr amcanestyniadau wedi newid ac awgrymwyd y dylid bod yn ofalus i beidio â 'gorymateb' i'r amcanestyniadau newydd. Disgwylir cyhoeddi'r gyfres nesaf o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd (seiliedig ar ddata 2014) yn 2016/17, a bydd eu hamseriad yn cynnig modd eu hystyried fel rhan o'r adolygiad 4 blyneddol statudol o'r cynllun. Bydd rhaid i'r adolygiad o'r CDLI ystyried:
- Cadernid cyffredinol y Strategaeth a'r posibilrwydd ar gyfer ymestyn strategaeth y cynllun i'w chyflawni dros gyfnod hwy.
 - Amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd seiliedig ar ddata 2014 (disgwylir eu cyhoeddi yn hydref 2016) i sicrhau faint o dwf i'w gynllunio ar ei gyfer.
 - Maint, cyflenwad, lleoliad a datblygiad pob safle a neilltuwyd.
 - Statws aneddiadau.
 - Yr angen i ddiwygio rhai polisïau i gydymffurfio â pholisi a chanllawiau cenedlaethol newydd a'r rhai sy'n cael eu datblygu.
- 6.4 Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn cynnig modd ystyried y materion hyn yn briodol yn sgil tystiolaeth newydd gan gynnwys:
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Ceredigion (2016).
 - Astudiaeth Hyfywedd Tai Strategol wedi'i diweddaru.
 - Asesiad o Anghenion Economaidd wedi'i ddiweddaru.
 - Asesiad Ynni Adnewyddadwy.
 - Astudiaeth Capasiti Manwerthu Rhanbarthol.
 - Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddaru.
 - Adolygiad o Statws Canolfannau Gwasanaethau a Safleoedd a Neilltuwyd.
 - Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd seiliedig ar ddata 2014.

Pa effaith y mae'r polisïau yn ei chael yn fyd-eang, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol?

- 6.5 Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn nodi bod newid cadarnhaol yn yr amgylchedd yn gyffredinol, ac mae fframwaith monitro'r CDLI yn dangos bod y CDLI yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy.
- 6.6 Yn genedlaethol, mae fframwaith y CDLI yn llwyddo i fodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion ac anghenion cenedlaethol (er enghraifft, trwy hwyluso darparu cyfleoedd economaidd a thai fforddiadwy). Mae datblygu tai yn gyffredinol yn parhau'n isel gan adlewyrchu'r darlun yn genedlaethol. Mae pryderon nad oes modd cyrraedd targedau polisi cenedlaethol ar gyfer cyflenwi tir a thai fforddiadwy yn y cyd-destun gwledig yng Ngheredigion. Bydd datblygu tai yn cael ei adolygu a'i ystyried ar lefel genedlaethol trwy waith ymchwil sy'n cael ei wneud ac ar lefel leol yn yr asesiad hyfywedd strategol a'r adolygiad o safleoedd a neilltuwyd. Bydd y dystiolaeth newydd hon yn cael ei hystyried fel rhan o'r adolygiad 4 blynyddol statudol o'r cynllun.
- 6.7 Ers mabwysiadu'r cynllun, mae'r CDLI wedi helpu i gyflawni amcanion rhanbarthol. Er enghraifft, mae rôl Aberystwyth fel canolfan ranbarthol a chenedlaethol yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus trwy'r CDLI, sy'n gwireddu ymrwymïadau datblygu megis datblygiad defnydd cymysg Dan Dre. Y gobaith yw y bydd datblygiadau yn y dyfodol fel IBERS yn parhau i gynnal ei rôl ranbarthol.
- 6.8 Yn lleol, mae ymyrraeth bolisi a datblygu safleoedd a neilltuwyd yn cynorthwyo'r gwaith o adfywio ac yn diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd lleol. Er enghraifft, bydd rhoi caniatâd ar gyfer Safle a Neilltuwyd M0302: Maes Parcio Dan Dre ar gyfer manwerthu (gydag elfen breswyl) yn rhoi hwb i economi Aberystwyth ac yn cyfrannu at adfywio'r dref. At hynny, ers dechrau cyfnod y Cynllun, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer mwy na 750 o dai fforddiadwy ar draws y Sir. Mae hyn yn creu buddion cymdeithasol sylweddol, gan ddod â pherchentyaeth o fewn cyrraedd i lawer iawn o deuluoedd y byddent fel arall yn cael eu cau allan o'r farchnad.

A oes angen newid y polisiau i adlewyrchu newidiadau mewn polisi cenedlaethol?

- 6.9 Mae newidiadau deddfwriaethol arwyddocaol wedi cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro gan gynnwys Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Cynllunio, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol a Deddf yr Amgylchedd sy'n ffurfio'r sail ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd i Gymru.
- 6.10 Er y cydnabyddir bod deddfwriaeth newydd a pholisi cenedlaethol sy'n berthnasol i lunio'r cynllun wedi cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro, mae llawer o'r manylion gan gynnwys rhai Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) a diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru mewn ffurf ddrafft, a gallant newid. At hynny, rhagwelir y bydd dogfennau perthnasol eraill (gan gynnwys er enghraifft TAN 24 - Yr Amgylchedd Hanesyddol) yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Nid

yw Polisi a Deddfwriaeth Genedlaethol a gyflwynwyd eleni wedi arwain at unrhyw newidiadau sylweddol yng nghyd-destun y cynllun. O ganlyniad nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer camau gweithredu mewn perthynas â'r CDLI ar hyn o bryd.

- 6.11 Fodd bynnag, nodir y gall fod angen gwneud mân newidiadau yn y dyfodol i nifer o bolisiâu'r cynllun gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r Amgylchedd Adeiledig, y Gymraeg, Dylunio a Manwerthu yn dilyn y newidiadau i bolisi a chanllawiau cenedlaethol yn y dyfodol. Bydd y Cyngor yn y sefyllfa orau i ystyried unrhyw newidiadau gofynnol i'r CDLI yn dilyn cyflwyno diwygiadau arfaethedig ychwanegol i bolisi cenedlaethol a ddisgwyllir yn 2016-2017. Mae'r sefyllfa hon yn cyd-fynd ag amseriad y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol a'r angen statudol i adolygu'r cynllun.

A yw'r polisiâu a thargedau cysylltiedig wedi'u cyflawni neu a wneir cynnydd tuag at eu cyflawni (gan gynnwys cyhoeddi'r canllawiau cynllunio atodol)?

- 6.12 Mae casgliadau'r adroddiad monitro hwn yn dangos bod y mwyafrif o'r targedau dangosydd yn cael eu cyflawni neu nid ydynt yn achos o bryder. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi dangosyddion AMR lle nad yw'r targedau yn cael eu cyflawni ac mae pryderon ynghylch gweithrediad polisiâu. Disgrifir y polisiâu hyn ymhellach o dan y cwestiwn nesaf.

Dangosyddion	Polisiau	Perfformiad	Sylwadau
AMRH02 – Y Strategaeth Anheddu ledled y Sir	S01, S02, S03, S04.	-	Bu symudiadau cadarnhaol tuag at y targedau a nodwyd. Ar hyn o bryd nid yw cyfradd y cynnydd yn methu â chyflawni'r targedau a nodwyd ar gyfer y cyfnod monitro hwn gan 4 i 6% ac nid yw mor gyflym ag y rhagwelwyd i gyflawni'r targedau a nodwyd ledled y Sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Dylai'r adolygiad o'r CDLI ystyried y rhesymau am y diffyg datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau trwy gynnal adolygiad o safleoedd a neilltuwyd.
AMRH03 – Strategaeth Anheddu Grwpiau Aneddiadau	S01, S02, S03, S04.	-	Mae'r canlyniadau yn dangos bod nifer y Grwpiau Aneddiadau nad ydynt yn symud tuag at y balans gofynnol yn 7 sy'n rhoi sylw i'r casgliad o'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Mae symudiad cadarnhaol tuag at y targedau a nodwyd ers mabwysiadu'r cynllun yn amlwg, fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd er mwyn gallu cyflawni'r targedau a nodwyd ledled y Sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Felly bydd angen ymchwilio ymhellach i benderfyniadau wedi'u dirprwyo a heb eu dirprwyo ynghylch ceisiadau cynllunio yn ôl lleoliad i lywio'r adolygiad o'r CDLI.
AMRH04 – Strategaeth Anheddu - Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'	S01, S04	-	Mae symudiad cadarnhaol tuag at y targedau a nodwyd ers mabwysiadu'r cynllun yn amlwg, ond nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y disgwyliwyd er mwyn gallu cyflawni'r targedau a nodwyd ledled y Sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i weithredu polisi LU05 drwy beidio ag adnewyddu caniatadau mewn lleoliadau o'r fath a rhoi caniatadau byr os ydynt wedi'u cyfiawnhau.
AMRH05 – Strategaeth Anheddu - Natur y datblygu yn y 'Lleoliadau Eraill'	S01, S04	-	Roedd y datblygu a ddigwyddodd y tu allan i'r hyn a ganiateir gan Strategaeth y CDLI, TAN 6 a Pholisi Cynllunio Cymru 9.2.22 yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn y Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhelliad y Swyddog. Ym mhob achos, cafodd rhesymau yn cyfiawnhau hyn eu cofnodi. Nid oes unrhyw bryderon polisi yn deillio o'r dangosydd hwn

			oherwydd roedd argymhellion y swyddog priodol wedi cael eu rhoi gerbron ym mhob achos. Ar yr amod bod cyfiawnhad cynllunio da yn cael ei gyflwyno, gall ceisiadau gael eu caniatáu mewn achosion eithriadol. Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau os yw cyfiawnhad yn cael ei roi gerbron bod hyn wedi'i seilio ar ymresymu cynllunio ac, os oes modd, mae tystiolaeth gadarn wedi cael ei chyflwyno yn unol â S04 a S05 (e.e. o angen lleol os yw'r cais yn ymwneud â thai fforddiadwy) oherwydd y risg posibl o adolygiad barnwrol os yw ystyriaethau amherthnasol yn cael eu hystyried neu os yw tystiolaeth o ystyriaeth berthnasol heb gael ei hystyried.
AMRH06 – Cyflenwad Tir ar gyfer Tai	S01, S02, S03, S04, LU05	-	Nid yw'r targed cyflenwad tir 5 mlynedd yn cael ei gyflawni. Bydd priodoldeb strategaeth, polisiau a dyraniadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad pedwar blyneddol statudol o'r CDLI.
AMRH07 – Cyflenwi Safleoedd Tai wedi eu Neilltuo	S01, S02, S03, S04	-	Mae'r perfformiad wedi cynyddu ers y flwyddyn ddiwethaf ac er nad yw'r targedau wedi cael eu cyflawni, maent yn dangos cam cadarnhaol i'r cyfeiriad iawn. Mae pryderon bod 40% erbyn 2017 yn annhebygol o gael ei gyflawni, felly mae angen cynnal adolygiad o safleoedd a neilltuwyd.
AMRH08 – Datblygu Tai mewn Lleoliadau Priodol	S01, S03	-	Nid yw'r targed wedi cael ei gyflawni ers mabwysiadu'r cynllun er bod gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r mwyafrif o'r datblygiadau yn parhau heb eu gwireddu ar safleoedd a neilltuwyd. Mae hyn yn dangos bod angen adolygu'r safleoedd a neilltuwyd i lywio'r adolygiad o'r CDLI.
AMRQ04 – Yr Amgylchedd a Bio-amrywiaeth Leol	DM15, DM20, DM22	-	Nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cyflawni'r targed a nodwyd. Proses ac nid geiriad y polisi sydd i'w gyfrif am hyn felly er nad oes unrhyw bryderon ynghylch y polisi ei hun, mae pryderon ynghylch y broses yn cael eu nodi. Mae camau gweithredu yn cael eu cynnig i gefnogi gweithrediad gwell o'r polisi yn y dyfodol.

* Print trwm yn nodi dangosyddion craidd

6.13 Mae Adran 5 yn nodi canlyniadau proses monitro'r AG/AAS sy'n dod i'r casgliad bod effaith gadarnhaol gyffredinol wedi cael ei gwireddu. Yn ystod y flwyddyn ni ymgynghorwyd ar unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol eraill na'u mabwysiadu. Gweler Atodiad 5 am restr lawn o'r 10 Canllaw Cynllunio Atodol a'u statws.

Lle na wnaed cynnydd, y rhesymau dros hyn a pha effeithiau canlyniadol a allai fod?

6.14 Hwn yw'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol i'w baratoi ar gyfer CDLI Ceredigion. Mae Adran 4 yn rhoi dadansoddiad manwl o lwyddiant y cynllun hyd yma yn ôl y dangosyddion monitro a'r ffactorau o ran cyflawni'r Strategaeth yn ystod 2015/16. Ceir crynodeb o'r casgliadau yn y tabl isod:

Tabl Crynodeb Monitro'r CDLI	
Polisi*	Statws
S01, S02, S03, S05, LU06, LU05, LU02, S04, LU13, LU11, LU12, LU18, LU19, LU20, LU21, LU22, DM12, DM11,	Cyflawnwyd y polisi, neu rhagorwyd arno. Nid oes angen ymyrraeth.
S01, S03, S02, LU24, DM11, LU27, LU30, DM15, DM20, DM22	Nid yw'r polisi'n cyflawni cystal â'r disgwyl, ond mae'n cyflawni'n ddigonol ac nid oes angen mesurau ymyrraeth.
S01, S02, S03, S04, LU05, DM15, DM20, DM14	Nid yw'r polisi'n cyflawni cystal â'r disgwyl a dylid ystyried mesurau ymyrraeth.
S01, S02, S03, S04, LU12, LU13, LU18, LU19, LU20, LU21, LU22, LU31	Nid oes modd dod i unrhyw gasgliad ar hyn o bryd.

* Gall polisiâu ymddangos mewn mwy nag un categori os yw mwy nag un dangosydd monitro'r CDLI yn berthnasol iddynt.

6.15 Mae wyth polisi wedi cael eu hysgogi i'w hystyried ac fe'u trafodir isod:

S01, S02, S03 and S04 – The Strategy and ‘S’ Policies

6.16 Strategaeth y CDLI yw canolbwyntio o'r newydd ar dwf yn y Canolfannau Gwasanaethau. Er bod rhai agweddau ar y polisiâu yn cael eu cyflawni neu nid oes angen ymyrraeth, mae pryder yn parhau ynghylch cyfradd y cynnydd tuag at rai targedau a nodwyd. Dair blynedd ers mabwysiadu'r cynllun, gwelwyd gwelliannau yn rhaniad canrannol ymrwymadau tai ar draws Canolfannau Gwasanaethau, Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill. Felly bydd rhaid i adolygiad o'r cynllun ystyried cadernid y strategaeth, gan gynnwys y diffyg datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau a'r rhesymau dros hyn trwy gynnal adolygiad o safleoedd a neilltuwyd a'r posibilrwydd ar gyfer dwyn strategaeth y cynllun ymlaen i'w chyflenwi dros gyfnod hwy. Mae angen ymchwiliad pellach o

benderfyniadau cynllunio wedi'u dirprwyo a heb eu dirprwyo yn ôl lleoliad.

- 6.17 Ers y cyfnod monitro blaenorol mae cyfanswm yr Aneddiadau Cyswllt sydd bellach yn rhagori ar eu terfyn o 12% wedi cynyddu ychydig. Mae'r datblygiadau sydd wedi digwydd mewn 'Lleoliadau Eraill' yn deillio o'r penderfyniadau a wnaed yn y Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhellion y Swyddog. Ym mhob achos, cafodd y cyfiawnhad ar gyfer hyn ei gofnodi. Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau pan fydd cyfiawnhad yn cael ei roi gerbron bod hwnnw'n seiliedig ar ymresymu cynllunio, a lle y bo modd, bod tystiolaeth gadarn wedi'i chyflwyno yn unol â S04 a S05 (e.e. o angen lleol os yw'r cais yn ymwneud â thai fforddiadwy) oherwydd y risg posibl o adolygiad barnwrol os yw ystyriaethau cynllunio heb fod yn berthnasol yn cael eu hystyried, neu os oes tystiolaeth berthnasol heb gael ei darparu i'w hystyried.

LU05 – Securing the delivery of Housing Development

- 6.18 Dangosodd adroddiad Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016 fod cyflenwad 3.4 mlynedd o dir a 5 mlynedd o gyflenwad tai heb gael ei wireddu am ddwy flynedd yn olynol. Cydnabyddir bod llai o ddatblygu tai ar draws Cymru ac nid yw'n broblem sy'n unigryw i Geredigion. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd peth gwaith ymgysylltu â'r datblygwyr a pherchnogion safle gan y Swyddog Cyflenwi Tai, ac yn ystod y broses o baratoi'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai a chydabyddir bod angen gwneud gwaith pellach i asesu'r gallu i ddatblygu safleoedd a neilltuwyd fel rhan o'r adolygiad o safleoedd a neilltuwyd. Mynegodd rhai datblygwyr bryder ynghylch hyfywedd datblygiadau ac felly mae Aseiad Hyfywedd Strategol wedi cael ei gomisiynu, a bydd y canlyniadau yn bwydo i mewn i'r adolygiad o'r CDLI.

- 6.19 O ganlyniad, mae lefel datblygu tai yn parhau i fod yn is na'r hyn sy'n ofynnol i ddiwallu Strategaeth y CDLI. Bydd priodoldeb strategaeth, polisiâu a dyraniadau tai y CDLI yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad pedwar blyneddol statudol o'r CDLI. Bydd yr adolygiad hwn yn hwyluso ystyriaeth briodol yn sgil casgliadau unrhyw ymchwil sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar y cyflenwad tai a'r galw am dai ar draws Cymru.

DM15 - Cadw Bioamrywiaeth Leol, DM20 - Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd, DM22 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol

- 6.20 Mae DM15, DM20 a DM22 wedi cael eu hysgogi oherwydd rhagwelir bod mwy na 5% o'r datblygiadau a ganiateir yn cael effeithiau hirdymor neu anhysbys gweddilliol arwyddocaol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth leol. Mae'r methiant i'w briodoli i broses ac nid geiriad y polisi ac felly er nad oes unrhyw bryderon ynghylch y polisi ei hun, mae pryderon ynghylch y broses yn parhau a chynigir bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i geisio rhoi sylw i'r materion hyn. At hynny, pwysleisir bod gwelliant sylweddol (20%) wedi cael ei gyflawni o ran gwelliannu amgylcheddol. Dylai dangosyddion amgylcheddol barhau i gael eu monitro'n agos i sicrhau bod y duedd hon yn parhau.

6.21 Mae casgliadau ymarfer monitro AG/AAS wedi'u nodi yn Adran 5 o'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae'r canlyniadau yn dangos bod y cynllun yn teithio i gyfeiriad cadarnhaol ar y cyfan.

Pa agweddau ar y CDLI y mae angen eu haddasu neu eu disodli os o gwbl am nad ydynt yn gweithio fel y bwriadwyd neu am nad ydynt yn cyflawni amcanion y strategaeth a/neu amcanion datblygu cynaliadwy?

6.22 Mae symudiadau cadarnhaol tuag at gyrraedd amcanion penodedig y strategaeth wedi cael eu gwneud, fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd er mwyn gallu cyflawni targedau'r strategaeth erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Felly mae'n rhaid i'r CDLI gael ei addasu a'i ddisodli mewn manau. Caiff unrhyw newidiadau i'r CDLI eu hystyried fel rhan o adolygiad statudol 4 blynyddol o'r cynllun.

Os bydd angen newid polisiau neu gynigion, pa gamau yr awgrymir sydd eu hangen i gyflawni hyn.

6.23 Bydd polisiau neu gynigion sy'n gofyn am newid yn cael eu nodi yn adroddiad yr adolygiad a'u hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI.

Casgliad

6.24 Bydd casgliadau cynllun ysgogi adolygiad o'r Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn hon yn llywio'r adroddiad o'r adolygiad o'r CDLI yn 2017.

6.25 Bydd rhaid i'r adolygiad ystyried:

- Cadernid cyffredinol y strategaeth a'r posibilrwydd ar gyfer dwyn strategaeth y chynllun ymlaen i'w cyflawni dros gyfnod hwy.
- Maint, cyflenwad, lleoliad a datblygiad pob safle a neilltuwyd.
- Statws aneddiadau.
- Yr angen i ddiwygio rhai polisiau yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol newydd a'r rhai sy'n cael eu datblygu.
- Capasit isadeiledd (yn enwedig Trafnidiaeth a Carthffosiaeth) i alluogi safleoedd i ddod ymlaen.

6.26 Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn cynnig modd ystyried y materion hyn yn briodol yn sgil tystiolaeth newydd gan gynnwys:

- Asesiad o Farchnad Dai Leol Ceredigion (2016).
- Astudiaeth Hyfywedd Tai Strategol wedi'i diweddarau.
- Asesiad o Anghenion Economaidd wedi'i ddiweddarau.
- Asesiad Ynni Adnewyddadwy.
- Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddarau.
- Adolygiad o Statws Canolfannau Gwasanaethau a Safleoedd a Neilltuwyd.
- Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd seiliedig ar ddata 2014 (Hydref 2016)

Atodiad 1: Newidiadau i'r Fframwaith Monitro (2015 - 2016)

* Ar gyfer newidiadau blaenorol i'r Fframwaith Monitro cyfeiriwch at Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol.

Cyfeirnod Monitro	Dangosyddion	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddo dd y newid
AMRE01	Cyflenwad/datblygiad net y tir economaidd (hectarau/metrau sgwâr).	Dileu 'Dangosydd Statudol' o'r Cyfeirnod Monitro a newid lefel o Graidd i Leol.	I gydymffurfio â gofynion Adran 9.3.3 Llawlyfr y CDLI (2016).	2015 - 2016
AMRE02	Faint o ddatblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau).	Dileu 'Dangosydd Statudol' o'r Cyfeirnod Monitro a newid lefel o Graidd i Leol.	I gydymffurfio â gofynion Adran 9.3.3 Llawlyfr y CDLI (2016).	2015 - 2016
AMRH04	O 1 Ebrill 2007, ar lefel Grwpiau Aneddiadau, twf yng nghyfanswm y stoc dai a ymrwymwyd yn yr Aneddiadau Cyswllt unigol.	Newid testun Ysgogyddion a Chamau Gweithredu i ddileu 'Os na chyrhaeddir y 12% ond bod cyfradd y twf yn uwch na 4% fel y nodir yn DM01 bydd dadansoddiad ynghylch a oes cyfiawnhad dilys dros fynd dros ben y 4% (e.e. tai fforddiadwy yn unol ag S04).	Er eglurder ac er mwyn adlewyrchu beth sydd wedi cael ei fonitro'n hanesyddol.	2015 - 2016
AMRH07	Faint o ddatblygiadau tai sy'n cael caniatâd cynllunio ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau a hectarau):	Dileu 'Dangosydd Statudol' o'r Cyfeirnod Monitro a newid lefel o Graidd i Leol.	I gydymffurfio â gofynion Adran 9.3.3 Llawlyfr y CDLI (2016).	2015 - 2016
AMRH13	Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd datblygu a	Dileu 'Dangosydd Statudol' o'r Cyfeirnod Monitro a newid lefel o Graidd i Leol.	I gydymffurfio â gofynion Adran 9.3.3 Llawlyfr y CDLI (2016).	2015 - 2016

Cyfeirnod Monitro	Dangosyddion	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddo dd y newid
	neilltuwyd yn y cynllun.			
AMRE05	Maint y datblygiadau mawr (datblygu uwch nag 800 o fetrau sgwâr gros) o ran swyddfeydd, manwerthu a hamdden a ganiateir yng nghanol trefi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir.	Newid y dangosydd i 'Faint o ddatblygiadau mawr o ran manwerthu, swyddfa a hamdden (m sg) a ganiateir yng nghanol trefi o fewn a'r tu allan i ffiniau canol trefi a dosbarth sefydledig.'	I gydymffurfio â gofynion Adran 9.3.3 Llawlyfr y CDLI (2016).	2015 - 2016
AMRQ04	% y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau hirdymor sylweddol gweddilliol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth.	Yn cynnwys cyfeiriad at 'effeithiau anhysbys' yn y targed.	Er eglurder ac i adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael a'r perfformiad a gofnodwyd.	2015 - 2016
AMRQ07	% y datblygiadau o dan baragraff 5.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 nad ydynt yn bodloni pob un o'r profion a osodir o dan baragraff 6.2 i-v Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15.	Dileu 'Dangosydd Statudol' o'r Cyfeirnod Monitro a newid lefel o Graidd i Leol.	I gydymffurfio â gofynion Adran 9.3.3 Llawlyfr y CDLI (2016).	2015 - 2016
AMRQ02	Faint o dir glas a gollir i ddatblygiadau (hectarau) ar safleoedd annisgwyl neu safleoedd heb eu neilltuo.	Dileu 'Dangosydd Statudol' o'r Cyfeirnod Monitro a newid lefel o Graidd i Leol.	I gydymffurfio â gofynion Adran 9.3.3 Llawlyfr y CDLI (2016).	2015 - 2016

Cyfeirnod Monitro	Dangosyddion	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddo dd y newid
AMRQ01	Maint y mannau agored a chyfleusterau hamdden a gollir i ddatblygiadau (hectarau ac unedau) ar safleoedd annisgwyl a safleoedd heb eu neilltuo.	Dileu 'Dangosydd Statudol' o'r Cyfeirnod Monitro a newid lefel o Graidd i Leol.	I gydymffurfio â gofynion Adran 9.3.3 Llawlyfr y CDLI (2016).	2015 - 2016
AMRQ09	Maint y capasiti rheoli gwastraff a ganiateir fel canran o'r holl gapasiti sy'n angenrheidiol fel y nodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol.	Dileu 'Dangosydd Statudol' o'r Cyfeirnod Monitro a newid lefel o Graidd i Leol.	I gydymffurfio â gofynion Adran 9.3.3 Llawlyfr y CDLI (2016).	2015 - 2016
AMRQ10	Maint yr agregau a ganiateir a rheiny o fwyngloddio'n bennaf yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau fel canran o'r holl gapasiti sy'n angenrheidiol fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.	Dileu 'Dangosydd Statudol' o'r Cyfeirnod Monitro a newid lefel o Graidd i Leol.	I gydymffurfio â gofynion Adran 9.3.3 Llawlyfr y CDLI (2016).	2015 - 2016
AMRQ08	Y capasiti MW gosodedig sy'n ymwneud â datblygu ynni adnewyddadwy a gymeradwyir yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) D.	Dileu 'Dangosydd Statudol' o'r Cyfeirnod Monitro a newid lefel o Graidd i Leol.	I gydymffurfio â gofynion Adran 9.3.3 Llawlyfr y CDLI (2016).	2015 - 2016
Amcanion	Amrywiol.	Newid amllder lle nad yw'r	Er eglurder ac i adlewyrchu'r	2015 - 2016

Cyfeirnod Monitro	Dangosyddion	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddo dd y newid
Cynaliadwydd 1a, 2c, 6a, 7a ac 8a		wybodaeth ar gael yn flynyddol o 'Yn flynyddol' i 'Fel y bo ar gael'.	wybodaeth sydd ar gael a'r perfformiad a gofnodwyd.	
Amcan Cynaliadwydd 4a	% y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau hirdymor sylweddol gweddilliol ar yr amgylchedd.	Cynnwys cyfeiriad at 'effeithiau anhysbys' yn y targed.	Er eglurder ac i adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael a'r perfformiad a gofnodwyd.	2015 - 2016
Amcan Cynaliadwydd 9a	Nifer a chanran y bobl 16-64 oed sydd ag o leiaf cymhwyster NVQ lefel 2 neu'r cyfwerth a nifer a chanran y bobl 16-64 oedd sydd ag o leiaf cymhwyster NVQ Lefel 4 neu'r cyfwerth.	Newid y dangosyddion i ddarllen 'Nifer a % y bobl 16-64 oed sydd â chymwysterau NVQ'.	Er eglurder ac i adlewyrchu'r perfformiad a gofnodwyd.	2015 - 2016

Atodiad 2: Crynodeb o Ddangosyddion y CDLI

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
AMRH01	<ul style="list-style-type: none"> Niferoedd cyffredinol y boblogaeth; Y rhai sydd mewn addysg uwch ac nad ydynt mewn addysg uwch Ymfudo cyfartalog net. 	Lleol	N/A	N/A	N/A						
AMRH02	O'r dyddiad mabwysiadu dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymiadau ledled y Sir gyfan fod yn dynesu at y rhaniad canrannol a geisir ledled y Sir erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.	Lleol	0	0	-						
AMRH03	O'r dyddiad mabwysiadu, yn y Grwpiau Aneddiadau unigol, dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymiadau rhwng y Ganolfan Gwasanaethau a'r 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' fod yn unol â'r gofynion a nodir yn Atodiad 2 Cyfrol 1 y CDLI, neu'n gweithio tuag atynt.	Lleol	0	0	-						
AMRH04	O 1 Ebrill 2007, ar lefel y Grwpiau Aneddiadau, twf yr holl stoc dai a ymrwymwyd yn	Lleol	0	0	-						

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
	yr Aneddiadau Cyswllt unigol.										
AMRH05	O'r dyddiad mabwysiadu, y math o ddatblygu a ganiateir.	Lleol	?	0	-						
AMRH06	Cyflenwad Tir ar gyfer Tai ar 1 Ebrill bob blwyddyn.	Craidd	+	0	-						
AMRH07	<p>1. Faint o ddatblygiadau tai sy'n cael caniatâd cynllunio ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau a hectarau) fel a ganlyn:</p> <p>i. Ar 31 Mawrth 2015, 40%</p> <p>ii. Ar 31 Mawrth 2017, 60%</p> <p>iii. Ar 31 Mawrth 2019, 84%</p> <p>iv. Ar 31 Mawrth 2021, 100%</p> <p>2. Faint o ddatblygiadau tai a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau a ha) fel a ganlyn:</p> <p>i. Ar 31 Mawrth 2015, 20%</p> <p>ii. Ar 31 Mawrth 2017, 40%</p> <p>iii. Ar 31 Mawrth 2019, 64%</p>	Craidd	0	0	-						

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
	iv. Ar 31 Mawrth 2021, 88%										
AMRH08	<p>1. Maint y datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o gyfanswm y datblygu a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau (hectarau ac unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI).</p> <p>2. Maint y datblygiadau tai a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir yn y Canolfannau Gwasanaethau (hectarau ac unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI).</p>	Craidd	0	0	-						
AMRH09	<p>1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu a chyfaddasu ar dir llwyd) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir.</p> <p>2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu a chyfaddasu ar dir llwyd) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir</p>	Lleol	+	+	+						

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
AMRH10	1. Nifer net yr anheddau fforddiadwy ychwanegol ac anheddau'r farchnad gyffredinol a ganiatawyd ers (1 Ebrill) 2007. 2. Nifer net yr anheddau fforddiadwy ychwanegol ac anheddau'r farchnad gyffredinol a gwblhawyd ers (1 Ebrill) 2007.	Craidd	0	0	0						
AMRH11	1. Canran y ceisiadau preswyl lle cyflwynir her dichonoldeb. 2. Nifer y safleoedd lle cyflwynir her a hynny'n llwyddiannus i leihau nifer y Tai Fforddiadwy fel cyfran o nifer yr heriau.	Lleol	+	+	+						
AMRH12	Unedau a Gwblheir ac Ymrwymadau yn ôl eu math.	Lleol	?	0	0						
AMRH13	Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd yn y cynllun datblygu.	Lleol	0	0	+						
AMRH14	Cymhareb y caniatadau a roddir o'i gymharu â'r unedau preswyl a gwblhawyd.	Lleol	0	0	0						
AMRH15	Nifer y Caniatadau Llawn neu Ganiatâd i Faterion a Gadwyd yn Ôl ar sail y	Lleol	0	0	0						

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
	mathau o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu. Nifer yr unedau a gwblhawyd yn ôl y mathau o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu.										
AMRE01	Cyflenwad/datblygiad net y tir economaidd (hectarau/metrau sgwâr).	Craidd	+	+	+						
AMRE02	1. Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau). 2. Maint y datblygu economaidd a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau).	Craidd	+	+	+						
AMRE03	1. Maint y datblygu economaidd a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir (hectarau ac unedau). 2. Maint y datblygu economaidd a gwblheir ar	Lleol	+	+	+						

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
	safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir (hectarau ac unedau).										
AMRE04	1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu a chyfaddasu tir llwyd) fel canran o'r holl ddatblygiadau a ganiateir. 2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu a chyfaddasu tir llwyd) fel canran o'r holl ddatblygiadau a gwblheir.	Lleol	0	0	+						
AMRE05	Maint y ddatblygiadau mawr (datblygu uwch na 800 m sg gros) swyddfa, manwerthu a hamdden a ganiateir o fewn a'r tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a dosbarth.	Craidd	+	?	?						
AMRE06	Faint o'r 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd bentref, ysgol gynradd) sydd mewn Canolfan Gwasanaethau Wledig.	Lleol	?	+	+						
AMRE07	Defnydd manwerthu sefydlog	Lleol	0	0	+						

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
	neu gynyddol ar Ffryntiadau Manwerthu Cynradd yn Aberystwyth ac Aberteifi. Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Ffryntiadau Manwerthu Eilaidd yn Aberystwyth ac Aberteifi.										
AMRQ01	Maint y mannau agored a chyfleusterau hamdden a gollir i ddatblygiadau (hectarau ac unedau) ar safleoedd annisgwyl a safleoedd sydd heb eu neilltuo.	Lleol	0	+	+						
AMRQ02	Faint o dir glas a gollir i ddatblygiadau (hectarau) ar safleoedd annisgwyl neu safleoedd sydd heb eu neilltuo.	Lleol	0	0	0						
AMRQ03	Ceisiadau cynllunio perthnasol yn unol â Pholisi LU24.	Lleol	0	0	0						
AMRQ04	% y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau tymor hir sylweddol gweddilliol neu anhysbys o ran: <ul style="list-style-type: none"> Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth 	Lleol	+	0	-						

